

COMPENDIWM CYFEIRIO

Cymru a Datblygu Cynaliadwy

UNIVERSITY OF CAMBRIDGE
PROGRAMME FOR INDUSTRY

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

CYNNAL CYMRU
The Sustainable Development Forum for Wales

© Cynnal Cymru a Rhaglen Prifysgol Caergrawnt ar gyfer Diwydiant.
Cedwir pob hawl.

Seminar Datblygu Cynaliadwy i Uwch Arweinwyr, Llunwyr Penderfyniadau a Dylanwadwyr: datblygir a rhedir Dysgu Meddwl yn Wahanol gan Raglen Prifysgol Caergrawnt ar gyfer Diwydiant ar gyfer Cynnal Cymru a Rheolaeth Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru. Ac eithrio ar gyfer unrhyw ddelio teg i ddibenion ymchwil neu astudiaeth breifat neu feirniadaeth o adolygiad fel y caniateir o dan y Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau neu Batentau 1998, ni ellir atgynhyrchu, storio neu drosglwyddo'r cyhoeddiad hwn, ar unrhyw ffurf neu trwy unrhyw ddull, ond gyda chaniatâd ysgrifenedig y cyhoeddwyr ymlaen llaw, neu mewn perthynas ag atgynhyrchu reprograffig yn unol â thelerau'r trwyddedau a gyhoeddir gan yr Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint. Dylid anfon ymholiadau am atgynhyrchu y tu allan i'r telerau hynny at Raglen Prifysgol Caergrawnt ar gyfer Diwydiant.

Argraffwyd y clawr ar Sidan Colotech a'r cynnwys ar Colotech Heb Haen: stiwardiaeth coedwig ardystiedig, mwydion cemegol di-goed, yn cynnwys dim clorin.

Llun y clawr wedi ei gymryd yn Niwbwrch, Ynys Môn.

Rhagair

Casglwyd *Cymru a Datblygu Cynaliadwy – Compendiwm Cyfeirio* gan Ganolfan Cysylltiadau Busnes, Atebolrwydd, Cynaladwyedd a Chymdeithas ym Mhrifysgol Caerdydd. Casglwyd rhan o'r ddogfen hon gan Jonathan Hanks, Uwch Ddarlithydd Cyswllt Rhaglen Prifysgol Caergrawnt ar gyfer Diwydiant ac academydd ar ymweliad yn Ysgol Raddedig Busnes Prifysgol Cape Town ar gyfer Rhaglen Fusnes a'r Amgylchedd Tywysog Cymru *Reference Compendium on Business and Sustainability* trwy ganiatâd caredig.

Mae'n cyd-fynd â'r traethawd *Cymru a Datblygu Cynaliadwy* ac yn dwyn ynghyd wybodaeth fanwl bellach ar gyfer y Seminar Datblygu Cynaliadwy i Uwch Arweinwyr, Llunwyr Penderfyniadau a Dylanwadwyr: *'Dysgu Meddwl yn Wahanol'*. Gyda chefnogaeth y Prif Weinidog a Llywodraeth Cynulliad Cymru daw'r seminar hon ag arweinwyr meddwl ynghyd o'r sectorau cyhoeddus, cyrff nid ar gyfer elw a'r sector preifat i gyflwyno a thrafod syniadau allweddol mewn cynaladwyedd.

Mae Cynnal Cymru, y Fforwm Datblygu Cynaliadwy i Gymru a Rheolaeth Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru wedi gwahodd Prifysgol Caergrawnt, Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Cymru, Bangor i ddarparu'r seminar unigryw hon a fydd yn ffurfio rhan o'r ymrwymiad parhaus tuag at Gymru gynaliadwy.

"Mae llywodraethu da bob amser yn uchel ar fy agenda fel ag y mae wrth galon creu dyfodol cynaliadwy ar gyfer unrhyw wlad. Mae'n fwy na chael arweinwyr cryf ac effeithiol yn unig. Mae cyflawni newid go iawn yn galw am gyfranogiad gweithredol pob adran mewn cymdeithas."
Prif Weinidog Rhodri Morgan AC

Cynnwys

Pennod 1

Cymru a Chynaladwyedd – Diffiniadau a Chysyniadau Craidd 7

Cymru a Datblygu Cynaliadwy – Hanes Cymru 7
Datblygu Cynaliadwy yng Nghymru 9
Deall Datblygu Cynaliadwy 10
Y Model Pum Cyfalaf 10
Egwyddorion Cynaladwyedd y Cam Naturiol 11
'Olwyn Bwnc' DC 11
Egwyddorion Allweddol DC 12
Offeryn Integreiddio Polisi LlCC 13
Ansawdd Bywyd 15
Cyfiawnder: Mynd i'r Afael â Thlodi ac Anghydraddoldeb 17
Rhyng-genedliadol 17
Rhwng Rhyw ac Ymysg Grwpiau Oedran 18
Rhyngwladol (yn cynnwys Masnach Teg) 19
Rhyngranbarthol 20
Amrywiaeth 21
Bioamrywiaeth 21
Cymdeithasol 22
Economaidd 23
Dinasyddiaeth, Democratiaeth a DC 25
Cymunedau a Ffyrdd o Fyw Cynaliadwy 26
Treuliant 26
CTA 27
Cymunedau Gwledig Cynaliadwy 27
Dinasoedd Cynaliadwy 28
Adfywio 29
Egwyddor Llygrwr yn Talu 30
Egwyddor Rhagofalus 31
Byw gyda Dogni Carbon 33
Eco Effeithiolrwydd 34
Ecoleg Diwydiannol 34
Cynhyrchu Glanach 34
Ffactor Pedwar a Ffactor Deg 34
Dylunio ar gyfer yr Amgylchedd 35
Symbiosis Diwydiannol 36

Rheolaeth Amgylcheddol: 37
Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol a DC 37
Systemau Rheolaeth Amgylcheddol 37
ISO 14000 37
BS 8555 38
Y Ddraig Werdd 39
Asesiad Cylch Bywyd 40
Stiwardiaeth Cynnyrch 40
Ecolabelu a Labelu Cymdeithasol 41
Rheolaeth Cadwyn Cyflenwadau 42
Cyfrifo ac Archwilio Cymdeithasol 43
Adrodd ar Gynaladwyedd 43
Mesur Datblygu Cynaliadwy – Dangosyddion Macro 44
Mynegai Datblygiad Dynol y Cenhedloedd Unedig (CU) 44
Mynegai ar gyfer Lles Economaidd Cynaliadwy 45
Mynegai Cystadleugarwch Cyfrifol 46
Mynegai Cynaladwyedd Amgylcheddol Fforwm Economaidd y Byd 46
Olion Traed Ecolegol 47
Dangosyddion DU 48

Pennod 2

Tirwedd Gwleidyddol: Byd-eang 49

Ymrwymiadau Gwleidyddol Archfwaol 49
Comisiwn y Cenhedloedd Unedig ar DC 49
Rhaglen Amgylchedd y CU (UNEP) 49
Cytundebau Craidd y Corff Llafur Rhyngwladol ar Safonau Llafur 50
Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol 51
Datganiad Rio ar Amgylchedd a Datblygu 53
Nodau Datblygu'r Mileniwm 53
Cynllun Gweithredu Johannesburg (WSSD) 55
Hinsawdd ac Atmosffer 58
Cytundeb Fframwaith y CU ar Newid Hinsawdd 58
Protocol Kyoto 60
Cytundeb Vienna ar gyfer Diogelu'r Haen Osôn 61
Protocol Montreal 61
Cemegolion 62
Cytundeb Rotterdam ar Ganiatâd Gwybodus Blaenorol ar gyfer Cemegolion Peryglus 62
Cytundeb Stockholm ar Lygrwyr Organig Parhaol 63

Gwastraff 64
Cytundeb Basel ar Wastraff Peryglus Traws Ffiniau 64
Rheoliadau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (GOTE & CDB); 64
Bioamrywiaeth 67
Cytundeb Ramsar ar Diroedd Gwlybion o Bwysigrwydd Rhyngwladol 67
Cytundeb mewn Masnach Rhyngwladol mewn Rhywogaethau Planhigion ac Anifeiliaid dan Fygythiad 67
Cytundeb y CU ar Amrywiaeth Biolegol 68
Protocol Cartegena ar Fioddiogelwch 69
Cytundeb y CU i Ymladd yn erbyn Anghyfanedd-dra 69
Cymru a'r Byd: Swyddogaeth Cymru yn Rhwydweithiau Rhanbarthau Ewropeaidd Cynaliadwy a Rhwydwaith Llywodraethau Rhanbarthol ar gyfer Datblygu Cynaliadwy (NRG4SD) 70

Pennod 3

Tirwedd Gwleidyddol: Cymru 71

Y Cyfansoddiad 71
Cymru: Gwell Gwlad 71
Dysgu Byw'n Wahanol 72
Dechrau Byw'n Wahanol 72
Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy 2004-07 72
Gwneud y Cysylltiadau 73
Amgylchedd 74
Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru 74
Agenda 21 74
Cynllun Gofodol 75
Ôl Troed 76
Strategaeth Amgylchedd sy'n Datblygu 77
Cymuned a Chymdeithas 78
Cymunedau'n Gyntaf 78
Strategaethau Cymunedol Lleol 79
Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy (ADC) 80
Ble mae/Beth yw Cymru 'Wledig'? 80
Amrywiaeth 82
Agenda Cydraddoldeb – Cynllun i Gymru 82
Rôl Strategol Bwrdd yr Iaith Gymraeg 82
Iaith Pawb – Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog 84

Pennod 4

Mentrau Busnes a Chynaladwyedd 87

Egwyddorion Byd-Eang a Chodau Ymarfer 89
- Canllawiau OECD ar gyfer Mentrau Cydwladol 89
- Compact Byd-Eang 90

Manylebau Systemau Rheolaeth 91
- ISO 14001 92
- Eco-Reolaeth a Chynllun Archwilio 92
- Atebolrwydd Cymdeithasol 8000 93
- Cyfres Asesu Lechyd a Diogelwch Galwedigaethol 94

Canllawiau ar Gyfranogiad Buddiolwyr, Adrodd ac Atebolrwydd 95
- Menter Adrodd Byd-Eang 95
- AccountAbility 1000 96

Mentrau Penodol i Sectorau 97
- Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd 97
- Cyngor Stiwardiaeth y Môr 98
- Gofal Cyfrifol 99
- Mentrau Sectorau Busnes Eraill 100

Mentrau Ariannol 101
- Egwyddorion Equator 101
- Egwyddorion Llundain 102
- Mynegai Cynaladwyedd Dow Jones 103
- FTSE4Good 104

Mentrau Penodol i Themâu Amrywiol 105
- Menter Masnach Moesegol 105
- Menter Eglurder Diwydiannau Cloddiol 105
- Menter Protocol Nwy Tŷ Gwydr 106

Pennod 5

Sefydliadau ar gyfer Datblygu Cynaliadwy 107

Cyrff Busnes 107
- Cyngor Busnes y Byd ar gyfer Datblygu Cynaliadwy 107
- Cynghorau Busnes Rhanbarthol ar gyfer Datblygu Cyniadwy 108
  - Yng Nghymru: Rhwydwaith ARENA 108
  - Yng Nghymru: Cylch 109
- Busnes ar gyfer Cyfrifoldeb Cymdeithasol 110
- Fforwm Arweinwyr Busnes Rhyngwladol 110
- CSR Ewrop 111
- Rhwydwaith Glasu Diwydiant 111

Cyrff Anllywodraethol a Chyrff Cymdeithasau Dinesig 113
Dadl Cynaladwyedd 113
Ffocws Busnes 113
Golwg Gorfforaethol 113
Cydffederasiwn Rhyngwladol Undebau Llafur Rhydd 113
Envirowise 114
Busnes yn y Gymuned 114
Eraill 115
Ffocws Amgylcheddol 115
Cyfeillion y Ddaear Rhyngwladol 115
Greenpeace Rhyngwladol 116
RSPB 116
BTCV 117
Eraill 118
Ffocws Cymdeithasol 119
Oxfam 119
Amnest Rhyngwladol 119
UNICEF 120
Achub y Plant 120
Eraill 121
Yng Nghymru: 121
Cynnal Cymru 121
Groundwork Cymru 123
Funky Dragon 123
Fforwm Leuenctid Cymru ar DC 124
Amgylchedd Cymru 125
Gwynedd Gynaliadwy 127
Asiantaeth ynni Canolbarth Cymru 127
Cyrff Ymchwil ac Academaidd 129
Fforwm ar gyfer y Dyfodol 129
Sefydliad Economeg Newydd 129
Canolfan Copenhagen 130
Rhaglen ar gyfer Diwydiant Prifysgol Caergrawnt 130
Sefydliad Adnoddau'r Byd 131
Sefydliad Wuppertal 131
Prifysgolion yng Nghymru 132

Cymru a Chynaladwyedd – Diffiniadau a Chysyniadau Craidd

Cymru a Datblygu Cynaliadwy – Hanes Cymru

Dros ddwy fil o flynyddoedd yn ôl, roedd poblogaeth Geltaidd yr hyn a ddaeth yn ddiweddarach yn Gymru yn ffermio cymysg, yn defnyddio adnoddau metel y tir ac yn ymdrechu i gadw natur unigryw eu diwylliant yn wyneb pwysau gwleidyddol ac ieithyddol, yn gyntaf oddi wrth Rufain ac yn ddiweddarach oddi wrth y llwythau Germanaidd. Mae'r patrwm hwnnw yn nodweddu llawer o hanes Cymru oedd i ddod.

Bu'r chwyldro diwydiannol yn bwynt canolog o ran hanes Cymru a'r cydbwysedd byd-eang rhwng pobl y Byd a'r amgylchedd naturiol. Mewn cyfnodau cyn ddiwydiannol, roedd yr economi yn bennaf yn amaethyddol ac felly yn rhwym wrth systemau a rhythmau natur. Er bod gweithgarwch dynol wedi ffurfio'r amgylchedd am filoedd o flynyddoedd, roedd gwaith a ffordd o fyw pobl yn adlewyrchu eu hamgylchedd naturiol a systemau naturiol. Roedd cynhyrchu nwyddau a darparu gwasanaethau yn digwydd ar raddfa 'crefftau' ac roedd cynhyrchu a threuliant yn bennaf yn digwydd yn lleol gyda rhywfaint o fasnachu rhanbarthol a rhyngwladol. Gyda phoblogaeth y byd tua 1.2 biliwn yn unig ym 1850, roedd effaith dynolryw ar y blaned o ran y defnydd o adnoddau a chynhyrchu llygredd a gwastraff yn gynaliadwy.

Roedd diwydianeiddio a phŵer glo a stem yn golygu bod modd cynhyrchu nwyddau ar raddfa llawer mwy ac wrth i dechnoleg ddatblygu roedd yn golygu fod dynolryw yn gallu tros esgyn ffiniau amser, gofod a graddfa oedd wedi bodoli am ganrifoedd. Cafodd byd lle'r oedd gwaith, treuliant a ffordd o fyw pobl yn dilyn natur ei ddisodli am un lle bydd ein heconomïau, treuliant a ffordd o fyw yn penderfynu ar dynged nifer o adnoddau a systemau naturiol.

Gosodd y chwyldro diwydiannol gymoedd gwyrdd a thawel De Cymru ar ganol llwyfan datblygu economaidd ym Mhrydain. Ym 1827 roedd diwydiant haearn De Cymru yn cynhyrchu hanner allforion Prydain ac erbyn yr 1880au roedd dociau Caerdydd yn allforio bron i naw miliwn tunnell o lo yn flynyddol, gan wneud Caerdydd yn brif ddinas ynni'r cyfnod. Ar eu brig roedd pyllau glo Cymru yn cyflogi dros chwarter miliwn o ddynion.

Cymru a Datblygu Cynaliadwy – Hanes Cymru

Mae'r profiad Cymreig ganrif yn ôl yn dangos yn glir fod defnyddio adnoddau naturiol a phobl er budd economaidd yn creu problemau amgylcheddol a chymdeithasol sylweddol. Ond, dim ond yn yr 1980au, ac esblygiad y cysyniad o Ddatblygu Cynaliadwy (DC) y daethpwyd i ddeall yn iawn sut y mae'r amgylchedd, cymdeithas a gweithgarwch economaidd yn gysylltiedig ac yn rhy-ddibynnol. Tyfodd y dystiolaeth fod ein strategaethau economaidd, ein technolegau cynhyrchu a'n ffyrdd o fyw yn cael effaith sylweddol ar yr amgylchedd naturiol, iechyd dynol ac ansawdd ein bywydau yn ystod yr 20fed Ganrif. Roedd tystiolaeth wyddonol yn dangos i ni fod coedwigoedd trofannol yn lleihau, llygrwyr yn cronni yn ein hatmosffer, afonydd a moroedd, a'r bygythiad oherwydd newid hinsawdd a chodiad yn lefelau'r môr oherwydd cynhesu byd-eang. Roedd hefyd yn dangos nad oedd yr ymchwil parhaus am dwf economaidd yn arwain at y gwelliant disgwyliedig yn lefelau hapusrwydd pobl na'u hansawdd bywyd a bod patrymau anghyfartaleddau mewn iechyd a safonau byw yn dal i fodoli o fewn a rhwng cenhedloedd.

Trafodwyd y materion hyn pan, ym 1983, creodd Cynulliad Cyffredinol y CU Gomisiwn Byd y CU ar Amgylchedd a Datblygu dan gadeiryddiaeth Dr Gro Harlem Brundtland, Prif Weinidog Norwy. Ym 1987 cyhoeddodd ei adroddiad pwysig, *Our Common Future* oedd yn darparu'r diffiniad cyntaf a ddefnyddiwyd yn eang ac a ddeallwyd o ddatblygu cynaliadwy fel:

"datblygu sydd yn diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain."

Yn y bôn mae cynaladwyedd yn golygu ymddwyn mewn modd lle y gall ymdrechion cyfredol i wella bywydau ac amodau (h.y. 'datblygiad') barhau (neu gael ei 'gynnal') yn ddi-bendraw. Mewn geiriau eraill mae DC yn canolbwyntio ar wella ansawdd bywyd i holl ddinasyddion y Ddaear heb gynyddu'r defnydd o adnoddau naturiol y tu hwnt i allu'r amgylchedd i'w cyflenwi yn ddi-bendraw. Mae'n golygu cael dealltwriaeth fod canlyniadau i ddiffyg gweithredu a bod rhaid i ni ddarganfod dulliau arloesol o newid strwythurau sefydliadol a dylanwadu ar ymddygiad unigol. Mae'n golygu gweithredu a newid polisi ac ymarfer ar bob lefel, o'r unigolyn i'r rhyngwladol. Nid yw datblygu cynaliadwy yn syniad newydd. Mae nifer o ddiwylliannau dros gyfnod hanes dynolryw wedi adnabod yr angen am gytgord rhwng yr amgylchedd, cymdeithas a'r economi. Ond yr hyn sydd yn newydd yw mynegiant o'r syniadau hynny yng nghyd-destun cymdeithas ddiwydiannol a gwybodaeth fyd-eang.

Er bod DC bellach wedi'i dderbyn yn gyffredinol fel nod ymysg llywodraethau, busnesau ac amrediad o gyrff eraill. Yr her wirioneddol fu darganfod dulliau o wneud cynnydd sylweddol tuag at hynny. Mae nifer o lywodraethau wedi datblygu strategaethau a thargedau ar gyfer cynaladwyedd ac 'ansawdd bywyd'. Mae nifer o fusnesau wedi gwneud yr un fath, yn aml yn integreiddio'r ymchwil am DC gyda'r cysyniad o gyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol a hyrwyddo achos busnes dros DC. Yr hyn oedd ar goll yn aml oedd unrhyw synnwyr y dylai'r ymchwil am DC fod yn gyfrifoldeb i lywodraeth a busnes, yn hytrach nag yn ddewis strategol iddynt i'w ystyried.

CYFEIRIAD GWEFAN DEFNYDDIOL

www.britannia.com/wales/whist.html

Datblygu Cynaliadwy yng Nghymru

Mae safle arbennig Cymru yn stori DC yn mynd yn ôl i Adran 121 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1988 oedd yn sefydlu llywodraeth ddatganoledig yng Nghymru. Roedd hyn yn rhoi dyletswydd ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i hyrwyddo DC ym mhob agwedd o'i waith ac i ddatblygu, adolygu ac adrodd ar gynllun i integreiddio egwyddorion cynaladwyedd trwy ei holl agenda llunio polisi. Gwnaeth hyn Gymru ymysg y lleoedd cyntaf un ar y blaned lle'r oedd yr ymchwil am DC yn bodoli fel cyfrifoldeb statudol. Roedd hefyd yn darparu nifer o gyfleoedd i Gymru fod yn un o'r arweinwyr ymysg y gwledydd a'r rhanbarthau hynny oedd yn ceisio gwneud cynnydd tuag at DC.

Cynhyrchodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei Gynllun Datblygu Cynaliadwy cyntaf *'Dysgu Byw'n Wahanol'* yn ystod 2000 a sefydlu Cynnal Cymru (Fforwm Datblygu Cynaliadwy i Gymru) yn ystod 2002. Mae'r weledigaeth o DC y mae Cymru yn ei cheisio wedi esblygu dros amser, gyda datblygiad strategaeth a chynllun gweithredu DC. Yn 2004 cyhoeddwyd *'Un dyfodol – llwybrau gwahanol'*, fframwaith ar y cyd y DU ar gyfer DC hyd at 2020, ac roedd yn cynnwys y weledigaeth ganlynol ar y cyd o DC:

"Nod datblygu cynaliadwy yw galluogi pobl ledled y byd i fodloni eu hanghenion sylfaenol a mwynhau gwell ansawdd bywyd heb beryglu ansawdd bywyd cenedlaethau'r dyfodol…
…i Lywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig caiff y nod hwnnw ei ddilyn mewn dull integredig trwy economi gynaliadwy, arloesol a chynhyrchiol sydd yn cyflwyno lefelau uchel o gyflogaeth; a chymdeithas gyfiawn sydd yn hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol, cymunedau cynaliadwy a lles personol. Gwneir hyn mewn dulliau sydd yn diogelu ac yn gwella'r amgylchedd naturiol a ffisegol a defnyddio adnoddau ac ynni mor effeithiol â phosibl."

Deall Datblygu Cynaliadwy

Fel syniad mae datblygu cynaliadwy yn cwmpasu holl agweddau'r amgylchedd, cymdeithas a'r economi. Gall hyn ei gwneud yn anodd i bobl ei ddeall a'i drosi yn faterion a blaenoriaethau mwy penodol. Mae amrediad o fodelau, fframweithiau, rhestrau gwirio a chyfatebiaethau wedi'u defnyddio mewn ymdrech i gyfleu yn glir i bobl beth yw DC a'r hyn y mae'n ei gwmpasu.

Y Model Pum Cyfalaf

Mae'r model Pum Cyfalaf yn darparu dull defnyddiol o gysyniadoli datblygu cynaliadwy. O ran y model hwn, gwelir argyfwng cynaladwyedd yn deillio o'r ffaith ein bod yn defnyddio ein stociau o gyfalaf naturiol, dynol a chymdeithasol ynghynt nag y maent yn cael eu cynhyrchu. Os na chaiff y raddfa hon o ddefnydd ei rheoli yn effeithiol yna ni ellir cynnal y stociau hanfodol hyn yn yr hir dymor.

Gan gadw hyn mewn cof, dylai cymdeithas geisio nodi a gweithredu ymarferion sydd naill ai'n cynyddu'r stociau hyn o asedau cyfalaf – gyda'r nod o fyw oddi ar yr incwm yn hytrach na lleihau'r cyfalaf – neu (i raddau cyfyngedig yn unig) cyfnewid un ffurf o gyfalaf am un arall.

Mae pum math o gyfalaf yr ydym yn derbyn ein nwyddau a gwasanaethau yr ydym eu hangen i wella ansawdd ein bywydau oddi wrthynt.

- Mae **Cyfalaf Naturiol** yn cyfeirio at yr adnoddau naturiol (mater ac ynni) a'r prosesau a ddefnyddir i gynhyrchu a chyflwyno nwyddau a gwasanaethau. Maent yn cynnwys *adnoddau* adnewyddol ac anadnewyddol, *sinciau* sydd yn amsugno, niwtraleiddio neu ailgylchu gwastraff, a *phrosesau* fel rheoli hinsawdd sydd gyda'i gilydd yn cynnal bywyd.
- Mae **Cyfalaf Dynol** yn cynnwys iechyd, gwybodaeth, sgiliau, cymhelliant a gallu pobl i greu cysylltiadau. Mae angen y rhain ar gyfer gwaith cynhyrchiol a chreu gwell ansawdd bywyd. Gellir meithrin cyfalaf dynol trwy wella cyfleoedd ar gyfer dysgu, creadigrwydd, symbyliad a gwell iechyd.
- Mae **Cyfalaf Cymdeithasol** yn ymwneud â sefydliadau sydd yn ein helpu i gynnal a datblygu cyfalaf dynol mewn partneriaeth ag eraill. Mae'n cynnwys sefydliadau fel teuluoedd, cymunedau, busnesau, undebau llafur, ysgolion a chyrff gwirfoddol. Cydran hanfodol o gyfalaf cymdeithasol yw datblygu ymddiriedaeth.

- Mae **Cyfalaf Gwneuthuredig** yn cynnwys nwyddau wedi'u gwneud gan ddyn neu asedau sefydlog sydd yn cyfrannu at y broses gynhyrchu neu ddarpariaeth gwasanaeth,, yn hytrach na bod yn rhan o'r allbwn ei hun. Er enghraifft mae'n cynnwys offer, peiriannau, adeiladau ac isadeiledd.
- Mae **Cyfalaf Ariannol** yn chwarae rhan hanfodol yn ein heconomi, gan alluogi mathau eraill o gyfalaf i gael ei berchenogi a'i fasnachu, er enghraifft trwy gyfranddaliadau, bondiau neu arian papur. Yn wahanol i fathau eraill o gyfalaf nid oes iddo unrhyw werth cynhenid ynddo'i hun ond mae'n gynrychioliadol o gyfalaf naturiol, dynol, cymdeithasol neu wneuthuredig. Cyfalaf ariannol yw prif fesur traddodiadol – y 'llinell waelod sengl' – perfformiad a llwyddiant busnes.

Egwyddorion Cynaladwyedd y Cam Naturiol

Mae'r Cam Naturiol, corff addysg amgylcheddol heb fod ar gyfer elw wedi sefydlu pedwar 'amodau system' gwyddonol eu sail sydd yn ffurfio set ddefnyddiol o egwyddorion gweithredol ar gyfer cwmnïau a sefydliadau. Mae'r amodau system yn datgan:

Mewn cymdeithas gynaliadwy nid yw natur yn destun cynyddu yn systematig:

- Crynodiadau o sylweddau wedi'u tynnu o gramen y Ddaear
- Crynodiadau o sylweddau a gynhyrchir gan gymdeithas
- Diraddiant trwy ddulliau corfforol

ac mewn cymdeithas gynaliadwy nid yw pobl yn destun amodau sydd yn systematig yn

- Tanseilio eu gallu i ddiwallu eu hanghenion.

'Olwyn Bwnc' DC

Dull poblogaidd o ddangos y pynciau gwahanol sydd o fewn agenda DC yw i'w dangos fel 'olwyn' yn ymledu allan o'r cysyniad canolog o DC. Rhoddir un enghraifft isod ac er nad yw'n gyflawn mae'n cynnwys y cydrannau a drafodir amlaf o'r agenda DC yn rhanbarthol ac yn fyd-eang.

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.naturalstep.org

Deall Datblygu Cynaliadwy



Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.srds.ndirect.co.uk/sustaina.htm
www.sd-commission.org.uk/pages/principles/principles.html

Egwyddorion Allweddol DC

Roedd y ddadl am DC yn dilyn cyhoeddi Adroddiad Brundtland yn canolbwyntio ar lond llaw o egwyddorion allweddol yn cynnwys:

- **Dyfodol** yr angen i ystyried cenedlaethau'r dyfodol a chyflwr yr amgylchedd naturiol yn y dyfodol wrth wneud penderfyniadau
- **Tegwch** sicrhau dosbarthiad tecach o adnoddau'r byd, rhwng gwledydd, rhanbarthau a chenedlaethau
- **Rhyngddibyniaeth** bod iechyd a diogelwch ein cymdeithasau, economïau a'r amgylchedd yn y dyfodol i gyd yn gysylltiedig ac yn rhyngddibynnol
- **Terfynau amgylcheddol** yr egwyddor fod rhai terfynau ar yr adnoddau y gall y ddaear eu darparu i ni a gallu systemau naturiol i amsugno llygredd heb gael ei ddiraddio
- **Diwallu anghenion** dylai blaenoriaeth mewn llunio penderfyniadau yn y dyfodol sicrhau fod anghenion sylfaenol holl boblogaeth y blaned yn cael eu diwallu.

Ers hynny, bu dadl barhaus am natur yr egwyddorion hyn a sut y dylid eu hintegreiddio i ffurfio polisi ac ymarfer. Mae'r cyd egwyddorion DC a fabwysiadwyd gan Lywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn 2005 fel a ganlyn:



Offeryn Integreiddio Polisi LlCC

Un o'r prif sialensiau i unrhyw gorff sydd yn delio â DC yw sicrhau fod ystyriaeth o faterion cynaladwyedd yn cael eu hintegreiddio i bob agwedd o wneud penderfyniadau. Gyda chymorth Fforwm ar gyfer y Dyfodol, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi datblygu *'Offeryn Integreiddio Polisi'* i'w ddefnyddio wrth ffurfio polisi a gwneud penderfyniadau yn Llywodraeth y Cynulliad. Mae'n helpu i sicrhau fod pob agwedd ar lunio polisi yn cael eu hasesu ar ba mor dda y maent yn cyfrannu tuag at agenda strategol Llywodraeth y Cynulliad ac i flaenoriaethau polisi Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r offeryn yn annog llunwyr penderfyniadau i ofyn amrediad o gwestiynau am unrhyw faterion polisi i sicrhau fod risgiau'n cael eu hystyried, ynghyd â chysylltiadau potensial i feysydd polisi eraill ac effeithiau ar nodau polisi eraill. Mae materion amgylcheddol yn elfen allweddol yn yr offeryn yn ogystal â datblygu economaidd, cyfiawnder cymdeithasol, iechyd, addysg a dysgu gydol oes a materion diwylliannol.

Deall Datblygu Cynaliadwy

Bydd gwir gynnydd tuag at DC yn dibynnu ar lywodraethau cenedlaethol, rhyngwladol a rhanbarthol yn ystyried DC, nid fel maes llunio polisi, ond fel dull o lunio polisi. Mae gan Gymru, fel gweddill y blaned, ffordd hir i fynd cyn cyflawni'r newid meddwl pwysig hwn. Ond mae'r offeryn integreiddio polisi yn darparu mecanwaith i sicrhau fod polisïau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol wedi'u 'huno' ar y cyfnod cychwynnol o wneud penderfyniadau. Nod yr offeryn yw annog penderfyniadau polisi da ac integredig ac mae ganddo'r potensial i annog dull gyda gogwydd mwy cynaliadwy tuag at benderfyniadau polisi.

Ansawdd Bywyd

Mae datblygu cynaliadwy yn golygu newid pwyslais mewn llunio polisi, gosod nodau a mesur cynnydd oddi wrth y mesurau economaidd meintiol confensiynol fel Cynnyrch Domestig Gros (GDP) neu Gwerth Ychwanegol Gros y pen (GVA). Nid fod ansawdd bywyd yn y gorffennol wedi'i anwybyddu. Pwynt y twf economaidd yn y gorffennol oedd cyllido gwelliannau cymdeithasol ac economaidd a fyddai'n cyfrannu at well ansawdd bywyd. Ond, yn ymarferol mae'r ymchwil am dwf economaidd cynyddol parhaus yn tueddu i greu problemau cymdeithasol ac amgylcheddol newydd sydd yn nacau ei allu i gyllido atebion i'r hen rai. Mae persbectif cynaladwyedd yn caniatáu rhagor o bwyslais ar ansawdd bywyd fel yr hyn yr ydym yn anelu ato, a llai ar dwf economaidd fel yr unig lwybr posibl i'w cyflawni. Mae'n caniatáu ystyried dulliau newydd o greu boddhad a gwerth ac mae'n cydnabod yn well y nifer o ffynonellau boddhad a gwerth sydd yn bodoli y tu allan i'r economi ffurfiol (er enghraifft trwy ein teuluoedd).

Mae ymchwil wedi dangos nad yw canfyddiad pobl o ansawdd bywyd, lles na hapusrwydd yn gysylltiedig â chyfoeth materol. Unwaith y symudwn y tu hwnt i dlodi, nid yw cynyddu treuliant yn ein gwneud yn gynyddol hapus. Mae iechyd, ansawdd ein bywydau gwaith, ansawdd ein cysylltiadau a hyd yn oed ffactorau genetig i gyd yn ddylanwadau cryfach ar ein hapusrwydd nag ydy cyfoeth cynyddol. Mewn cymhariaeth ryngwladol o ganfyddiad o hapusrwydd a gyhoeddwyd yn y *New Scientist* yn 2003, daeth Nigeria, gwlad gymharol dlawd, i'r brig, yna Mecsico, Venezuela, El Salvador a Puerto Rico. Er gwaethaf eu cyfoeth roedd America yn 16eg a Phrydain yn 24ain. Denmarc oedd yr unig wlad ddiwydiannol oedd wedi llwyddo i gydweddu degawdau o dwf economaidd gyda dylanwadau rheolaidd ar hapusrwydd pobl.

Mae'r hyn a olygir wrth 'ansawdd bywyd' yn amrywio rhwng gwledydd ac ymysg unigolion. Mae nifer o werthoedd ansawdd bywyd a rennir yn eang yn berthynol i ddiwallu ein hanghenion sylfaenol am fwyd a lloches; mwynhau iechyd da ac amgylchedd iach; mynediad i waith ystyrlon; mwynhau perthynas dda gyda'n teulu a'n ffrindiau; teimlo'n rhan o gymuned sefydlog a ffyniannus; rhyddid rhag trosedd neu ormes; a chael amser hamdden a chyfleoedd i fwynhau a mynegi ein hunain. Mae nifer o'r rhain yn cael eu hintegreiddio i ffurfiau newydd o ddangosyddion DC a ddefnyddir gan lywodraethau i ddatblygu ac asesu eu polisïau (gweler Adran 5 isod). Mae technegau asesu Ansawdd Bywyd hefyd wedi'u datblygu i integreiddio materion ansawdd bywyd i brosesau llunio polisi, yn enwedig mewn cynllunio defnydd tir.

Ansawdd Bywyd

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.foe.co.uk/campaigns/sustainable_development/progress/annex1.html
www.countryside.gov.uk/LAR/Landscape/Quality/overview/index.asp

"Gall fod twf economaidd wedi bod yn ddefnyddiol i wleidyddion ar ôl y rhyfel fel mesur rhesymol gywir ar gyfer lles neu fodlonrwydd dynol ond nawr gan fod yr allanolion amgylcheddol, cymdeithasol a seicolegol ynghlwm â chreu degawdau o dwf economaidd yn pwyso'n drymach nag erioed o'r blaen ar bobl, mae angen dybryd i ailagor y ddadl am dwf economaidd a lles ei hun."
Jonathan Porritt, Cadeirydd Comisiwn Datblygu Cynaliadwy, yn Redefining Prosperity: Resource Productivity, Economic Growth and Sustainable Development, 2003

Bu ymdrechion hefyd i greu mesurau cyfansawdd i sgorio ansawdd bywyd mewn gwahanol wledydd. Cynhyrchodd Uned Gwybodaeth yr *Economist* fynegai o 111 gwlad yn cyfuno data ar incwm, swyddi, iechyd, diweithdra, hinsawdd, sefydlogrwydd gwleidyddol gyda mesurau cymdeithasol yn ymwneud â chydraddoldeb rhyw, rhyddid, teulu a chymuned. Curodd Gwlad yr Iâ y Swistir ar y mynegai hwn ac roedd y DU yn 29ain.

Cyfiawnder: Mynd i'r Afael â Thlodi ac Anghydraddoldeb

Mae tlodi llwyr yn seiliedig ar gynhaliaeth, y safon leiaf sydd ei angen i fyw. Mae Cytundeb Copenhagen yn diffinio tlodi llwyr fel 'cyflwr a nodweddir gan ddiffyg difrifol o anghenion dynol sylfaenol, yn cynnwys bwyd, dŵr yfed diogel, cyfleusterau carthffosiaeth, iechyd, lloches, addysg a gwybodaeth'. Mae'n dibynnu ar incwm ond hefyd ar y modd o gael gafael ar wasanaethau cymdeithasol.

Tra bod Cymru yn gyffredinol yn tyfu'n fwy ffyniannus, mae nifer o bobl o hyd nad ydynt yn rhannu'r ffyniant hwnnw. Mae lefelau neilltuol o uchel o salwch hir dymor, diweithdra ymysg ieuenctid a phocedi o dlodi yng Nghymru. Nod polisïau a rhaglenni Llywodraeth Cynulliad Cymru yw mynd i'r afael â'r problemau y mae unigolion a chymunedau yn eu hwynebu er mwyn dod allan o dlodi.

Rhyng-genedliadol

Dengys ymchwil bod cysylltiadau cylch bywyd clir yn bodoli, sydd yn golygu bod tlodi'n cael ei drosglwyddo trwy'r cenedlaethau. Mae'r cysylltiadau cylch bywyd hyn yn gymorth i esbonio'r angen am bwyslais arbennig ar dlodi plant a rhoi'r cychwyn gorau posibl mewn bywyd i bob plentyn.

Mae agenda Llywodraeth Cynulliad Cymru a nodir yn *Cymru: Gwell Gwlad*, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2003, yn nodi'r pedwar maes allweddol y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn canolbwyntio arnynt: helpu rhagor o bobl i gael swyddi; gwella iechyd; datblygu cymunedau cryf a diogel; a chreu gwell swyddi a sgiliau.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gwneud cynnydd sylweddol o ran mynd i'r afael ag eithrio cymdeithasol a thlodi trwy rai o'i rhaglenni yn cynnwys:

- Mae'r Gronfa Cymunedau Diogelach yn buddsoddi dros £7 miliwn mewn Partneriaethau Diogelwch Cymunedol i fynd i'r afael â throsedd ac anhrefn ymysg ieuenctid. Mae £10 miliwn ar gael i gyllido'r *Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn*, i gynnwys pobl hŷn ac i fynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail oedran.
- Cynllun gyda chymorth grant yw cymunedau cynaliadwy sydd yn cyllido projectau lleol i sicrhau hyfywedd cymunedau difreintiedig a dechrau'r broses o integreiddio cyllid tuag at becynnau cydlynol i fynd i'r afael ag eithrio cymdeithasol a'i atal.

Cyfiawnder: Mynd i'r Afael â Thlodi ac Anghydraddoldeb

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ceisio rhoi arweiniad o ran mynd i'r afael â rhagfarn oed a dulliau eraill o wahaniaethu sydd yn wynebu pobl hŷn. Mae'n chwilio am ffyrdd o weithio gydag asiantaethau eraill (yn cynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Uned Cydraddoldeb y GIC) i godi ymwybyddiaeth am wahaniaethu ar sail oedran ym mhob maes o ddatblygu a gweithredu polisi.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gyfrifol am feysydd polisi allweddol sydd yn effeithio ar dlodi plant, yn cynnwys addysg, iechyd, tai a'r amgylchedd a sgiliau a chyflogaeth. Mae tlodi plant yn bwnc dyrys ac mae cael gwared ohono yn galw am sylw arbennig. Yng ngoleuni hyn mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio tuag at ddatblygu strategaeth i ymladd tlodi plant yng Nghymru.

- Bydd y *Tasglu Tlodi Plant*, a sefydlwyd ym mis Ebrill 2003, yn cyfrannu tuag at Strategaeth Tlodi Plant i Gymru.
- Rhaglen gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yw *Plant yn Gyntaf;* ei nod yw trawsnewid rheolaeth a chyflwyniad gwasanaethau cymdeithasol i blant yng Nghymru. Mae'r rhaglen yn effeithio ar bob plentyn mewn angen, yn cynnwys plant yn derbyn gofal, plant ag anableddau a rhai'n gadael gofal.

Rhwng Rhyw ac Ymysg Grwpiau Oedran

Mae'n rhaid ystyried effaith polisïau ar gyfer grwpiau gwahanol oherwydd cyfle cyfartal. Gall grwpiau mewn cymdeithas wynebu agweddau neilltuol o eithrio cymdeithasol oherwydd gwahaniaethu bwriadol neu anfwriadol a menywod, plant, pobl anabl a chymunedau lleiafrifoedd ethnig sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan faterion tlodi a diffyg cyfle.

Mae'n ddyletswydd statudol ar Lywodraeth Cynulliad Cymru, o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru, i hyrwyddo cyfle cyfartal i bob person; ac mae Llywodraeth y Cynulliad wedi mabwysiadu cyfle cyfartal fel thema draws bynciol allweddol.

Adlewyrchir ymhellach ymdrechion Llywodraeth Cynulliad Cymru i hyrwyddo cyfle cyfartal i bob person yn Neddf Llywodraeth Cymru sydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad ymarfer ei swyddogaethau a chynnal ei fusnes gyda sylw dyledus i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bob person. I sicrhau bod hyn yn digwydd, mae Rheolau Sefydlog yn rhoi darpariaeth i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal archwilio cynnydd y Cynulliad tuag at y nod honno. Mae'r rhwymedigaeth gyfreithiol hon, gyda chefnogaeth pwyllgor sefydlog y Cynulliad, wedi canolbwyntio sylw'r Cynulliad ymhellach ar yr angen i hyrwyddo cydraddoldeb.

Mae Deddf Llywodraeth Cymru yn gosod 'dyletswydd lwyr' ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i hyrwyddo cyfle cyfartal ar draws pob swyddogaeth ddatganoledig, heb unrhyw 'gymalau lleihad' (Sefydliad Materion Cymreig, 2002). Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi llwyddo i greu'r ddeddfwrfa a chabinet mwyaf cytbwys o ran rhyw unrhyw le yn y byd (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002). Ar ôl etholiadau 2003 mae 50% o Aelodau'r Cynulliad yn fenywod a 56% o fenywod yng Nghabinet y Cynulliad. Mae hyn yn groes i Senedd y DU lle mai dim ond 18% o AS a 29% o aelodau'r Cabinet sydd yn fenywod.

Rhyngwladol (yn cynnwys Masnach Teg)

Nid yw'n bosibl mynd i'r afael yn effeithiol ar lefel Cymru â'r holl ymrwymiadau rhyngwladol (e.e. gostwng allyriadau nwyon tŷ gwydr; atal colli bioamrywiaeth; gwneud cynnydd tuag at gael gwared ar dlodi a newyn eithafol; parchu hawliau dynol) trwy'r Uwch Gynadleddau Byd ar Ddatblygu Cynaliadwy.

Lansiodd Fforwm Masnach Teg Cymru a mentrau a chefnogwyr eraill Masnach Teg ymgyrch Masnach Teg Cymru sydd yn herio pobl, busnesau, defnyddwyr, awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus, sefydliadau crefyddol, cyrff gwirfoddol a phob Sefydliad Cenedlaethol (yn cynnwys Cynulliad Cenedlaethol Cymru) ledled y wlad i ddod yn rhan o ymgyrch Cymru gyfan dros Fasnach Teg.

Cyfiawnder: Mynd i'r Afael â Thlodi ac Anghydraddoldeb

Rhyngranbarthol

Mae pobl ifanc yn mudo o gefn gwlad Cymru i ganolfannau trefol a rhannau eraill o'r DU (yn enwedig y rhai â sgiliau a chymwysterau addysg uwch) wedi bod yn bryder mawr am beth amser, fel y cydnabyddir yn nifer o ddogfennau polisi allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn cynnwys *Cynllun i Gymru 2001, Cymru'n Ennill a Pholisi Cynllunio Cymru*. Er mwyn creu Cynllun Gweithredu i gynyddu cyfleoedd i bobl ifanc aros, neu ddychwelyd i gefn gwlad Cymru, rhoddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gontract i Newidiem, mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd a Menter a Busnes ym mis Mawrth 2002 i gynnal astudiaeth *Cymunedau Cytbwys o ran Oedran* i weld, ac i fesur maint y broblem a darparu tystiolaeth o'r tueddiadau dros yr ugain mlynedd diwethaf.

Nododd Llywodraeth y Cynulliad yr argymhellion yn deillio o'r adroddiad Cymunedau Cytbwys o ran Oedran i'w hymgorffori yn natblygiad pellach y cynigion yr ymgymerir â hwy gan Weithgor Cymunedau Cytbwys o ran Oedran Partneriaeth Wledig i Gymru.

Amrywiaeth

Mae amrywiaeth yn ymwneud â gwerthfawrogi gwahaniaeth a chael gwared ar wahaniaethu ar sail pwy yw pobl. Gall y gwahaniaethau hyn gynnwys dimensiynau hil, ethnigrwydd, rhyw, tueddiad rhywiol, statws cymdeithasol economaidd, oedran, galluoedd corfforol, credoau crefyddol, credoau gwleidyddol neu dechnolegau eraill. Byddai gwerthfawrogi gwahaniaeth felly yn archwiliad o'r gwahaniaethau hyn mewn amgylchedd diogel, cadarnhaol ac anogol a symud y tu hwnt i ddioddef yn unig i goleddu a dathlu dimensiynau cyfoethog amrywiaeth.

Bioamrywiaeth

Adlewyrchir yr ymrwymiadau sydd yn y Cytundeb Bioamrywiaeth yng *Nghynllun Datblygu Cynaliadwy* Llywodraeth Cynulliad Cymru ac mewn polisïau a rhaglenni eraill. Mae Deddf *Cefn Gwlad a Hawliau Tramwyo* yn gosod dyletswydd ar y Cynulliad i dalu sylw, cyn belled ag y mae'n gyson ag ymarfer cywir ei swyddogaethau, i ddiben cadw bioamrywiaeth yn unol â'r Cytundeb. O dan y Ddeddf mae'n ddyletswydd hefyd ar y Cynulliad i fod yn rhesymol ymarferol er mwyn hyrwyddo cadwraeth (yn cynnwys adfer neu wella) y rhywogaethau a'r mathau o gynefinoedd a nodir gan y Cynulliad fel blaenoriaethau ar gyfer cadwraeth fiolegol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn sicrhau bod ei bolisïau yn cyfrannu at gadwraeth helaethrwydd ac amrywiaeth bywyd gwyllt cynhenid a'i gynefinoedd a bydd yn lleihau effeithiau niweidiol ar fywyd gwyllt lle na ellir osgoi gwrthdaro buddiannau.

Daw *Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru* (PBC), a sefydlwyd ym 1996, â chwaraewyr allweddol o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ynghyd i hyrwyddo, monitro a chynghori Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar weithredu i gynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru. Mae awdurdodau lleol, mewn partneriaeth â chwaraewyr allweddol o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol wedi dod ynghyd i hyrwyddo, monitro a chynghori Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar weithredu i gynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru. Mae awdurdodau lleol, mewn partneriaeth â chyrff eraill a'r gymuned yn cynhyrchu *Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol* (CGBLl). Mae'r cynlluniau gweithredu hyn yn nodi'r mesurau angenrheidiol i sicrhau bod safleoedd a rhywogaethau o bwysigrwydd lleol a chenedlaethol yn cael eu diogelu a'u gwella ledled Cymru ar lefel Awdurdod Lleol.

Amrywiaeth

Bu cynnydd sylweddol ar bolisïau a strategaethau eraill sydd yn cyfrannu'n benodol i brif elfennau Datblygu Cynaliadwy, er enghraifft, cynllun amaethyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru yw *Tir Gofal* sy'n cael ei redeg gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru. Mae'r cynllun yn gwobrwyo ffermwyr am ofalu am fywyd gwyllt, nodweddion hanesyddol a diwylliannol ar eu tir, yn cynnwys darparu mynediad cyhoeddus newydd. Ei ddiben yw cefnogi'r gymuned ffermio i ddiogelu etifeddiaeth gyfoethog cefn gwlad Cymru ac mae'n adlewyrchu blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer ffermio cynaliadwy, ynghyd â rhagor o gyfleoedd i'r cyhoedd fwynhau cefn gwlad.

Cymdeithasol

Mae mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol yn un o'r tair prif thema y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ei mabwysiadu yn ei gynllun strategol *'Gwell Cymru'*. Y nod o fynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol yw datblygu cymdeithas gynhwysol lle mae gan bawb yng Nghymru gyfle i gyflawni eu potensial. Un o'r prif ddulliau y mae'r Cynulliad yn bwriadu gwneud hyn yw trwy'r fenter *'Cymunedau'n Gyntaf'*. Lluniwyd y fenter hon i alluogi cymunedau i ddilyn, datblygu cynaliadwy ac ymladd yn erbyn anfantais gymdeithasol. Derbyniodd papur ymgynghori a gyhoeddwyd yn 2000, oedd yn nodi gweledigaeth y Cynulliad ar gyfer y fenter *'Cymunedau'n Gyntaf'* lefel sylweddol o ymateb gan gyrff, asiantaethau, cymunedau ac unigolion. Mae'r lefel hon o ymateb yn sicrhau bod amrediad mor eang â phosibl o farn ac arbenigedd yn cyfrannu at y broses o lunio polisi.

Nodir rhaglen addysg a dysgu gydol oes gynhwysfawr Llywodraeth Cynulliad Cymru hyd at 2010 yn y ddogfen *'Y Wlad sy'n Dysgu'*. Mae hon, ynghyd â *Strategaeth Sgiliau Sylfaenol* Llywodraeth Cynulliad Cymru yn pwysleisio ymestyn mynediad i ddysgu fel dull o hybu ffyniant ac ymladd yn erbyn eithrio cymdeithasol ym mhob cymuned yng Nghymru. Mae Addysg a Dysgu Cymru (ELWa) a Chyngor Cenedlaethol Addysg a Hyfforddiant a'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol oll wedi'u cynnwys i helpu gydag adeiladu cynhwysedd cymdeithasol trwy ddysgu trwy gydol bywyd, gan ganolbwyntio'n arbennig ar y cymunedau mwyaf difreintiedig, yn unol â rhaglen *Cymunedau'n Gyntaf* Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Nod fframwaith strategol oes wybodaeth y Cynulliad Cenedlaethol, *'Cymru ar-lein'* a lansiwyd ym mis Tachwedd 2001, yw defnyddio TGC i helpu i greu cymdeithas fwy ffyniannus, cyfoethocach yn ddiwylliannol ac yn llai rhanedig. Mae mentrau eraill gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau ffyniant cymdeithasol ac economaidd ei ddinasyddion trwy gyflwyniad TGC yn cynnwys:

- Mae'r project peilot e-gymunedau yn Nhredegar a Blaenau Gwent o dan gynllun adfywio Corus yn annog y gymuned gyfan i ddefnyddio TGC.
- Mae Rhwydwaith y Bobl yn darparu cyfrifiaduron a mynediad i'r rhyngrwyd am ddim mewn llyfrgelloedd cyhoeddus.
- Mae Fforwm Datblygu Cynaliadwy Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cymru Ar-lein a Big Barn Ltd yn datblygu rhwydwaith o weithgareddau a gwasanaethau datblygu cynaliadwy yng Nghymru ar y we gyda'i gilydd, er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth a chynnwys cymunedau mewn datblygu cynaliadwy yng Nghymru trwy rannu gwybodaeth.

Economaidd

Un o brif ddyheadau Llywodraeth Cynulliad Cymru yw codi safon byw yng Nghymru i gyd-fynd â'r DU gyfan. I'r diben hwn mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi penderfynu cynyddu'r anogaethau ar awdurdodau lleol i weithio mewn partneriaeth â busnesau a buddiolwyr eraill i wneud y mwyaf o dwf economaidd lleol.

Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gosod y fframwaith strategol ar gyfer datblygu economaidd yng Nghymru, ac o fewn hynny, y prif amcanion polisi i gefnogi datblygiad busnesau. Yn unol â'r Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol a Chynllun Strategol i Gymru y Cynulliad Cenedlaethol, y nod cyffredinol yw gwella twf a chystadleugarwch y sector cwmnïau bach holl bwysig yng Nghymru.

Amrywiaeth

Mae rhai o'r amcanion allweddol yn cynnwys:

- Annog rhagor o gwmnïau seiliedig ar wybodaeth i ddod i Gymru a helpu busnesau sydd yn bodoli yma eisoes i ddefnyddio TGC a thechnoleg newydd arall yn fwy effeithiol.
- Hyrwyddo arloesi a throsglwyddo technoleg trwy ganolfannau arloesi a chysylltiadau agosach rhwng colegau a busnesau.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi lansio rhaglen economaidd hir dymor o'r enw *Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth* sydd yn cyllido amrediad o wasanaethau cefnogi busnes i bob sector yn y gymuned. Ymysg gweithgareddau eraill mae'n targedu grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli.

Mae *Cymru'n Ennill*, a lansiwyd ym mis Ionawr 2002, yn nodi strategaeth datblygu economaidd cenedlaethol sydd yn benodol yn ceisio rhoi datblygu ar sail fwy cynaliadwy o ran eco-effeithlonrwydd a chyfiawnder a manteisio ar y cyfleoedd y gallai datblygu cynaliadwy eu cynnig.

Dinasyddiaeth, Democratiaeth a DC

Mae addysg datblygu yn helpu pobl i ddeall y cysylltiadau rhwng eu bywydau eu hunain a bywydau eraill o gwmpas y byd; mae'n cynyddu eu gwybodaeth o'r grymoedd economaidd, cymdeithasol, gwleidyddol ac amgylcheddol sydd yn ffurfio ein bywydau; mae'n helpu pobl i ddatblygu'r sgiliau, gwerthoedd ac ymagweddau sydd yn galluogi pobl i gydweithio i greu newid parhaol a chreu byd tecach lle mae grym ac adnoddau'n cael eu rhannu ar sail gyfartal.

Mae Cyngor Addysg mewn Dinasyddiaeth Byd (CEWC) yn elusen addysgol sy'n gweithio gyda phobl ifanc i hyrwyddo dealltwriaeth o'r byd cyfoes. Mae CEWC-Cymru yn darparu cefnogaeth i addysg dinasyddiaeth leol, genedlaethol a byd-eang yng Nghymru. Ymysg y digwyddiadau a drefnir gan CEWC-Cymru mae Pencampwriaethau Dadlau Ysgolion Cymru, cyfarfodydd Model Cenhedloedd Unedig, Seneddau Ieuenctid Ewropeaidd, cynadleddau preswyl a gweithdai hawliau dynol.

Mae ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i hyrwyddo datblygu cynaliadwy wrth ymarfer ei swyddogaethau yn seiliedig ar ddyletswydd y Cynulliad o dan Adran 121 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae'n ofynnol yn ôl y Ddeddf i'r Cynulliad baratoi Cynllun yn nodi sut y mae'n bwriadu cyflawni'r ddyletswydd hon. Mae'r *Cynllun Datblygu Cynaliadwy* (a nodir yn y ddogfen *Dysgu Byw'n Wahanol*, a fabwysiadwyd gan Lywodraeth y Cynulliad ym mis Tachwedd 2000) a'r *Cynllun i Gymru 2001* (Cynllun Strategol Llywodraeth y Cynulliad) yn sefydlu datblygu cynaliadwy.

Cymunedau a Ffyrdd o Fyw Cynaliadwy

Yn gyffredinol mae treuliant ar gynnydd yng Nghymru fel y mae mewn gwledydd diwydiannol eraill a thra bod dyfeisiadau technolegol wedi lleihau dwysedd deunyddiau ac ynni nifer o nwyddau defnyddwyr yn y blynyddoedd diweddar, mae'r enillion hyn wedi'u goresgyn gan gynnydd mewn galw (OECD 2002). Nid cartrefi yw'r prif gyfranwyr at broblemau amgylcheddol ond mae eu heffaith yn sylweddol ac mae disgwyl iddo gynyddu.

Treuliant

Mae'r dulliau y gall gordreuliant adnoddau effeithio ar yr amgylchedd yng Nghymru yn niferus: mae datfforestu, llygredd aer, cloddio am lo a metel, gostyngiad yn y stoc o bysgod, diraddiant pridd a nifer o ffactorau eraill oll yn chwarae rhan yn nirywiad graddol y cyfalaf amgylcheddol a chymdeithasol.

Cyhoeddodd y Cynulliad Cenedlaethol ei ddogfen ar gynhesu byd-eang, *Newid Hinsawdd Cymru: Dysgu Byw'n Wahanol*, ym mis Awst 2001, gan ymrwymo Cymru i gynllun i leihau allyriadau carbon i gydymffurfio â chytundeb Kyoto.

Nod Llywodraeth Cynulliad Cymru yw hyrwyddo treuliant cynaliadwy yng Nghymru trwy fentrau fel:

- Nod o gyflawni targed ailgylchu Cymru o 40% erbyn 2009/10.
- Buddsoddiad o £300,000 yn y project Eco-Ysgolion, sydd â'r nod o greu brwdfrydedd ymysg plant i ddysgu am gynaladwyedd a ffyrdd o fyw effaith isel ac i'w hystyried yn norm yn hytrach na'r eithriad.
- Anelu at ddarparu ynni adnewyddol yn holl adeiladau Llywodraeth Cynulliad Cymru erbyn 2010 fel rhan o'r cynllun Cymru'n arbed ynni.
- Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd wedi bod yn galw am weini bwyd lleol mewn ysgolion ac ysbytai.

Llywodraeth y Cynulliad oedd y llywodraeth gyntaf i gomisiynu ymchwil (Ôl Troed Ecolegol) sydd yn mesur treuliant dynol adnoddau yn erbyn gallu cario'r Ddaear. Datgelodd y dadansoddiad ôl traed fod pob person yng Nghymru angen cyfran daear o 5.25 hectar (ffigurau cymharol ar gyfer y DU yw 5.35 hectar) i gynnal patrymau ffordd o fyw cyfredol, o'i gymharu â'r gallu byd-eang sydd ar gael o 1.8 hectar y person.

Golyga hyn, pe bai pawb yn y byd yn byw fel defnyddwyr yng Nghymru, byddem angen tua 3 Daear i gynnal ein hunain.

Defnyddir yr ôl troed gan Ganolfan y Dechnoleg Amgen i gyfathrebu am dreuliant cynaliadwy gyda phobl ac mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn cydweithio gyda WWF Cymru ynglŷn â'r posibilrwydd o ddefnyddio'r ôl troed fel offeryn addysgol ar sail ehangach mewn ysgolion ac archfarchnadoedd.

CTA

Y Canolfan y Dechnoleg Amgen (CTA) yw eco-ganolfan fwyaf Ewrop. Meysydd allweddol gwaith CTA yw ynni adnewyddol, adeiladu amgylcheddol, effeithlonrwydd ynni, tyfu organig a systemau carthffosiaeth amgen. Mae wedi ymrwymo i hyrwyddo ffyrdd o fyw mwy cynaliadwy gan ddefnyddio technolegau traddodiadol a newydd fel pŵer dŵr a phŵer yr haul. Cenhadaeth y Ganolfan, a sefydlwyd ym 1975 yw arddangos gweledigaeth o sut y gall pobl fyw mewn harmoni gyda'r amgylchedd heb ei ddinistrio.

Mae gan y ganolfan ymagwedd holistaidd tuag at ei waith, gan integreiddio syniadau ac ymarfer yn berthynol i ddefnydd tir, lloches, cadwraeth a defnydd ynni, diet ac iechyd, rheolaeth gwastraff ac ailgylchu. Trwy ei gymuned breswyl a threfniadaeth gwaith mae CTA yn ymrwymedig i weithrediad egwyddorion cydweithredol a'r ymarferion amgylcheddol gorau y gellir eu cyflawni.

Cymunedau Gwledig Cynaliadwy

Un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru yw datblygu cymunedau lle mae pobl eisiau byw a gweithio ynddynt a lle mae modd cael gafael ar gyfle a gwobr economaidd; amgylchedd pleserus a diogel, rhwydweithiau cymunedol cymdeithasol gweithgar a chynhwysol. I weithredu hyn mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflwyno nifer o raglenni a strategaethau i gefnogi cymunedau gwledig. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Partneriaethau Gweithredu Cymunedau Gwledig** sydd yn helpu cymunedau i gaffael gwybodaeth a sgiliau angenrheidiol i gymryd cyfrifoldeb uniongyrchol dros eu hadfywiad eu hunain ac i wireddu eu syniadau eu hunain.

Cymunedau a Ffyrdd o Fyw Cynaliadwy

- Sefydlwyd **Partneriaeth Wledig i Gymru** ym mis Tachwedd 1998 ac mae'n gorff ymgynghorol sydd yn dwyn ynghyd amrediad eang o gyrff i gyfrannu tuag at ddatblygiad polisïau a rhaglenni gwledig yn y dyfodol. Mae ei gylch gwaith yn cynnwys y cyfleoedd economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol, cyfle cyfartal a materion diwylliannol o bwys i gefn gwlad Cymru.
- Dyluniwyd y **Cynllun Cefnogi Manwerthu Gwledig** a sefydlwyd ym mis Medi 2003 fel rhan o'r rhaglen Gweithredu Cymunedau Gwledig, i gynnig mesurau cefnogi i fusnesau gwledig neu grwpiau cymunedol trwy gymysgedd o gyngor a chymorth grant. Rheolir y Cynllun gan Uned Wledig Awdurdod Datblygu Cymru.
- Mae'r **Arsyllfa Gwledig Cymru** yn cynnal ymchwil a dadansoddiad annibynnol ar faterion cymdeithasol ac economaidd yng nghefn gwlad Cymru. Mae'r Arsyllfa yn canolbwyntio ei weithgareddau o gwmpas themâu eang sydd yn cynnwys Economi a Chyflogaeth Gwledig; Amgylchedd, Cynaladwyedd a Chynllunio Defnydd Tir; Cynhwysedd ac Eithrio Cymdeithasol; Darpariaeth Tai a Gwasanaeth; Cymdeithas a Chymuned.
- Mae ymrwymiad yn Nogfen Partneriaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru **Rhoi Cymru'n Gyntaf** yn cynnwys ymrwymiad i gymryd mesurau i amddiffyn swyddfeydd post, siopau a busnesau eraill sydd yn cyflenwi gwasanaethau hanfodol i gymunedau gwledig a chynorthwyo mentrau wedi'u hanelu at gadw busnesau manwerthu gwledig ar agor.

Dinasoedd Cynaliadwy

Mae Dinasoedd Cynaliadwy yn cymryd ymagwedd integredig gan wneud cysylltiadau rhwng materion a meysydd astudiaeth er mwyn datblygu syniadau a pholisïau a fydd yn gwella ansawdd bywyd pobl orau a diogelu'r amgylchedd. Mae sbwriel yn un o'r ffurfiau mwyaf cyffredin o'r modd y mae pobl yn cam-drin yr amgylchedd. Mae atal a rheoli sbwriel yn offeryn pwysig i wella ansawdd bywyd yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthi yn hyrwyddo rhaglen addysgol a gorfodol i ddelio â sbwriel mewn partneriaeth â llywodraeth leol a *Chadw Cymru'n Daclus*.

Mae mentrau eraill Llywodraeth Cynulliad Cymru tuag at adeiladu dinasoedd cynaliadwy yn cynnwys gwaith gan Cadw, sef yr asiantaeth

amgylchedd hanesyddol o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru gyda'r cyfrifoldeb am ddiogelu, cadw a hyrwyddo gwerthfawrogiad o amgylchedd hanesyddol Cymru. Mae *Cadw*, a grëwyd ym 1984, yn cyflawni'r amrediad cyflawn o gyfrifoldebau am gadw, cyflwyno a hyrwyddo etifeddiaeth adeiladau Cymru ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae dyletswyddau *Cadw* yn cynnwys:

- Sicrhau cadwraeth henebion ac adeiladau hanesyddol;
- Rhoi grantiau ar gyfer trwsio henebion ac adeiladau hanesyddol; a
- Rheoli'r 127 o henebion yng Nghymru sydd yng ngofal uniongyrchol y Wladwriaeth.

Adfywio

Gall adfywio helpu i atal dirywiad mewn cyfleusterau cymunedol a chyflwyno moderneiddio sydd yn amgylcheddol gadarn, ailddefnyddio neu adnewyddu isadeiledd trefol. Dull effeithiol o gyflawni adfywiad yw meithrin cymunedau integredig o fewn patrwm setliad sydd yn bodoli trwy hyrwyddo datblygu defnydd cymysg, cynnwys cyfuniadau priodol o dai (yn cynnwys tai fforddiadwy), cyflogaeth, manwerthu, addysg, hamdden a mannau agored.

Gan gydnabod cryfderau cymunedau trefol sydd yn gartref i fwyafrif poblogaeth Cymru, mae blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer ardaloedd trefol, trwy ymagweddau integredig, yn cynnwys adfywio sydd yn amgylcheddol gadarn ac yn gymdeithasol gynhwysol yn yr ardaloedd trefol hynny sydd ei angen, fel eu bod yn dod yn lleoedd mwy dymunol i fyw a gweithio ynddynt; a meithrin newid cynaliadwy, yn enwedig ei gwneud yn bosibl byw gyda llai o sŵn, tagfeydd a llygredd traffig a gwella ansawdd bywyd.

- **Cyhoeddwyd Cynllun Gofodol Cymru**, *'Pobl, Lleoedd, Dyfodol'* ym mis Tachwedd 2004 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n nodi agenda ar gyfer yr ugain mlynedd nesaf, yn disgrifio beth sydd ei angen i osod Cymru yn gadarn ar y llwybr tuag at ddatblygu gofodol cynaliadwy.
- Mae'r **Astudiaeth Gwelliant Adfywio** yn dadansoddi'r broses adfywio o fewn Cymru i benderfynu a yw'n effeithiol, effeithlon a chynaliadwy er mwyn darparu canllaw i awdurdodau lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru a chyrff cyhoeddus eraill ar sut i reoli a monitro'r broses adfywio ar lefelau lleol a chenedlaethol.

Egwyddor Llygrwr yn Talu

Mae'r egwyddor llygrwr yn talu yn ceisio sicrhau y dylai'r unigolyn neu'r corff sydd yn gyfrifol am greu unrhyw lygredd dalu'r costau cysylltiedig â hynny. Mae'r rhain yn cynnwys unrhyw gostau yn gysylltiedig ag atal llygredd ac adfer amgylcheddol, yn ogystal â chostau iawndal unrhyw ddifrod yn deillio o'r llygredd hwnnw i ddioddefwyr. O bersbectif polisi llywodraeth, mae sawl dewis y gellid ei ddefnyddio i sicrhau bod y llygrwr yn talu am effeithiau amgylcheddol eu gweithgareddau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Offerynnau rheoliadol sydd yn gorfodi ymddygiad penodol (er enghraifft, deddfau sydd yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr osod offer i atal a/neu reoli allyriadau llygrwyr).
- Offerynnau yn seiliedig ar y farchnad sydd yn gweithio fel anogaethau economaidd ar gyfer gweithgareddau neilltuol (er enghraifft trethi tirlenwi ar wastraff solid, neu drethi carbon sydd yn ceisio mewnoli'r costau'n gysylltiedig ag allyriadau carbon).
- Offerynnau'n seiliedig ar wybodaeth sydd yn newid ymddygiad trwy ddarparu gwybodaeth (er enghraifft ecolabeli a gofynion yn berthynol i adrodd ar gynaladwyedd).

Egwyddor Rhagofalus

Mae defnyddio'r egwyddor ragofalus yn golygu bod gweithredu rhagofalus yn digwydd yn yr achosion hynny lle mae bygythiadau credadwy ac arwyddocaol o niwed i iechyd dynol neu i'r amgylchedd, heb gyfrif bodolaeth unrhyw ansicrwydd gwyddonol gweddilliol am gysylltiadau achos ac effeithiau cysylltiol. Mae'r egwyddor yn gosod rhwymedigaeth ar gynigwyr gweithgareddau neilltuol i gymryd ymagwedd yn erbyn risg lle mae tystiolaeth y gall fod yn niweidiol i iechyd dynol neu i'r amgylchedd, hyd yn oed os yw natur y niwed hwnnw heb ei ddeall yn llawn. Yn aml cyfeirir at yr ymagwedd ragofalus yn natganiadau polisi amgylcheddol cwmnïau ac mae'n ffurfio elfen allweddol o ymrwymiadau rhyngwladol fel Compact Byd-eang y CU. Mae defnydd cwmni o'r ymagwedd ragofalus yn ei hanfod yn cynnwys y setiau bras canlynol o weithgareddau:

- Y cam cyntaf yw asesu a ddylid defnyddio'r egwyddor ragofalus. Mae hyn yn golygu bod *yr effeithiau negyddol posibl yn cael eu nodi* a bod *y data gwyddonol yn berthnasol i'r risgiau hynny yn cael eu gwerthuso*. Defnyddir yr egwyddor ragofalus yn unig pan nad yw'n bosibl, oherwydd annigonolrwydd data neu oherwydd eu natur amhendant neu annherfynol, pennu'r risg dan sylw gyda sicrwydd digonol.

Unwaith y penderfynir ar sail y gwerthusiad hwn fod angen yr ymagwedd ragofalus, yna dylid gweithredu'r gweithgareddau rhagofalus canlynol:

- Cynnal *asesiad o'r dewisiadau eraill*, gan nodi costau a manteision amgylcheddol, iechyd ac economaidd pob ymagwedd.
- Mabwysiadu *proses dryloyw, gynhwysol a llunio penderfyniadau agored* sydd yn cynnwys partïon â diddordeb yn yr astudiaeth o'r amrywiol ddewisiadau rheolaeth risg.
- Gweithredu proses barhaus o *ymchwil a monitro* gan ail archwilio'r penderfyniad/au yn rheolaidd, yn seiliedig ar unrhyw wybodaeth newydd sydd ar gael.
- Gweithredu'r *egwyddor cymesuredd*, fel nad yw costau gweithredu i atal peryglon yn anghymesur i'r manteision tebygol yn y tymor byr a hir.

"Pan fo gweithgarwch yn codi bygythiadau o niwed i iechyd dynol neu i'r amgylchedd, dylid cymryd mesurau rhagofalus os nad yw rhai cysylltiadau achos ac effaith wedi eu sefydlu'n llawn yn wyddonol. Yn y cyd-destun hwn dylai cynigydd y gweithgarwch, yn hytrach na'r cyhoedd, gario baich prawf. Rhaid i'r broses o gymhwyso'r Egwyddor Rhagofalus fod yn agored yn wybodus ac yn ddemocrataidd a rhaid cynnwys partïon sydd o bosibl yn mynd i gael eu heffeithio. Rhaid iddo hefyd gynnwys archwiliad o'r amrediad llawn o ddewisiadau eraill, yn cynnwys dim gweithredu."
"Datganiad Wingspread 1998"
o wyddonwyr amlwg

Egwyddor Rhagofalus

Er gwaethaf y ffaith bod gan ei athroniaeth o ddoethineb atyniadau amlwg yn wyneb technoleg newydd, mae'r egwyddor ragofalus yn fater dadleugar enwog ac yn un sydd wedi melltithio trafodaethau sawl cytundeb amgylcheddol amlochrog. Er enghraifft bu dadl sylweddol mewn perthynas ag ystyr a chwmpas rhagofal rhwng trafodwyr yn Ewrop a Gogledd America. Tra bod rhai trafodwyr UE a rhai sectorau busnes wedi cefnogi'r syniad ei bod yn 'well bod yn ddiogel na difaru', mae'r egwyddor ragofalus wedi ei beirniadu'n gryf gan drafodwyr UDA a nifer yn y gymuned fusnes oherwydd ei bod yn gweithredu fel rhwystr i ddatblygiadau gwyddonol a thechnolegol.

Byw gyda Dogni Carbon

Cynigiwyd y cysyniad o *'gwtogi a chydgyfeiriant'* allyriadau carbon gyntaf gan y *Global Commons Institute*. (GCI) ym 1990 ac ers hynny mae wedi ei gefnogi gan nifer o gyrff cenedlaethol a rhyngwladol. Mae wedi'i sylfaenu ar ddwy egwyddor: yn gyntaf, bod rhaid gostwng allyriadau CO_2 byd-eang yn raddol; ac yn ail, rhaid i allyriadau cyffredin pobl mewn gwahanol rannau o'r byd gydgyfeirio i'r un lefel. Mae creu *'dogn carbon'* cyfartal o'r fath yn rhoi dimensiwn moesol ac ymarferol. Gan y bydd cynhesu byd-eang a newid hinsawdd yn effeithio ar bob gwlad, nid oes cyfiawnhad moesol i rai i greu mwy o CO_2 nag eraill. Yn ymarferol, byddai'r broses o geisio cytuno ar gwotâu carbon unigol i bob gwlad yn y byd yn dasg ddiddiwedd. Mae defnyddio dogn carbon cyffredin yn symleiddio'r broses o gytuno ar beth yw'r uchafswm lefel o allyriadau CO_2 y gall yr atmosffer ei amsugno heb ddadsefydlogi ein hinsawdd yn ddifrifol ac yna cytuno ar amserlen ar gyfer cyfranddaliadau CO_2 per capita byd-eang i gydgyfeirio i'r lefel honno.

Byddai bodolaeth dognau carbon a dderbynnid yn fyd-eang yn caniatáu i wledydd ac unigolion fasnachu hawliau allyriadau carbon, gan adlewyrchu'r egwyddorion sydd eisoes yn gweithredu mewn masnachu allyriadau carbon ymysg busnesau heddiw. Byddai system o'r fath yn golygu fod gan bob oedolyn 'hawl cyfartal i lygru' yn nhermau dogn carbon (gyda chanran ar gyfer plant) a fyddai dros amser yn gostwng i geisio cyrraedd lefel allyriadau byd-eang sydd yn gynaliadwy. Byddai'n rhaid cynnwys elfennau o dreuliant fel gwresogi a goleuo, yr ynni mewn treuliant bwyd a defnydd o gludiant personol a chyhoeddus yn y cyfrifiadau. Byddai'n rhaid i system o'r fath fod yn orfodol a byddai'n rhaid i lywodraethau ei rheoli. Wrth i'r dognau carbon sydd ar gael i unigolion ostwng dros amser byddai'n darparu anogaethau clir i lywodraethau fuddsoddi mewn dulliau glanach o gynhyrchu ynni ac i gwmnïau ddatblygu dulliau mwy ynni effeithiol o ddiwallu anghenion defnyddwyr.

CYFEIRIAD GWEFAN DEFNYDDIOL

www.gci.org.uk/contconv/cc.html

Eco Effeithlonrwydd

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.is4ie.org
www.yale.edu/jie

Ecoleg Diwydiannol

Mae ecoleg ddiwydiannol yn fframwaith rhyngddisgyblaethol wedi'i anelu at ddylunio a gweithredu systemau diwydiannol sydd yn dynwared ecosystemau naturiol. Amcan pwysig ecoleg ddiwydiannol yw hyrwyddo cydleoliad symbiotig diwydiannau fel bod gwastraff o un diwydiant yn gallu gwasanaethu fel mewnbwn deunydd crai i un arall. Mae'n golygu olrhain llif ynni a deunydd trwy system ddiwydiannol neilltuol (e.e. gwaith diwydiannol neu waith sector cyhoeddus fel darpariaeth isadeiledd) a nodi cyfleoedd ar gyfer cysylltiadau symbiotig gyda'r nod o leihau cynhyrchu gwastraff.

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.cleanerproduction.com
www.uneptie.org/pc/cp
es.epa.gov/cooperative/international

Cynhyrchu Glanach

Mae cynhyrchu Glanach yn cyfeirio at y defnydd parhaus o strategaethau ataliol integredig yn gymwys i brosesau, cynnyrch a gwasanaethau gyda'r nod o gynyddu eco-effeithiolrwydd a gostwng peryglon i ddynoliaeth a'r amgylchedd. Cynhyrchu Glanach yn gymwys i:

- Prosesau cynhyrchu: cadw deunyddiau crai ac ynni; cael gwared ar ddeunyddiau crai gwenwynig a gostwng swm a gwenwyndra holl allyriadau a gwastraff.
- Cynnyrch: lleihau effeithiau negyddol ar hyd cylch bywyd cynnyrch, o ddeunyddiau crai i'w waredu yn y pendraw.
- Gwasanaethau: ymgorffori pryderon amgylcheddol i ddylunio a chyflwyno gwasanaethau.

Ffactor Pedwar a Ffactor Deg

Mae'r cysyniad o Ffactor Pedwar – wedi'i hyrwyddo gan Sefydliad Wuppertal a Sefydliad Rocky Mountain – yn galw am 'ddyblu twf economaidd wrth haneru defnydd adnoddau' gyda'r nod o greu gostyngiad o 75% yn y defnydd o adnoddau fesul uned o gynhyrchu. Cyflwynwyd y cysyniad ym 1998 mewn llyfr o'r un enw (ysgrifennwyd gan L.Hunter Lovins ac Amory Lovins o Sefydliad Rocky Mountains ac Ernst von Weizsäcker o Sefydliad Wuppertal dros Hinsawdd, Amgylchedd & Ynni).

Mae'r llyfr yn rhoi 50 enghraifft o dechnolegau ymarferol y gellid eu defnyddio i gyflwyno'r gwelliannau angenrheidiol mewn effeithiolrwydd adnoddau. Mae tarddiad y cysyniad yn dyddio'n ôl i adroddiad Clwb Rhufain ym 1972, *Limits to Growth*, oedd yn cyhoeddi rhybudd clir fod twf economaidd yn defnyddio adnoddau ar raddfa anghynaladwy.

CYFEIRIAD GWEFAN DEFNYDDIOL

www.wupperinst.org/FactorFour

Mae'r syniad perthynol o Ffactor Deg yn deillio o *Ddatganiad Carnoules* 1994 lle'r oedd gwyddonwyr amlwg yn galw am 'ostyngiad o 90% mewn defnydd adnoddau fesul uned o gynhyrchu'. Mae Ffactor Deg yn pwysleisio'r angen am ddatgysylltu twf economaidd oddi wrth ddefnydd o adnoddau naturiol yn gyfan gwbl yn hytrach nag yn gymharol.

Dylunio ar gyfer yr Amgylchedd

CYFEIRIAD GWEFAN DEFNYDDIOL

dfe-sce.nrc-cnrc.gc.ca/home_e.html
www.cfsd.org.uk

Mae Dylunio ar gyfer yr Amgylchedd yn derm ambarél a ddefnyddir i ddisgrifio'r technegau ar gyfer ymgorffori ystyriaethau amgylcheddol i gynnyrch a gwasanaethau cyn iddynt gyrraedd y cam cynhyrchu. Mae'n golygu archwilio cylch bywyd cyfan cynnyrch a nodi mesurau y gellid eu cymryd i leihau effaith amgylcheddol y cynnyrch trwy'r cylch bywyd hwnnw.

Gall strategaethau Dylunio ar gyfer yr Amgylchedd nodi mesurau dylunio y gellid eu cymryd i leihau effaith amgylcheddol ym mhob un o'r camau allweddol canlynol yng nghylch bywyd cynnyrch:

- Deunyddiau crai: dylunio cyfleoedd ar gyfer cadw adnoddau a defnyddio deunyddiau crai o effaith isel.
- Gweithgynhyrchu: darparu ar gyfer mesurau yn berthynol i gynhyrchu glanach ac eco-effeithiolrwydd yn ystod y cam cynhyrchu.
- Defnydd cynnyrch: sicrhau darpariaeth yn y cam defnydd cynnyrch ar gyfer ystyriaethau yn berthynol i well effeithlonrwydd ynni a dŵr, gostyngiad yn y defnydd o ddeunyddiau a gwell parhad.
- Diwedd bywyd: mae ystyriaethau dylunio allweddol yn cynnwys dylunio ar gyfer datod, ailddefnyddio cynnyrch a dylunio ar gyfer ailgylchu.

Eco Effeithlonrwydd

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.nisp.org.uk

Symbiosis Diwydiannol

Mae symbiosis Diwydiannol yn ymdrech i gymhwyso egwyddorion ecoleg ddiwydiannol i ddatblygu systemau cynhyrchu mwy 'dolen gau' a dynwared proses naturiol symbiosis lle mae un rhywogaeth yn byw mewn partneriaeth gytbwys a dibynnol ar ei gilydd. Mewn cyd-destun diwydiannol mae symbiosis yn golygu partneru diwydiannau lle mae cynnyrch gwastraff o un math o fusnes yn cynrychioli'r deunyddiau sydd eu hangen ar y llall. Cafodd hyn ei roi ar waith ar raddfa fawr yn Kalundborg, Denmarc lle'r oedd gwaith pŵer glo, purfa, gwneuthurwr fferyllol ac ensymau a gwneuthurwr plastrfwrdd mewn partneriaeth gyda'r llywodraeth drefol a nifer o gwmnïau llai wedi ffurfio rhwydwaith i ddarganfod cyfleoedd i ddefnyddio gwastraff ei gilydd fel mewnbynnau deunydd gwastraff.

O fewn y DU mae'r syniad o symbiosis diwydiannol yn cael ei gefnogi gan Raglen Symbiosis Diwydiannol Cenedlaethol sydd yn fenter wedi'i arwain gan fusnesau gyda'r nod o hyrwyddo cysylltiadau rhwng diwydiannau o wahanol sectorau i greu cyfleoedd masnachol cynaliadwy a gwella effeithlonrwydd ynni.

Rheolaeth Amgylcheddol

Mae busnesau yn ymwybodol iawn o'u cyfrifoldebau i ddiogelu a gwella'r amgylchedd y maent yn gweithio ac yn gweithredu ynddi. Ond, mae rheoli gweithgareddau mewn dull cyfrifol nid yn unig yn helpu i leihau effeithiau negyddol ar yr amgylchedd e.e. cynhyrchu gwastraff, ond hefyd yn helpu lleihau costau cynhyrchu. Gall integreiddio mesurau ymarfer gorau amgylcheddol i feysydd allweddol y ffrwd busnes ac ymarferion gweithio cyfredol helpu cyrff i ddod yn fwy amgylcheddol gyfrifol. Mae mesurau ymarfer gorau yn cynnwys datblygu cofrestri risg amgylcheddol penodol, gweithdrefnau rheoli, dangosyddion perfformiad amgylcheddol, datblygu polisïau amgylcheddol a strategaethau CCC i ymchwilio a datrys materion amgylcheddol penodol.

Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol a DC

Diffiniad syml yw bod CCC yn ymwneud â sut y mae busnesau yn rheoli eu prosesau busnes i gynhyrchu effaith gyffredinol cadarnhaol ar gymdeithas. Mewn terminoleg busnes modern, mae CCC yn golygu gwella'r modd y mae busnes yn ymateb i anghenion ei fuddiolwyr, cwsmeriaid, cyflogai, cyflenwyr a'r gymuned leol.

Mae cyflogwyr ymarfer gorau yng Nghymru eisoes yn defnyddio CCC fel rhan annatod o'u prosesau cynllunio busnes ac yn elwa o'r proffil gwell yn y gymuned a chyfleoedd dysgu profiadol all ddeillio o hynny. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan weithio trwy ei asiantaethau allweddol a chyrff sydd yn bartneriaid, yn awyddus i hyrwyddo'r manteision potensial hyn i holl fusnesau Cymru.

Systemau Rheolaeth Amgylcheddol

ISO 14000

Gellir disgrifio safonau ISO 14000 orau fel rhai'n gwasanaethu elfennau sylfaenol System Rheolaeth Amgylcheddol effeithiol (SRhA); er enghraifft, wrth greu polisi amgylcheddol, gosod amcanion a thargedau, gweithredu rhaglen i gyflawni'r amcanion hynny, monitro a mesur ei effeithiolrwydd, cywiro problemau ac adolygu'r system i wella effeithlonrwydd amgylcheddol cyffredinol. Mae manteision defnyddio safonau ISO 14000 yn cynnwys rheoli llygredd amgylcheddol; lleihau atebolrwydd amgylcheddol, cyfraddau risg ac yswiriant; cynorthwyo gyda chydymffurfio deddfwriaethol ac amgylcheddol; a gwella amodau i gyflogai a chorfforaethau.

Rheolaeth Amgylcheddol

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.iso.ch

Gellir dosbarthu cyfres ISO 14000 yn fras yn ddau gategori: Systemau Rheolaeth Amgylcheddol (IS0 14001 ac ISO 14004) ac Offer Rheolaeth Amgylcheddol sydd yn cwmpasu'r holl safonau ISO 14000 eraill.

Mae Cyngor Rheolaeth Cymru, ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rheoli'r rhaglen ymweliad ymarfer gorau *Y Tu mewn i Ddiwydiant Cymru* sydd yn rhoi cyfleoedd i fusnesau Cymru ymweld ag eraill sydd yn batrwm yn y defnydd i un neu ragor o feysydd mentrau ymarfer gorau sydd yn cynnwys achredu ISO, rheolaeth a phartner cadwyn cyflenwi.

BS 8555

Gan adeiladu ar BS EN ISO 14001 a'r Cynllun Eco-Reolaeth ac Archwilio UE (EMAS), mae BS 8555 yn Safon Brydeinig sydd yn darparu arweiniad i bob corff ar weithrediad, cynnal a gwelliant fesul cam System Rheolaeth Amgylcheddol ffurfiol (SRhA). Mae BS 8555 yn gwneud cyfeiriad neilltuol at fentrau bach a chanolig eu maint (SMEs) ond mae'n berthnasol i unrhyw gorff, waeth beth yw natur y gweithgarwch busnes, lleoliad na lefel aeddfedrwydd. Mae'n amlinellu proses weithredu y gellir ei chyflawni mewn hyd at chwe cham gwahanol ac yn caniatáu ar gyfer cydnabyddiaeth cynnydd fesul cam tuag at weithrediad llawn SRhA.

Mae BS 8555 hefyd yn cynnwys cyngor ar integreiddio a defnyddio technegau gwerthuso perfformiad amgylcheddol yn ystod y broses weithredu a chydlynu SRhA gyda systemau rheolaeth eraill. Mae BS 8555 yn helpu cyrff i wella eu perfformiad amgylcheddol a'u cysylltiadau cadwyn cyflenwad gyda'r canllaw canlynol:

- Mae'n disgrifio ymagwedd gynyddol chwe cham tuag at weithredu SRhA gan ddefnyddio gwerthusiad perfformiad amgylcheddol.
- Mae'n darparu gwybodaeth i gyrff ar reolaeth perfformiad amgylcheddol a'r defnydd o ddangosyddion perfformiad amgylcheddol.
- Mae'n helpu cyrff i fodloni'r meini prawf amgylcheddol sydd yn cael eu gosod fwyfwy mewn tendrau contractau gan gleientiaid mawr hen a newydd.

I lawer o gyrff gall cael system rheolaeth amgylcheddol ffurfiol fel y gyfres ISO 14000 fod yn heriol iawn ac mewn rhai achosion heb fod yn berthnasol i anghenion cyfredol busnes. Mae Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd yn cyfrannu tuag at gyflawniad safonau amgylcheddol Rhyngwladol ac Ewropeaidd fel ISO 14001 ac EMAS.

Y Ddraig Werdd

Mae gan Gymru ei safon system rheolaeth amgylcheddol ei hun. Datblygwyd safon y Ddraig Werdd ar gyfer busnesau yng Nghymru sydd yn dymuno dilyn ymagwedd fesul cam tuag at reolaeth amgylcheddol. Mae'r safon yn dilyn pum cam sydd yn cynnwys ymrwymiad i gyfrifoldeb amgylcheddol, cydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol, rheolaeth effeithiau amgylcheddol, datblygu a defnyddio rhaglen rheolaeth amgylcheddol a gwelliant amgylcheddol parhaus. Mae cwmnïau sydd yn cyflawni unrhyw lefel o afon y Ddraig Werdd yn derbyn tystysgrif yn dangos lefel cyflawniadau'r cwmni a'i ymrwymiad i reolaeth amgylcheddol. Mae cwmnïau sydd yn cyflawni lefelau 3,4 a 5 hefyd yn derbyn plac a gallant arddangos logo'r Ddraig Werdd ar eu papurau a'u deunyddiau marchnata. Nid yw'r safon yn caniatáu i gwmnïau sydd wedi cyrraedd lefel 5 gael eu hardystio ar gyfer ISO 14001 neu EMAS yn awtomatig, ond mae'r rhaglen yn nodi y gall y cwmnïau yma fod yn llwyddiannus o ran cael y rhain. Mewn rhai ardaloedd yng Nghymru mae cefnogaeth ariannol ar gael i fusnesau bach a chanolig eu maint i'w cynorthwyo i gyrraedd dwy lefel gyntaf y safon. Mae rhaglen y Ddraig Werdd hefyd yn darparu cyllid grant i SMEs o hyd at 30% o gostau offer adfer amgylcheddol hyd at fwyafswm o £10000. Hyd yn hyn mae tua 492 o gyrff yng Nghymru wedi ymrwymo i'r Ddraig Werdd ac mae nifer ohonynt wedi cyrraedd Lefel 2 o'r safon, mae 56 corff wedi cyrraedd lefel 3 neu uwch.

Datblygwyd y Ddraig Werdd gan Rwydwaith Arena a Groundwork Cymru ac fe'i cyflwynir a'i chefnogi trwy bartneriaeth rhwng Rhwydwaith Arena, Groundwork, Awdurdod Datblygu Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a thrwy gyllid gan y Gronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewropeaidd.

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.greendragonems.com

Rheolaeth Amgylcheddol

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.uneptie.org/pc/pc/tools/lca.htm

Asesiad Cylch Bywyd

Mae Asesiad Cylch Bywyd (ACB) yn darparu dull systematig o fesur defnydd adnoddau a gollyngwyr amgylcheddol trwy gydol cylch bywyd cynnyrch neu wasanaeth – o dynnu adnoddau, trosglwyddo deunydd crai, cynhyrchu, dosbarthu a defnydd, i'r gwaredu terfynol. Cyflawnir hyn trwy gasglu 'rhestr' fanwl o ddefnydd ynni ac adnoddau, cynhyrchu gwastraff, allyriadau a gollyngiadau ym mhob cam o gylch bywyd cynnyrch.

Gall asesiadau cylch bywyd fod yn offeryn pwerus ar gyfer gwneud penderfyniadau effeithiol wrth gymharu teilyngdod amgylcheddol perthynol dau neu ragor o gynnyrch neu gategorïau gwasanaeth (er enghraifft wrth gymharu nodweddion amgylcheddol gwydr, plastig a chynwysyddion papur, neu werthuso cewynnau taflu i ffwrdd neu rai golchadwy). Yn aml mae gweithgarwch ACB yn rhan bwysig o eco-labeli cynnyrch a dylunio ar gyfer gweithgarwch amgylcheddol yn ogystal â nodi posibiliadau cynhyrchu glanach effeithiol.

Tra bod ACB yn gallu bod yn offeryn pwerus ar gyfer gwneud penderfyniadau polisi gwybodus maent yn aml yn ddrud ac yn gymhleth i'w gweithredu. Gall effeithiau amgylcheddol (a chymdeithasol) tynnu deunyddiau crai amrywio o wlad i wlad ac yn aml mae angen asesiadau goddrychol wrth asesu'r pwyseddau perthynol y dylid eu rhoi ar allyriadau.

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.productstewardship.us

Stiwardiaeth Cynnyrch

Mae stiwardiaeth cynnyrch yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio ymagwedd wedi'i ganoli ar y cynnyrch tuag at reolaeth amgylcheddol. Lle mae gwneuthurwyr – nail ai yn wirfoddol neu dan bwysau gan lywodraeth – yn cymryd cyfrifoldeb am gylch bywyd cyfan cynnyrch a'i becynnu. Mae stiwardiaeth cynnyrch fwyaf effeithiol pan aiff ei gyflwyno ar y cam dylunio cynnyrch, fel y gwelir yn gynyddol er enghraifft wrth ddylunio cerbydau.

Ecolabelu a Labelu Cymdeithasol

Mae eco-label yn offeryn polisi amgylcheddol sy'n cael ei yrru gan y farchnad a ddefnyddir gan lunwyr polisi i hyrwyddo nwyddau a gwasanaethau sydd yn well i'r amgylchedd. Rhoddir y label ar gynnyrch neu wasanaeth gan warantu ei fod yn cydymffurfio â rhai meini prawf amgylcheddol ac/neu gymdeithasol y penderfynwyd arnynt yn flaenorol.

Mae eco-labeli yn darparu canllaw i ddefnyddwyr i ddewis cynnyrch a gwasanaethau a ystyrir yn llai niweidiol i'r amgylchedd na chynnyrch eraill o fewn yr un categori, gyda'r nod felly o annog cynhyrchu cynnyrch sydd yn fwy amgylcheddol briodol.

Mae llwyddiant menter eco-labelu yn dibynnu ar nifer o ffactorau yn cynnwys: lefel ymwybyddiaeth amgylcheddol a phŵer prynu defnyddwyr; hygrededd y label; a natur y farchnad ar gyfer y cynnyrch wedi'u eco-labelu. Er bod dosbarthiad eco-labeli yn bennaf yn y gwledydd diwydiannol bu nifer o fentrau labelu diweddar o fewn y gwledydd sy'n datblygu.

Mae'r gyfres ISO 14000 yn gwahaniaethu rhwng tri gwahanol fathau o labeli amgylcheddol:

- Mae Labeli Math I yn rhaglenni ymarferydd trydydd parti gwirfoddol, aml feini prawf sydd yn dyfarnu labeli yn dangos dewis amgylcheddol i gynnyrch o fewn categori cynnyrch neilltuol yn seiliedig ar ystyriaethau cylch bywyd. Mae cynlluniau eco-labelu hen sefydledig sydd yn syrthio i'r categori hwn yn cynnwys EU Flower, y Nordic Swan, Blue Angel yr Almaen, Green Seal UDA ac Environmental Choice Canada.
- Mae Labeli Math II yn cynnwys hawliadau hunan ddatgan gwybodus a wneir heb ardystiad trydydd parti annibynnol gan wneuthurwyr, mewnforwyr, dosbarthwyr ac/neu manwerthwyr. Gall enghreifftiau gynnwys 'cyfeillgar i ddolffiniaid' neu 'cyfeillgar i'r osôn'.
- Mae Labeli Math III yn labeli gwybodaeth cynnyrch meintiol yn seiliedig ar ddilysiad annibynnol gan ddefnyddio mynegeion wedi' rhag osod ar effeithiau cylch bywyd. Mae labeli o'r fath fel rheol yn rhestru 'bwydlen' o effeithiau amgylcheddol cynnyrch yn ystod ei gylch bywyd.

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.eco-labels.org/home.cfm

www.epa.gov/opptintr/epp/documents/envlab/report.htm

www.iso.org/iso/en/ISOOnline.frontpage

Rheolaeth Amgylcheddol

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.projectsigma.com/RnDStreams/5_chain.asp

Rheolaeth Cadwyn Cyflenwadau

Mae dau reswm pwysig pam y bydd cwmni sydd wedi ymrwymo i ddatblygu cynaliadwy yn edrych ar ei gadwyn cyflenwi. I ddechrau, oherwydd y bydd y rhan fwyaf o'r pethau newydd y bydd yn dymuno eu gweithredu o fewn ei weithrediadau ei hun yn dibynnu'n drwm ar ansawdd (a chynaladwyedd) ei gadwyn cyflenwi. Fel y dangoswyd yn y symudiad byd-eang i systemau rheolaeth ansawdd, gellir tanseilio ymdrechion gorau cwmni os yw ei gyflenwyr yn gweithio i safonau is. Yn ail. Mae rheolaeth ar gyfer cynaladwyedd yn awgrymu ffocws ar ostwng risg yn yr hir dymor ac wrth gyflawni hyn, mae dibyniaeth corff ar werthoedd a pherfformiad cwmnïau eraill yn hanfodol.

Offeryn rheolaeth cadwyn cyflenwi pwysig yw'r archwiliad cadwyn cyflenwi lle mae prynwyr corfforaethol yn cynnal asesiad o berfformiad cymdeithasol ac/neu amgylcheddol eu cyflenwyr. Gall archwiliadau cadwyn cyflenwi effeithiol fod yn ddull gwerthfawr ar gyfer cwmnïau mawr a mwy gweledol i drosglwyddo pwysau am newid yn ogystal â gwybodaeth angenrheidiol, i lawr y gadwyn cyflenwi. Mae'r sector cerbydau yn enghraifft dda o hyn, gyda gwneuthurwyr offer gwreiddiol yn gynyddol yn gosod safonau amgylcheddol a chymdeithasol ar amodau caffael. Mae nifer o ffynonellau wedi'u nodi sydd yn awgrymu fod gofynion rhai o'r cwmnïau cydwladol wedi bod yn ffactor mawr mewn gwella amodau mewn rhai marchnadoedd llafur.

Tra bod rhywfaint o gynnydd wedi bod mewn hyrwyddo cyfrifoldeb trwy gadwyni cyflenwi corfforaethol, cydnabyddir fod hyn yn parhau'n faes lle mae ymarfer cyfredol yn dal yn gymharol wan. Mae meincnodau fel Mynegai Cyfrifoldeb Corfforaethol Busnes yn y Gymuned DU yn nodi mai rheolaeth cadwyn cyflenwi yw un o'r meysydd lleiaf datblygedig, canfyddiad a gadarnhawyd yn ddiweddar mewn astudiaeth ryngwladol ddiweddar gan fanc y Byd a Busnes dros Gyfrifoldeb Cymdeithasol.

Cyfrifo ac Archwilio Cymdeithasol

Dull pwysig o wella atebolrwydd cwmnïau i'w gwahanol fuddiolwyr yw trwy'r defnydd o gyfrifo ac archwilio cymdeithasol, dau offeryn sydd yn cynorthwyo cwmnïau i adnabod ac asesu effeithiau eu gweithgarwch ar gymdeithas ac adolygu natur eu perthynas gyda'u buddiolwyr. Mae *cyfrifo cymdeithasol* yn cyfeirio at y broses lle mae corff yn casglu, dadansoddi a dehongli gwybodaeth ddisgrifiadol, feintiol ac ansoddol er mwyn cynhyrchu adroddiad cywir o'i berfformiad cymdeithasol gyda'r amcan gwaelodol o wella ar y perfformiad hwnnw. *Archwilio cymdeithasol* yw'r broses o adolygu a dilysu'r cyfrifon cymdeithasol ar ddiwedd pob cylch archwilio cymdeithasol (yr archwiliad ei hun). Defnyddir y term 'archwilio cymdeithasol' weithiau hefyd yn generig ar gyfer y broses gyfan o gyfrifo ac archwilio.

Adrodd ar Gynaladwyedd

Mae adrodd corfforaethol ar faterion amgylcheddol a chymdeithasol wedi tyfu'n ddramatig dros y ddegawd ddiwethaf. Darganfu arolwg rhyngwladol diweddar fod 45% o'r Prif 250 cwmni Ffortiwn Byd-eang yn cyhoeddi adroddiad cymdeithasol, amgylcheddol neu gynaladwyedd ar wahân yn rheolaidd. Y sectorau mwyaf gweithgar yw'r cyfleustodau, cemegolion, coedwigaeth, papur, cloddio ac olew a nwy. I ddechrau yn canolbwyntio ar faterion amgylcheddol, iechyd a diogelwch, neu faterion cymdeithasol, mae adrodd corfforaethol ar fater heb fod yn ymwneud â chyllid yn dechrau symud tuag at 'adrodd ar gynaladwyedd' integredig ar berfformiad amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Cymhelliant pwysig ar gyfer y symudiad hwn tuag at adrodd ar gynaladwyedd fu datblygiad Canllawiau Adrodd ar Gynaladwyedd Y Fenter Adrodd Byd-eang.

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.accountability.org.uk

Mesur Datblygu Cynaliadwy – Dangosyddion Macro

Fel y gŵyr pob lluniwr penderfyniadau 'ni allwch reoli yr hyn na allwch ei fesur.' I gwmnïau a llunwyr polisi sy'n ceisio hyrwyddo datblygu cynaliadwy mae'n hanfodol eu bod yn gallu monitro ac olrhain eu perfformiad cynaladwyedd yn erbyn set o ddangosyddion cytûn.

I faterion amgylcheddol mae gennym nifer o ddangosyddion macro – fel lefelau llygredd aer, ansawdd dŵr ymdrochi neu'r nifer o rywogaethau o loywyd byw. I faterion cymdeithasol mae dangosyddion fel hyd oes, cyfraddau trosedd, a mynediad i iechyd ac addysg – mesurau ansawdd bywyd i gyd. Ond i faterion economaidd, prif ddangosydd cynnydd ar lefel genedlaethol yw'r Cynnyrch Domestig Gros (GDP) mesur ariannol yn unig. Mae dibyniaeth llywodraethau ar GDP fel prif fesur eu hiechyd economaidd (ac felly pwysigrwydd enfawr ar ffurfio polisi) wedi'i gwestiynau'n drwm gan nad oes gan GDP unrhyw fodd o wahaniaethu rhwng gweithrediadau economaidd sydd yn amgylcheddol neu yn gymdeithasol fanteisiol ac un sydd yn ddinistriol.

Mae'r adran hon yn amlygu rhai mentrau allweddol wedi'u hanelu at olrhain perfformiad gwledydd ac/neu endidau economaidd o ran eu cyfraniad i ddatblygiad cymdeithasol ac amgylcheddol yn ogystal ag economaidd. Yn ychwanegol at y dangosyddion lefel macro hyn mae nifer o fentrau wedi'u hanelu at asesu perfformiad cynaladwyedd cwmnïau unigol (fel Canllawiau Adrodd ar Gynaladwyedd y Fenter Adrodd Fyd-Eang).

CYFEIRIAD GWEFAN DEFNYDDIOL

www.undp.org/hdr2003

Mynegai Datblygiad Dynol y Cenhedloedd Unedig (CU)

Dyblygwyd Mynegai Datblygiad Dynol y CU (MDD) ym 1990 fel dewis arall i fesurau traddodiadol o ddatblygiad economaidd. Mae'n fynegai cyfansawdd cryno sydd yn mesur cyflawniadau cyffredin gwlad mewn tair agwedd sylfaenol o ddatblygiad dynol:

- Parhad bywyd – wedi'i fesur yn ôl hyd oes ddisgwyliedig ar enedigaeth.
- Gwybodaeth – wedi'i fesur trwy gyfuniad o gyfradd llythrennedd oedolion a chyfradd ymrestru gros cynradd, uwchradd a thrydyddol gyda'i gilydd.
- Safon Byw – wedi'i fesur yn ôl GDP per capita.

Crëwyd y MDD i ail bwysleisio mai pobl a'u galluoedd ddylai fod y prif feini prawf ar gyfer asesu datblygiad gwlad ac nid twf economaidd. Mae'n darparu sail ddefnyddiol ar gyfer datblygu a gwerthuso dewisiadau polisi a blaenoriaethau cenedlaethol yn enwedig ar faterion fel iechyd ac addysg. Mae'n werthfawr i amlygu gwahaniaethau o fewn a rhwng gwledydd ac ar draws rhyw, ethnigrwydd a chategorïau cymdeithasol economaidd eraill.

Mynegai ar gyfer Lles Economaidd Cynaliadwy

Y prif ddangosydd traddodiadol o gynnydd fu'r Cynnyrch Domestig Gros (GDP) a fwriadwyd fel mesur o dwf economaidd. Ond nid yw'r dangosydd hwn yn ystyried rhai o sgil effeithiau twf economaidd, nifer ohonynt yn ein gwneud yn waeth ein byd. Mae GDP yn gyfrif gros o gynnyrch a gwasanaethau sydd wedi'u prynu a'u gwerthu gyda dim gwahaniaethu rhwng gweithgarwch sydd yn ychwanegu at les a'r rhai sydd yn niweidio lles. Er enghraifft nid yw GDP yn rhoi cyfrif uniongyrchol am gynyddu anghydraddoldeb, llygredd neu niwed i iechyd pobl a'r amgylchedd ac mae'n trin agweddau masnachol trosedd, ysgariad ac elfennau eraill o dorri cymdeithasol fel enillion economaidd.

Ar lefel rhyngwladol. Mae Rhaglen Datblygiad Dynol y Cenhedloedd Unedig yn dadlau y dylai pob gwlad dalu llawer mwy o sylw i ansawdd yn hytrach nag i faint twf. Mae'n nodi pum ffurf niweidiol o dwf sydd heb fod yn 'gynaliadwy nac yn werth eu cynnal':

- Twf diweithdra – twf economaidd nad yw'n trosi yn swyddi.
- Twf di-lais – twf nad yw'n cael ei gydweddu â lledaeniad democratiaeth.
- Twf diwreiddiau – twf sydd yn mygu datblygiad hunaniaeth ddiwylliannol ar wahân.
- Twf heb ddyfodol – twf sydd yn dinistrio'r amgylchedd.
- Twf didrugaredd – twf lle mae'r cyfoethog yn cael y rhan fwyaf o'r manteision.

CYFEIRIAD GWEFAN DEFNYDDIOL

www.foe.co.uk/progress

Mesur Datblygu Cynaliadwy – Dangosyddion Macro

Mynegai Cystadleugarwch Cyfrifol

Mae'r Mynegai Cystadleugarwch Cyfrifol yn ganlyniad i waith deunaw mis gan AccountAbility a Chanolfan Copenhagen, yn cynnwys ymgynghoriadau gyda Banc y Byd, Fforwm Economaidd y Byd a'r Comisiwn Ewropeaidd. Mae'n ystyried cyfrifoldeb corfforaethol ochr yn ochr â ffactorau traddodiadol sydd yn effeithio ar gystadleugarwch gwlad ac yn darpar sail ar gyfer deall y cysylltiad rhwng cystadleugarwch cenedlaethol a chyfrifoldeb corfforaethol.

Mae'r adroddiad yn nodi canlyniadau blynyddol cyntaf dau fynegai perfformiad newydd eu dylunio, arloesol ar lefel gwlad:

- Mae'r Mynegai Cyfrifoldeb Corfforaethol Cenedlaethol yn disgrifio perfformiad cymharol 51 gwlad mewn darparu amgylchedd ar gyfer ymarferion busnes cyfrifol yn y dyfodol.
- Mae'r Mynegai Cystadleugarwch Cyfrifol yn edrych ar y cysylltiadau rhwng cyfrifoldeb corfforaethol a chystadleugarwch cenedlaethol yr un grŵp o wledydd.

Mae'r ymdrech gyntaf hon i gysylltu ymarferion cyfrifoldeb corfforaethol ar lefel micro gyda chynhyrchu ar lefel macro ac effeithiau cystadleugarwch yn codi cymaint o gwestiynau ac y mae'n eu hateb. Yn ganolog fodd bynnag mae'n nodi'r sialens a'r rheidrwydd i sicrhau fod.

- Cyfrifoldeb corfforaethol yn cael ei chwyddo trwy ei gyfluniad gyda chystadleugarwch cenedl.
- Strategaethau cystadleugarwch cenedlaethol yn cael eu gwella, yn feintiol ac yn ansoddol, trwy eu cyfluniad ag ymarferion cyfrifoldeb corfforaethol.

CYFEIRIAD GWEFAN DEFNYDDIOL

www.ciesin.columbia.edu/indicators/ESI

Mynegai Cynaladwyedd Amgylcheddol Fforwm Economaidd y Byd

Mae'r Mynegai Cynaladwyedd Amgylcheddol (MCA) yn seiliedig ar brosiect a ddatblygwyd gan Dasglu Amgylchedd Arweinwyr Byd-Eang ar gyfer Yfory Fforwm Economaidd y Byd, ar y cyd gyda'r Yale Centre for Environmental Law and Policy a'r Centre for International Earth Science Information Network (CIESIN) ym Mhrifysgol Columbia.

Mae'r MCA yn fesur o gynnydd cyffredinol tuag at gynaladwyedd amgylcheddol a ddatblygwyd ar gyfer 142 gwlad. Mae sgoriau'r MCA yn seiliedig ar set o 20 'dangosydd' craidd, pob un yn cyfuno dau i wyth o amrywiaethau ar gyfer cyfanswm o 68 o amrywiaethau gwaelodol. Mae'r MCA n caniatáu cymariaethau ar draws gwledydd ar gynnydd amgylcheddol mewn dull systematig a meintiol ac mae'n cynrychioli cam cyntaf tuag at ymagwedd fwy dadansoddol tuag at wneud penderfyniadau amgylcheddol cenedlaethol.

Olion Traed Ecolegol

Mae dadansoddiad olion traed ecolegol yn ymagwedd graffig ar gyfer cysyniadoli effaith amgylcheddol unigolyn neilltuol (neu gorff, cynnyrch, gwasanaeth neu ranbarth gwleidyddol) ac i ddeall sut mae hyn yn berthynol i allu cludo cyffredinol y blaned. Mae dadansoddiad olion traed yn nodi darn o dir biocynhyrchiol sydd ei angen i ddarparu'r gwasanaethau ecolegol ar gyfer unigolyn, corff, cynnyrch neu weithgarwch neilltuol. Mae cyfrifiadau olion traed yn seiliedig ar ddau syniad syml: i ddechrau, gallwn olrhain y rhan fwyaf o'r adnoddau a ddefnyddiwn a'r gwastraff a gynhyrchwn; ac yn ail gellir newid y rhan fwyaf o'r llif gwastraff ac adnoddau hyn yn ardal fiolegol gynhyrchiol angenrheidiol i ddarparu'r swyddogaethau hyn.

Amcangyfrifwyd, gyda phoblogaeth fyd-eang o 6 biliwn, mae gan bob unigolyn ledled y byd tua 2 hectar o ardal fiolegol gynhyrchiol. A chymryd fod rhywun yn neilltuo 12% o hyn ar gyfer diogelu bioamrywiaeth (fel y nodir er enghraifft gan Gomisiwn y Byd dros yr Amgylchedd a Datblygu) mae hyn yn gadael 1.7 hectar yn unig i bob person. Gan dybio na fydd unrhyw ddiraddio ecolegol pellach a chan ddefnyddio'r un tybiaethau gwaelodol ar gyfer y cyfrifiad uchod, mae hyn yn golygu y bydd y gofod biolegol cynhyrchiol sydd ar gael yn syrthio i 1 hectar y person unwaith y bydd poblogaeth y byd yn cyrraedd y 10 biliwn a ragwelir. Ymysg defnydd arall, mae'n ddiddorol ac yn ddefnyddiol cymharu olion traed dinesydd cyffredin mewn gwlad ddatblygedig lle mae ffyrdd o fyw dwys o ran adnoddau yn gyffredin yn erbyn olion traed dinesydd mewn rhan dlotach fwy gwledig o'r byd.

Mesur Datblygu Cynaliadwy – Dangosyddion Macro

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.wales.gov.uk/keypubstatistics forwalesheadline/content/sustainable/2004/hdw20040323-e.htm

www.sustainable-development.gov.uk/performance/performance.htm

Dangosyddion DU

Mae Llywodraeth y DU, y Cynulliad a Senedd yr Alban wedi datblygu ymagweddau gwahanol at fonitro cynnydd tuag at DC o ran nifer a natur y dangosyddion a ddefnyddir. Gyda datblygiad Strategaeth DC y DU mae set o 20 *'Dangosyddion Fframwaith'* lefel uchaf wedi'u datblygu gyda 48 o ddangosyddion cefnogi eraill, ar hyd y themâu cyffredinol:

- Treuliant a chynhyrchu cynaliadwy
- Newid hinsawdd ac ynni
- Diogelu adnoddau dynol a gwella'r amgylchedd
- Cymunedau cynaliadwy.

Mae Gweithrediaeth yr Alban wedi mabwysiadu set o 24 dangosydd i gefnogi eu Strategaeth DC ac yng Nghymru mae'r dangosyddion DC yn cynnwys 12 prif ddangosydd yn berthynol i:

- Cyflogaeth
- Addysg
- Trosedd
- Tai
- Newid Hinsawdd
- Ansawdd Aer
- Ansawdd Dŵr Afon
- Bywyd Gwyllt
- Gwastraff
- Yr Iaith Gymraeg
- Trydan o ffynonellau adnewyddol
- Olion Traed Ecolegol.

Tirwedd Gwleidyddol: Byd-eang

Ymrwymiadau Gwleidyddol Archfwaol

Comisiwn y Cenhedloedd Unedig ar DC

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.un.org/esa/sustdev/csd/csd.htm

Sefydlwyd y Comisiwn ar Ddatblygu Cynaliadwy ym mis Chwefror 1993 fel comisiwn gweithrediadol y Cyngor Economaidd a Chymdeithasol (ECOSOC). Mae Cynnig Cynulliad Cyffredinol yn datgan bod swyddogaethau'r Comisiwn yn cynnwys rhesymegoli gallu gwneud penderfyniadau rhynglywodraethol ar gyfer integreiddio materion amgylcheddol a datblygu a gweithredu Agenda 21 ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a rhyngwladol. Mae'r Comisiwn yn gorff rhynglywodraethol ac etholir ei aelodau gan ECOSOC o Aelod Wladwriaethau y CU ac asiantaethau arbenigol eraill. Etholir ei 53 aelod am gyfnod o dair blynedd ac maent yn cyfarfod yn flynyddol i adolygu cynnydd yng ngweithrediad argymhellion ac ymrwymiadau sydd yn nogfennau terfynol UNCED a hyrwyddo deialog datblygu cynaliadwy yn y gymuned ryngwladol.

Rhaglen Amgylchedd y CU (UNEP)

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.unep.org

Nod UNEP yw annog partneriaeth fyd-eang mewn amddiffyn amgylcheddol. Fe'i sefydlwyd ym 1972 ac mae'n gweithredu fel 'catalydd, eiriolydd, addysgwr a hyrwyddwr' i hyrwyddo materion datblygu cynaliadwy mewn cyrff rhyngwladol, llywodraethau cenedlaethol, Cyrff Anllywodraethol a chyrff sector preifat. Mae ei amcanion yn cynnwys asesu amodau amgylcheddol mewn sfferau byd-eang, rhanbarthol a chenedlaethol; datblygu offerynnau i wella diogelwch amgylcheddol; cryfhau sefydliadau ar gyfer rheolaeth gadarn yr amgylchedd; a hyrwyddo trosglwyddo gwybodaeth a thechnoleg i sicrhau datblygu cynaliadwy. Mae UNEP yn cynnal sawl ysgrifenyddiaeth cytundebau amgylcheddol, fel ysgrifenyddiaeth yr Osôn a Chronfa Amlochrog Protocol Montreal, CITES (Y Cytundeb ar Fasnach Rhyngwladol mewn Rhywogaethau mewn Perygl o Anifeiliaid a Blodau Gwyllt), y Cytundeb ar Amrywiaeth Biolegol, y Cytundeb ar Rywogaethau Mudol a theulu cynyddol o gytundebau perthynol i gemegolion, yn cynnwys cytundeb Basel ar Symud Gwastraff Peryglus ar Draws Ffiniau a'r Cytundeb Stockholm diweddar ar Lygrwyr Organig Parhaol (POPs).

Ymrwymiadau Gwleidyddol Archfwaol

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.ilo.org

Cytundebau Craidd y Corff Llafur Rhyngwladol ar Safonau Llafur

Wedi'i sefydlu ym 1919, Corff Llafur Rhyngwladol (ILO) yw'r asiantaeth CU hynaf. Mae iddo broses gwneud penderfyniadau tri pharti unigryw gyda chynrychiolaeth o lywodraethau, cyrff llafur a chyrff cyflogwyr. Gwendid cydnabyddedig pwysig cytundebau ILO yw diffyg gweithrediad a gorfodaeth, hyd yn oed gan lywodraethau sydd wedi cadarnhau'r Cytundebau Craiff yn ffurfiol fel rhan o'u cyfraith genedlaethol.

Mae'r wyth Cytundeb ILO canlynol wedi eu nodi gan Gorff Llywodraethu ILO fel rhywbeth hanfodol i hawliau gweithwyr, waeth beth fo lefel datblygiad Aelod Wladwriaethau. Mae'r hawliau hyn yn rhag amod ar gyfer y gweddill gan mai eu bwriad yw darparu gweithwyr gyda'r offer angenrheidiol i ymgeisio'n rhydd am welliant amodau gwaith unigol a thorfol. Mae'r cytundebau craidd hyn hefyd yn ategu nifer o godau ymarfer busnes rhyngwladol yn ymwneud â materion cynaladwyedd.

Rhyddid Cymdeithasu

Rhyddid Cymdeithasu a Diogelu Hawl i Drefnu Cytundeb (1948): Mae hwn yn sefydlu hawl pob gweithiwr a chyflogwr i ffurfio ac ymuno â chyrff o'u dewis eu hunain heb awdurdodiad o flaen llaw, ac mae'n nodi cyfres o warantau ar gyfer gweithrediad rhydd cyrff heb ymyrraeth gan awdurdodau cyhoeddus.

Cytundeb yr Hawl i Drefnu a Bargeinio Torfol (1949): Mae hwn yn darparu diogelwch yn erbyn gwahaniaethu gwrth undeb, er diogelwch cyrff gweithwyr a chyflogwyr yn erbyn ymyrraeth gan ei gilydd, ac ar gyfer mesurau i hyrwyddo ac annog bargeinio torfol.

Dileu Llafur Gorfodol

Cytundeb Llafur Gorfodol (1930): Mae hwn yn ei gwneud yn ofynnol i roi terfyn ar lafur gorfodol ar bob ffurf. Mae'r term 'llafur gorfodol' yn eithrio rhwymedigaethau fel gwasanaeth milwrol; cyflawni dyletswyddau dinesig; gwaith o ganlyniad i gollfarn gyfreithiol, dan rai amodau; gwaith mewn achosion o argyfyngau naturiol, a mân wasanaethau cymunedol.

Cytundeb Dileu Llafur Gorfodol (1957): Mae hwn yn gwahardd y defnydd o unrhyw ffurf o lafur gorfodol. Mae'n cynnwys llafur gorfodol fel dull o orfodaeth wleidyddol neu gosb am fynegi barn wleidyddol neu ideolegol, defnyddio gweithlu i ddibenion datblygu economaidd neu gosb am gymryd rhan mewn streiciau neu fel rhan o wahaniaethu ar sail hil, cymdeithas, cenedl neu grefydd.

Cydraddoldeb

- **Cytundeb Gwahaniaethu (Cyflogaeth a Galwedigaeth) (1958)** Mae hwn yn galw am bolisi cenedlaethol i ddileu gwahaniaethu o ran mynediad i gyflogaeth, hyfforddiant ac amodau gwaith ar sail hil, lliw, rhyw, crefydd, barn wleidyddol, cenedl neu darddiad cymdeithasol ac i hyrwyddo cyfle a thriniaeth cyfartal. Mae gwladwriaethau sy'n cadarnhau i hyrwyddo cyfle a thriniaeth cyfartal trwy ddatgan a dilyn polisi cenedlaethol wedi'i anelu at ddileu pob ffurf o wahaniaethu mewn perthynas â chyflogaeth a galwedigaeth.
- **Cytundeb Cyflog Cyfartal (1951)** Mae hwn yn galw am gyflog cyfartal i ddynion a marched am waith o werth cyfartal.

Dileu Llafur Plant

- **Cytundeb Lleiafswm Oed (1973)** Mae gwladwriaethau sy'n cadarnhau'r Cytundeb hwn yn ymrwymo i ddilyn polisi cenedlaethol wedi'i ddylunio i sicrhau dileu llafur plant yn effeithiol ac i godi yn gynyddol lleiafswm oedran ar gyfer dechrau cyflogaeth neu waith. Mae'r Cytundeb yn nodi sawl lleiafswm oedran, yn dibynnu ar y math o gyflogaeth neu waith.
- **Cytundeb y Ffurfiau Gwaethaf o Lafur Plant (1999)** Mae hwn yn galw am fesurau ar unwaith ac effeithiol i sicrhau gwahardd a dileu'r ffurfiau gwaethaf o lafur plant fel mater o frys. Mae'n gymwys i bob person dan 18 oed, ac yn cynnwys materion fel caethwasiaeth, milwyr plant, puteindra plant, defnyddio plentyn ar gyfer gweithgareddau anghyfreithlon fel cludo cyffuriau a gwaith sydd yn debygol o niweidio iechyd, diogelwch neu foesau plant.

Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol

Wedi'i fabwysiadu gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ar 10 Rhagfyr 1948, y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol yw'r brif ddogfen CU sydd yn sefydlu hawliau, safonau a normau dynol. Er nad oedd yn ddiben i wneud y Datganiad yn un oedd yn rhwymo, dros amser mae ei amrywiol ddarpariaethau wedi eu parchu'n ddigonol gan

Ymrwymiadau Gwleidyddol Archfwaol

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.unhchr.ch/udhr

wladwriaethau fel y gellid dweud bellach fod y Datganiad yn gyfraith ryngwladol arferol. Datblygwyd y Datganiad fel 'safon cyflawniad cyffredinol i'r holl bobloedd a'r holl genhedloedd'. Mae'n galw ar bob unigolyn a phob rhan o gymdeithas i barchu'r hawliau a'r rhyddid hyn ac i sicrhau eu cydnabyddiaeth a'u cadwraeth yn gyffredinol trwy weithrediad mesurau blaengar a thrwy addysgu ac addysg. Cyfeirir yn benodol at y Cytundeb mewn nifer o godau ymarfer busnes rhyngwladol. Yn ogystal â datgan fod gan bawb yr hawl i fywyd, rhyddid a diogelwch person, mae'r Datganiad hefyd yn gwneud darpariaeth benodol ar gyfer nifer o hawliau economaidd a chyfreithiol. Mae darpariaethau allweddol y Datganiad yn cynnwys er enghraifft:

- Gwahardd caethwasiaeth, poenydio a thriniaeth greulon, annynol neu ddiraddiol neu gosb.
- Cydnabyddiaeth a diogelwch cyfartal gerbron y gyfraith, yn cynnwys diogelwch yn erbyn arest gormesol, carchariad neu alltudio.
- Amddiffyn preifatrwydd, teulu, cartref a gohebiaeth ac yn erbyn ymosodiadau yn erbyn enw da.
- Yr hawl i ryddid symud o gwmpas a phreswylio o fewn ffiniau pob gwladwriaeth.
- Yr hawl i eiddo'ch hun gydag amddiffyniad yn erbyn cael eich amddifadu'n ormesol ohonynt.
- Yr hawl i ryddid meddwl, cydwybod a chrefydd, rhyddid barn a mynegiant, a'r hawl i ymgynnull a chymdeithasu yn heddychlon.
- Yr hawl i nawdd cymdeithasol a gwaith, cyflog cyfartal am waith cyfartal, cyflog teg a chyfiawn a ffurfio ac ymuno ag undebau llafur.
- Yr hawl i orffwys a hamdden, yn cynnwys gwyliau rheolaidd gyda chyflog.
- Yr hawl i safon byw ddigonol ar gyfer iechyd a lles, yn cynnwys yr hawl i gymryd rhan yn rhydd yng ngweithgarwch diwylliannol y gymuned.
- Yr hawl i addysg a ddylai fod ar gael am ddim o leiaf yn y camau elfennol.

Datganiad Rio ar Amgylchedd a Datblygu

Datganiad Rio ar Amgylchedd a Datblygu oedd un o brif ganlyniadau cyfreithiol a gwleidyddol Cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Amgylchedd a Datblygu a gynhaliwyd yn Rio de Janeiro ym mis Mehefin 1992 ('Uwchgynhadledd y Ddaear'). Er nad yw'n ddatganiad sydd yn rhwymo, mae ei ddatganiad o egwyddorion cyffredinol yn cael ei ystyried yn eang fel un sydd yn adlewyrchu cyfraith ryngwladol cyffredinol. Mae'r Datganiad yn ddatganiad pwysig o egwyddor yn berthynol i ddatblygu cynaliadwy, gan ddatgan yn glir fod 'rhaid cyflawni'r hawl i ddatblygu fel ei fod yn diwallu anghenion datblygu ac amgylcheddol cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol yn deg' (Egwyddor 3). Er mwyn cyflawni datblygu cynaliadwy, mae'n dweud y 'bydd amddiffyn amgylcheddol yn rhan annatod o'r broses ddatblygu ac ni ellir ei ystyried ar ei ben ei hun oddi wrtho' (Egwyddor 4).

Mae'r Datganiad yn adlewyrchu bargen wleidyddol rhwng y Gogledd cyfoethog oedd yn bryderus am broblemau amgylcheddol byd-eang a'r De tlotach oedd yn bryderus yn bennaf ynglŷn â datblygu economaidd. Yn ei hanfod, gwelodd y cyfaddawd a ddilynodd y Gogledd yn ymrwymo i gymryd rhai o'r camau cychwynnol tuag at fynd i'r afael â phryderon amgylcheddol byd-eang a darparu cyllid 'newydd ac ychwanegol' i gynorthwyo'r De i ddilyn ei hesiampl. Yn gyfnewid am hynny cytunodd y De i gydweithio i amddiffyn yr amgylchedd byd-eang.

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.unep.org/dpdl/Law/PDF/Rio_Declaration.pdf

Nodau Datblygu'r Mileniwm

Mae Nodau Datblygu'r Mileniwm – y cytunwyd arnynt gan arweinwyr y byd yn Uwchgynhadledd y Mileniwm a gynhaliwyd yng Nghynulliad Cyffredinol y CU ym mis Medi 2000 – yn agenda uchelgeisiol ar gyfer lleihau tlodi a gwella bywydau. Am bob nod, mae un neu ragor o dargedau wedi eu gosod. Mae'r rhan fwyaf o'r targedau hyn ar gyfer 2015 gyda 1990 fel y llinell sylfaen. Datblygwyd nifer o'r targedau mewn cynadleddau rhyngwladol yn ystod yr 1990au. Fe'u casglwyd yn ddiweddarach ac fe'u galwyd yn Nodau Datblygu Rhyngwladol. Ym mis Medi 2000 mabwysiadodd y Cenhedloedd Unedig Ddatganiad y Mileniwm yn unfrydol. Yn dilyn ymgynghoriadau ymysg amrywiol asiantaethau rhyngwladol. Cydnabu'r Cynulliad Cyffredinol y Nodau Datblygu Mileniwm canlynol fel rhan o'r map ar gyfer gweithredu Datganiad y Mileniwm.

Ymrwymiadau Gwleidyddol Archfwaol

- Dileu tlodi a newyn eithafol – Targed ar gyfer 2015: haneru'r ganran o bobl sydd yn byw ar lai na doler y dydd a'r rhai sy'n dioddef newyn.
- Cyflawni addysg gynradd fyd-eang – targed ar gyfer 2015:sicrhau fod pob bachgen a merch yn gorffen ysgol gynradd.
- Hyrwyddo cydraddoldeb rhyw a galluogi menywod – Targedau: dileu gwahaniaethu rhyw mewn addysg gynradd ac uwchradd erbyn 2005 o bosibl ac ar bob lefel erbyn 2015.
- Gostwng marwolaethau plant – targed ar gyfer 2015: lleihau o ddwy ran o dair y gyfradd marwolaeth ymysg plant dan bump oed.
- Gwella iechyd mamol- targed ar gyfer 2015: lleihau o dri chwarter y gyfradd o fenywod yn marw wrth roi genedigaeth.
- Ymladd yn erbyn HIV/AIDS, malaria ac afiechydon eraill – targed ar gyfer 2015: Atal a dechrau gwrthdroi lledaeniad HIV/AIDS ac achosion o falaria ac afiechydon mawr eraill.

Sicrhau Cynaladwyedd Amgylcheddol – Targedau:

- Integreiddio egwyddorion datblygu cynaliadwy i bolisïau a rhaglenni gwledydd ac atal colli adnoddau amgylcheddol.
- Erbyn 2015 lleihau o hanner y canran o bobl heb y modd o gael gafael ar ddŵr yfed diogel.
- Erbyn 2020 cyflawni gwelliant sylweddol ym mywydau o leiaf 100 miliwn o rai'n byw mewn slymiau.

Datblygu Partneriaeth Fyd-eang ar Gyfer Datblygu – Targedau:

- Datblygu ymhellach system fasnachu ac ariannol agored sydd yn cynnwys ymrwymiad i lywodraethu da, datblygu a lleihau tlodi – yn rhyngwladol ac yn genedlaethol.
- Mynd i'r afael ag anghenion arbennig y gwledydd lleiaf datblygedig ac anghenion arbennig Gwladwriaethau wedi'u hamgylchynu gan dir ac Ynysoedd Bach sydd yn datblygu.
- Delio'n gynhwysfawr gyda phroblemau dyledion gwledydd sy'n datblygu.
- Datblygu gwaith teilwng a chynhyrchiol i bobl ifanc.

- Mewn cydweithrediad â chwmnïau fferyllol, darparu'r modd i gael gafael ar gyffuriau hanfodol mewn gwledydd sy'n datblygu.
- Mewn cydweithrediad â'r sector preifat, sicrhau bod manteision y technolegau newydd ar gael – yn enwedig technolegau gwybodaeth a chyfathrebiadau.

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.un.org/millenniumgoals
www.developmentgoals.org

Cynllun Gweithredu Johannesburg (WSSD)

Esgorodd Uwchgynhadledd y Byd ar Ddatblygu Cynaliadwy a gynhaliwyd yn Johannesburg ym mis Medi 2002 ar ddau ganlyniad allweddol a drafodwyd: Datganiad Johannesburg (datganiad o egwyddorion tebyg i Ddatganiad Rio) a Chynllun Gweithredu Johannesburg. Mae'r Cynllun Gweithredu yn set fanwl o ymrwymiadau a thargedau ar gyfer gweithredu wedi'u hanelu at weithredu amcanion datblygu cynaliadwy yn fwy effeithiol. Gyda'i gilydd, ail gadarnhaodd y testunau hyn a drafodwyd yn wleidyddol y pwnc o ddatblygu cynaliadwy fel elfen ganolog o'r agenda rhyngwladol a rhoi hwb newydd i weithredu byd-eang i ymladd tlodi ac amddiffyn yr amgylchedd. Yn ogystal â'r ddau ganlyniad hwn, deilliodd nifer o bartneriaethau rhwng llywodraethau, busnesau a chymdeithas ddinesig o'r Uwchgynhadledd hon (tudalen 57).

Mae Cynllun Gweithredu Johannesburg yn destun cynhwysfawr, yn cynnwys dros 50 tudalen o ymgymeriadau. Ceir crynodeb yma o'r ymrwymiadau mwy penodol ac arwyddocaol. Mae nifer o'r targedau yn ail gadarnhau Nodau Datganiad y Mileniwm (NDM).

- Erbyn 2015, haneru'r ganran o bobl sydd ag incwm o lai na doler y dydd (NDM).
- Erbyn 2020, cyflawni gwelliant sylweddol ym mywydau o leiaf 100 miliwn o bobl sy'n byw mewn slymiau (NDM).
- Erbyn 2015, haneru'r ganran o bobl heb fodd i gael dŵr yfed diogel (NDM).
- Erbyn 2015, haneru'r ganran o bobl heb fodd i gael glanweithdra sylfaenol.
- Erbyn 2015, gostwng cyfraddau marwolaeth ymysg babanod a phlant dan 5 oed o ddwy ran o dair o'r gyfradd yn 2000 (NDM).
- Amrywio cyflenwad ynni a chynyddu yn sylweddol y gyfran fyd-eang o ffynhonnell ynni adnewyddol er mwyn cynyddu ei gyfraniad i'r cyflenwad ynni cyfan.

Ymrwymiadau Gwleidyddol Archfwaol

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.johannesburgsummit.org

- Erbyn 2020 anelu at ddefnyddio a chynhyrchu cemegolion mewn modd nad yw'n arwain at effeithiau niweidiol sylweddol ar iechyd dynol a'r amgylchedd.
- Erbyn 2005, datblygu ymhellach ymagwedd strategol at reolaeth cemegolion rhyngwladol, yn seiliedig ar Ddatganiad Bahia a Blaenoriaethau ar gyfer Gweithredu y tu hwnt i 2000.
- Erbyn 2008, annog gwledydd i weithredu'r system gytûn fyd-eang newydd ar gyfer dosbarthu a labelu cemegolion, gyda golwg ar weithredu'r system yn llawn.
- Sicrhau, erbyn 2015 y bydd pob plentyn yn gallu cwblhau cwrs llawn o addysg gynradd.
- Erbyn 2010 cyflawni gostyngiad sylweddol yn y raddfa gyfredol o golli amrywiaeth biolegol.
- Datblygu rheolaeth adnoddau dŵr integredig ac effeithiolrwydd dŵr erbyn 2005.
- Erbyn 2015, lle mae'n bosibl, cynnal neu adfer stoc pysgod i lefelau all gynhyrchu'r cynnyrch cynaliadwy mwyaf.
- Hyrwyddo cyfrifoldeb ac atebolrwydd corfforaethol yn weithredol, yn cynnwys trwy ddatblygiad llawn a gweithrediad effeithiol cytundebau a mesurau rhynglywodraethol, mentrau rhyngwladol a phartneriaethau cyhoeddus-preifat a rheoliadau cenedlaethol priodol.
- Gwella addysg iechyd gyda'r nod o gyflawni gwell llythrennedd iechyd ar sail fyd-eang erbyn 2010.

Partneriaethau "Math II" Uwchgynhadledd y Byd ar Ddatblygu Cynaliadwy

Set bwysig o ganlyniadau o'r Uwchgynhadledd oedd yr hyn a elwir yn bartneriaethau 'Math II' rhwng llywodraethau, busnesau a chymdeithas ddinesig. (Mae cytundebau 'Math I' yn cyfeirio at y cytundebau a luniwyd trwy drafodaethau rhwng llywodraethau yn unig – sef Cynllun Gweithredu Johannesburg a Datganiad Johannesburg).

Enwyd dros 220 o bartneriaethau (gyda 235 miliwn doler mewn adnoddau) cyn yr Uwchgynhadledd, a chyhoeddwyd dros 60 o bartneriaethau yn ffurfiol yn ystod yr Uwchgynhadledd ei hun. Ceir amlinellid byr yma o rai o'r partneriaethau hyn, nifer ohonynt â chyrff sector busnes ac/neu gwmnïau unigol fel arwyddwyr allweddol.

Dŵr a Glanweithdra

- Cyhoeddodd yr Undeb Ewropeaidd y fenter 'Dr ar gyfer Bywyd' sydd yn ceisio ymrwymo partneriaid i ddiwallu'r nodau ar gyfer dŵr a glanweithdra, yn bennaf yn Affrica a Chanol Asia.
- Darparodd Banc Datblygu Asia grant o 5 miliwn doler i Cynefin CU a 500 miliwn doler o gredyd trac cyflym ar gyfer y Rhaglen Dŵr i Ddinasoedd Asia.
- Cyhoeddodd yr Unol Daleithiau 970 miliwn doler mewn buddsoddiadau dros y tair blynedd nesaf mewn projectau dŵr a glanweithdra mewn sawl gwlad.

Ynni

- Arwyddodd naw cwmni trydan mawr amrediad o gytundebau gyda'r CU i hyrwyddo cydweithrediad technegol ar gyfer projectau ynni cynaliadwy yn y gwledydd sy'n datblygu.
- Cyhoeddodd UNEP ac EPA'R Unol Daleithiau bartneriaeth ar Danwydd a Cherbydau Glanach gyda chefnogaeth eang gan bartneriaid o'r sector preifat, cymuned Cyrff Anllywodraethol, gwledydd datblygedig a gwledydd sy'n datblygu.
- Cyhoeddodd y cyfleustod ynni o Dde Affrica, Eskom, bartneriaeth i ymestyn gwasanaethau ynni modern i wledydd cyfagos.

Iechyd

- Cyhoeddodd yr Unol Daleithiau ymrwymiad i wario 2.3 biliwn doler yn 2003 ar iechyd; rhywfaint ohono wedi'i glustnodi ynghynt ar gyfer y Gronfa Byd-eang.

Bioamrywiaeth a Rheolaeth Ecosystem

- Mae'r CU wedi derbyn 32 o fentrau partneriaethau gyda 100 miliwn doler mewn adnoddau.

Hinsawdd ac Atmosffer

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.iisd.ca/process/climate_atm.htm

Cytundeb Fframwaith y CU ar Newid Hinsawdd

Llofnodwyd Cytundeb Fframwaith y CU ar Newid Hinsawdd (UNFCCC) yn Uwchgynhadledd y Byd yn Rio ym 1992 gan dros 150 o wledydd. Prif amcan y Cytundeb yw 'sefydlu crynodiad nwy tŷ gwydr yn yr atmosffer ar lefel a fyddai'n atal ymyrraeth anthropogenig (wedi'i greu gan ddyn) peryglus gyda'r system hinsawdd.' Daeth y cytundeb i rym ym mis Mawrth 1994 ar ôl cadarnhad dros 50 o wledydd. Bellach mae dros 180 o wledydd wedi cadarnhau'r Cytundeb.

Mae UNFCCC yn sefydlu fframwaith o egwyddorion a sefydliadau cyffredinol ac yn creu proses lle y mae llywodraethau'n cyfarfod yn rheolaidd i ddatblygu glasbrint mwy manwl ar gyfer gweithredu i fynd i'r afael â newid hinsawdd. Mae ymagwedd o'r fath yn caniatáu i wledydd drafod pwnc hyd yn oed cyn bod cytundeb llawn fod yna mewn gwirionedd broblem. Mae'r Cytundeb hefyd yn gosod nifer o ymrwymiadau rhagarweiniol yn eu lle ar gyfer Partïon sy'n cadarnhau, yn cynnwys er enghraifft:

- Cymryd 'newid hinsawdd i ystyriaeth' mewn materion fel amaethyddiaeth, ynni, adnoddau naturiol a gweithgareddau yn cynnwys arfordiroedd.
- Datblygu rhaglenni cenedlaethol i ddangos newid hinsawdd.
- Rhannu technoleg a chydweithio mewn dulliau eraill i ostwng allyriadau NTG.
- Datblygu 'rhestr' nwy tŷ gwydr yn rhestru eu ffynonellau cenedlaethol (fel ffatrïoedd a thrafnidiaeth) a 'sinciau' (coedwigoedd ac ecosystemau naturiol eraill sydd yn amsugno Nwyon Tŷ Gwydr (NTG)).

Nid yw'r UNFCCC yn gosod unrhyw lefel allyriadau sydd yn gyfreithiol rhwymedig, ond mae'n datgan y nod y dylai gwledydd Atodiad I (gweler y Rhestr Termau ar dudalennau 59-60) ddychwelyd eu hallyriadau i lefelau 1990 erbyn y flwyddyn 2000. Mae'r targedau mwy penodol ar gyfer gostwng allyriadau NTG i'w cael ym Mhrotocol Kyoto, a amlinellir isod.

Rhestr Termau ar gyfer Newid Hinsawdd

Mae trafodaethau newid hinsawdd yn enwog am fod yn gymhleth ac maent wedi datblygu eu geirfa fanwl eu hunain o dermau ac ymadroddion. Ceir detholiad cryno iawn i ddilyn o rai o'r termau niferus hyn. Darperir y rhain i ddibenion cefndir cyffredinol ac esboniadol yn unig. Er enghraifft mae rhestrau termau mwy manwl ar gael o **www.ipieca.org** neu **www.climatenetwork.org/canglossary.html**

Gwledydd Atodiad I Mae Atodiad I i'r UNFCCC yn rhestru'r holl wledydd yn yr OECD ym 1990 yn ogystal â gwledydd gydag economïau yn newid (Canol a Dwyrain Ewrop). O ran Erthygl 4.2 o'r Cytundebau, mae'r holl wledydd hyn (datblygedig) yn ymrwymo eu hunain i'r nod o ostwng yn unigol neu ar y cyd i'w lefelau allyriadau NTG 1990 erbyn y flwyddyn 2000.

Gwledydd Atodiad B Mae Atodiad B o Brotocol Kyoto yn rhestru'r holl wledydd datblygedig hynny sydd wedi cytuno i ymrwymiadau penodol i reoli eu hallyriadau NTG yn y cyfnod 2008-2012. Mae'r rhestr hon o wledydd yn debyg, er nid yn union yr un fath â rhestr Gwledydd Atodiad I UNFCCC.

Sinciau Carbon Unrhyw beth sy'n digwydd yn naturiol, fel coedwigoedd neu fathau penodol o weithgarwch amaethyddol, y gellir ei dyfu neu ei greu yn benodol i helpu amsugno rhagor o garbon deuocsid.

Mecanwaith Datblygu Glân (MDG) Mecanwaith Kyoto yn seiliedig ar brosiect. Diben projectau MDG a gynhelir mewn gwledydd sy'n datblygu gyda buddsoddiad gan wledydd (datblygedig) Atodiad I yw diwallu dau amcan: delio ag anghenion datblygu cynaliadwy'r wlad wadd, a chynhyrchu credydau allyriadau y gall y parti sy'n buddsoddi eu defnyddio i ddiwallu ymrwymiadau Partïon Atodiad I. Os cant eu cymeradwyo gan Fwrdd Rheoli MDG gall projectau sydd yn cyfyngu ar neu yn gostwng allyriadau NTG ennill credydau i'r buddsoddwr (gwlad neu ddiwydiant), o'r enw Unedau Gostwng Allyriadau (UGA).

Newid Hinsawdd Newid mewn hinsawdd a briodolir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i weithgarwch dynol sydd yn newid cyfansoddiad atmosffer y byd ac sydd yn ychwanegol at amrywiaeth hinsawdd naturiol dros gyfnodau cymharol o amser. Elfen achosol hanfodol o newid hinsawdd yw'r cynnydd mewn NTG yn deillio o weithgarwch dynol.

Dwyster Allyriadau Allyriadau nwy tŷ gwydr a ryddheir fel y'i mesurir yn erbyn rhyw ffactor arall fel Cynnyrch Domestig Gros cenedl, talaith neu wladwriaeth. Mae safonau eraill y gellir mesur dwyster allyriadau yn eu herbyn yn cynnwys: fesul casgen o olew, fesul miliwn troedfedd giwbig o nwy naturiol, fesul tunnell o lo, sment etc. a gynhyrchir, neu fesul megawat awr o drydan.

Masnachu Allyriadau System yn seiliedig ar y farchnad sydd yn caniatáu hyblygrwydd i gwmnïau ddewis yr atebion mwyaf cost effeithiol i gyflawni nodau amgylcheddol sefydledig. Gall cwmnïau sy'n cynhyrchu llai o allyriadau nag y mae hawl ganddynt i'w wneud, werthu eu 'gallu dros ben' i eraill nad ydynt.

Hinsawdd ac Atmosffer

Nwyon Tŷ Gwydr (NTG) y prif nwyon tŷ gwydr yw anwedd dŵr, carbon deuocsid, osôn, methan, ocsid nitraidd a'r clorofflwocarbonau (CFCs). Mae pob un ond CFCs yn digwydd yn naturiol. Gyda'i gilydd mae'r nwyon hyn yn ffurfio llai nag un y cant o'n hatmosffer, gan gynnal yr hyn a elwir yn 'effaith tŷ gwydr naturiol' y Ddaear. Heb hynny byddai'r Ddaear 30 gradd yn oerach – hynny yw planed wedi rhewi.

Mecanweithiau Kyoto Mae Protocol Kyoto yn caniatáu creu a throsglwyddo credydau neu drwyddedau allyriadau rhwng gwledydd er mwyn lleihau cost gostwng allyriadau tŷ gwydr byd-eang. Mae'r mecanweithiau hyn yn cynnwys: Gweithredu ar y Cyd (projectau gostwng allyriadau rhwng dwy wlad gyda tharged Kyoto); Mecanweithiau Datblygu Glân (gostyngiadau'n seiliedig ar brosiectau rhwng gwledydd datblygedig a rhai'n datblygu) a Masnachu Allyriadau Rhyngwladol (masnachu rhyngwladol trwyddedau nwy tŷ gwydr rhyngwladol).

Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd (PRhNH) Panel a sefydlwyd gan Gorff Meteoregol y Byd a Rhaglen Amgylchedd y cenhedloedd Unedig ym 1988 mewn cydnabyddiaeth o newid hinsawdd fyd-eang posibl. Swyddogaeth y panel yw asesu'r wybodaeth wyddonol, dechnegol a chymdeithasol economaidd angenrheidiol i ddeall y perygl o newid hinsawdd wedi'i greu gan ddynion. Nid yw PRhNH yn cynnal ymchwil nac yn monitro data'n berthynol i hinsawdd, ond mae'n seilio ei asesiadau yn bennaf ar lenyddiaeth wyddonol/dechnegol a adolygwyd ac a gyhoeddwyd gan gymheiriaid.

Gweithredu ar y Cyd (GC) Mecanwaith Kyoto sydd yn caniatáu i wledydd datblygedig, neu gwmnïau o'r gwledydd hyn, i gydweithio ar brosiectau i leihau allyriadau NTG a rhannu'r Unedau Gostwng Allyriadau (UGA) yn deillio o hynny.

Trwyddedau Allyriadau Gwerthadwy Rhan o system masnachu allyriadau domestig sydd yn caniatáu nifer penodol o dunelli o allyriadau i allyrwyr. Unwaith mae'r terfyn wedi'i gyrraedd, mae'r drwydded yn dirwyn i ben. Mae cyfanswm y trwyddedau mewn unrhyw farchnad werthadwy yn gyfartal â lefel yr allyriadau y mae'r awdurdodau rheoleiddiol yn eu ceisio.

Protocol Kyoto

Mae Protocol Kyoto, a fabwysiadwyd ym 1997 yn Kyoto, Japan, yn ei gwneud yn ofynnol i wledydd datblygedig (a rhestri yn Atodiad B o'r Cytundeb) ddiwallu targedau gostwng gwahaniaethol ar gyfer eu hallyriadau o 'fasged' o chwech NTG erbyn 2008-2012, yn berthynol i lefelau 1990. Mae'r Protocol wedi datblygu rheolau a gweithdrefnau manwl; ('Mecanweithiau Kyoto') sydd yn caniatáu i wledydd datblyge dig ddiwallu eu hymrwymiadau gostwng allyriadau gan ddefnyddio

gweithrediadau y tu allan i'w ffiniau eu hunain, gyda'r nod o leihau effeithiau economaidd gofynion gostwng allyriadau NTG a chynyddu ymarferoldeb cyflawni gostyngiadau cychwynnol. Cadarnhaodd Rwsia'r Protocol ym mis Tachwedd 2004. Roedd ymrwymiad Rwsia yn hanfodol i bwysau cyfreithiol y cytundeb oherwydd roedd rhaid i 55 gwlad o leiaf ei gadarnhau, a hynny gan genhedloedd oedd yn gyfrifol am o leiaf 55% o nwyon tŷ gwydr cyn iddo ddod yn ddilys. Daeth Protocol Kyoto yn gytundeb cyfreithiol rhwymedig ar 16 Chwefror 2005.

Cytundeb Vienna ar gyfer Diogelu'r Haen Osôn

Mae Cytundeb Vienna 1985 yn gytundeb fframwaith ac nid yw'n cynnwys unrhyw reoliadau na thargedau cyfreithiol rhwymedig. Mae'r Cytundeb yn annog cydweithio rhynglywodraethol ar ymchwil, arsylwi yn systematig ar yr haen osôn, monitro cynhyrchu CFC a chyfnewid gwybodaeth. Mae'n ymrwymo ei Bartïon i gymryd mesurau cyffredinol i amddiffyn iechyd dynol a'r amgylchedd yn erbyn gweithgareddau dynol sydd yn newid yr haen osôn. Daeth y Cytundeb i rym ym mis Medi 1988 ac ar adeg ysgrifennu roedd gan y cytundeb 191 cadarnhad, derbyniad, cymeradwyaeth neu gydsyniad.

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.unep.ch/ozone

Protocol Montreal

Yn dilyn darganfod twll yn osôn yr Antartig yn hwyr ym 1985, cydnabu llywodraethau yr angen am fesurau cryfach i leihau cynhyrchu a threuliant nifer o CFCs a nifer o Halonau. Dyluniwyd y Protocol er mwyn gallu adolygu'r amserlenni a ddilëwyd gam wrth gam ar sail asesiadau gwyddonol a thechnolegol rheolaidd. Yn dilyn asesiadau o'r fath, addaswyd y Protocol i gyflymu'r amserlenni a ddilëwyd gam wrth gam yn Llundain ym 1990., Copenhagen ym 1992, Vienna ym 1995, Montreal ym 1997 a Beijing ym 1999. Mae wedi ei addasu hefyd i gyflwyno rhagor o fesurau rheoli llym ac ymestyn y rhestr o sylweddau rheoledig. Daeth Protocol Montreal i rym ym mis Ionawr 1989 ac ar adeg ysgrifennu, roedd 189 o wledydd wedi cadarnhau, derbyn, cymeradwyo neu gydsynio i'r Protocol.

Yn dilyn gweithrediad llwyddiannus y Cytundeb a'i Brotocolau, rhoddwyd y gorau i gynhyrchu'r sylweddau oedd yn gwneud y niwed mwyaf i'r haen osôn erbyn 1996 yn y gwledydd datblygedig (ac eithrio ar gyfer ychydig o ddefnydd hanfodol); disgwylir y cânt eu dileu erbyn 2010 yn y gwledydd datblygedig. Wrth gadw at y cytundeb hwn yn llwyr, rhagwelir y bydd yr haen osôn yn cael ei hadfer dros yr hanner can mlynedd nesaf.

Cemegolion

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.pic.int

www.iisd.ca/process/chemical_management.htm

Cytundeb Rotterdam ar Ganiatâd Gwybodus Blaenorol ar gyfer Cemegolion Peryglus

Mae Cytundeb Rotterdam ar Ganiatâd Gwybodus Blaenorol (CGB) yn ddull i gael a rhannu gwybodaeth yn ffurfiol fel y gall gwledydd sy'n mewnforio benderfynu derbyn llwythi o gemegolion neilltuol yn y dyfodol ai peidio; ac i sicrhau cydymffurfiad gyda'r penderfyniadau hyn gan y gwledydd sy'n allforio. Mae'r Cytundeb yn hyrwyddo cyfrifoldeb ar y cyd rhwng gwledydd sydd yn allforio ac yn mewnforio wrth ddiogelu iechyd dynol a'r amgylchedd rhag effeithiau niweidiol cemegolion o'r fath ac yn darparu ar gyfer cyfnewid gwybodaeth am gemegolion peryglus posibl allai gael eu hallforio a'u mewnforio. Nod allweddol Cytundeb CGB Rotterdam yw darparu cymorth technegol i wledydd datblygedig a gwledydd gydag economïau sy'n newid i ddatblygu rhwydwaith mewnol a'r gallu angenrheidiol i weithredu darpariaethau'r Cytundeb. Ar hyn o bryd mae Cytundeb CGB Rotterdam yn cynnwys pedwar deg un plaladdwr, yn cynnwys chwech fformwleiddiadau plaladdwyr hynod o beryglus ac 11 cemegolyn diwydiannol (yn cynnwys er enghraifft Aldrin, DDT, Dieldrin, heptachlor, cyfansoddion arian byw a phentachlorophenol), yn ogystal â phump cemegolyn diwydiannol (yn cynnwys biffenylau polymrominad, biffenylau polyclorin, terffenylau polyclorin). Disgwylir y caiff rhagor eu hychwanegu wrth i ddarpariaethau'r Cytundeb gael eu gweithredu. Cytunodd llywodraethau i barhau i weithredu'r weithdrefn CGB wirfoddol yn ystod y cyfnod interim gan ddefnyddio'r gweithdrefnau newydd yn y Cytundeb hyd nes y byddai'r Cytundeb yn dod i rym yn ffurfiol. Daeth y Cytundeb i rym ar 24 Chwefror 2004.

Cytundeb Stockholm ar Lygrwyr Organig Parhaol

Mabwysiadwyd Cytundeb Stockholm ar Lygrwyr Organig Parhaol (LlOP) a'i agor ar gyfer llofnod ar 22 Mai 2001. Mae Llygrwyr Organig Parhaol yn gemegolion synthetig sydd yn gwrthsefyll prosesau torri'i lawr naturiol, maent yn wenwynig iawn ac maent yn adeiladu (neu bio-gasglu) ym meinwe flonegog anifeiliaid a dynion. Mae'r cytundeb yn galw am weithredu rhyngwladol ar ddeuddeg LlOP wedi'u grwpio yn dri chategori: plaladdwyr, cemegolion diwydiannol a sgil-gynnyrch anfwriadol (diocsin a ffwran). Mae'r Cytundeb yn ceisio dileu neu gyfyngu ar gynhyrchu a defnyddio'r holl LlOP a gynhyrchir yn fwriadol, yn ogystal â lleihad parhaus a lle mae'n ymarferol, dileu yn y pen draw ryddhad LlOP a gynhyrchir yn anfwriadol. Rhaid rheoli a chael gwared ar stôr mewn dull diogel, effeithiol ac amgylcheddol ddiogel. Mae'r Cytundeb yn gosod rhai cyfyngiadau masnach. Y cemegolion a restrir ar gyfer eu dileu dan y cytundeb yw'r plaladdwyr aldrin, clordân, dieldrin, endrin, heptachlor, hexaclorobensin (HCB), miecs a tocsaffen, yn ogystal â biffenyl polyclorin (PCBS). Caniateir y defnydd o'r plaladdwr DDT ar gyfer rheolaeth cludo afiechyd hyd nes bod dewisiadau diogel, fforddiadwy ac effeithiol yn eu lle. Rhaid i wledydd ymdrechu'n galed i adnabod, labelu a chael gwared ar offer sy'n cynnwys PCB erbyn 2025. Mae'r Cytundeb hefyd yn ceisio gweld lleihad parhaus a lle mae'n ymarferol. Dileu rhyddhau CGB a gynhyrchir yn anfwriadol fel sgil-gynnyrch diwydiannol diocsinau a ffwranau. O fis Gorffennaf 2004, roedd gan y Cytundeb 151 o arwyddwyr a 70 Parti. Daeth y cytundeb i rym ar 17 Mai 2004.

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.pops.int

Gwastraff

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.basel.int

Cytundeb Basel ar Wastraff Peryglus Traws Ffiniau

Mabwysiadwyd Cytundeb Basel ar Reoli Symudiadau Gwastraff Peryglus Traws ffiniau a'u Gwaredu ym 1989 a daeth i rym ar 5 Mai 1992. Fe'i crëwyd i fynd i'r afael â'r pryderon cynyddol dros reolaeth, gwaredu a symudiadau traws ffiniau gwastraff peryglus. Prif egwyddorion y Cytundeb yw: dylid lleihau symudiadau traws ffiniau gwastraff peryglus i isafswm, yn gyson â'u rheolaeth gadarn amgylcheddol; dylid trin a gwaredu gwastraff peryglus mor agos â phosibl at ffynhonnell eu cynhyrchu; a dylid gostwng cynhyrchu gwastraff peryglus a'i leihau wrth y ffynhonnell. Mae Cytundeb Basel yn cynnwys gwastraff peryglus sydd yn ffrwydrol, llosgadwy, gwenwynig, heintus, cyrydol, gwenwynig neu eco-wenwynig. Nodir y categorïau o wastraff a'r nodweddion peryglus yn Atodiadau I i III o'r Cytundeb. Mae rhestrau o wastraff penodol a nodweddir fel peryglus neu heb fod yn beryglus yn Atodiadau VIII ac IX. O Ebrill 2005, roedd 165 gwladwriaeth yn Bartïon i'r Cytundeb.

Rheoliadau Cyfrifoldeb Cynhyrchydd (GOTE & CDB)

Gwastraff Offer Trydanol ac Electronig (GOTE)

Diben Cyfeireb GOTE 2002/96CE yw lleihau swm y gwastraff o offer trydanol ac electronig ac annog ei ailddefnyddio, adfer ac ailgylchu. Mae wedi ei gyfeirio at gynhyrchwyr, dosbarthwyr ac ailgylchwyr offer trydanol, yn cynnwys offer cartrefi, offer TG a thelegyfathrebiadau, offer clyweled, goleuadau, offer trydanol ac electronig, teganau ac offer chwaraeon a hamdden. Mae'r Gyfeireb yn nodi meini prawf ar gyfer casglu, trin, adfer ac ailgylchu GOTE ac yn gwneud cynhyrchwyr yn gyfrifol am gyllido'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau hyn. Mae dosbarthwyr GOTE hefyd yn destun rhai rhwymedigaethau, yn cynnwys cymryd GOTE yn ôl, sicrhau bod y GOTE y maent yn eu casglu yn cael ei anfon i gyfleuster casglu penodedig i ganiatáu iddo gael ei drin a'i adfer, hysbysu preswylwyr preifat o'r cyfleusterau anfon GOTE yn ôl sydd ar gael iddynt. Gall preswylwyr preifat ddychwelyd GOTE am ddim.

Ym mis Gorffennaf 2004, cyhoeddodd Llywodraeth y DU set o Reoliadau drafft, wedi'u dylunio i weithredu darpariaethau'r Gyfeireb GOTE. Mewn dogfen ymgynghori gofynnodd y llywodraeth i nifer o fuddiolwyr ymateb i'r mesurau drafft. Mae hwn i'w weld ar wefan DEFRA. Disgwylir i drawsosodiad llawn Cyfeireb GOTE trwy'r Rheoliadau (Cyfrifoldeb Cynhyrchydd) Offer Gwastraff Trydanol ac Electronig ddigwydd rhyw dro yn 2005.

Mae prif ddarpariaethau Cyfeireb GOTE yn ei gwneud yn ofynnol i aelod wladwriaethau:

- Sefydlu systemau i annog casglu GOTE ar wahân a dychwelyd GOTE am ddim i'r deiliad terfynol;
- Cyflawni cyfradd casglu o 4 kilogram y flwyddyn o leiaf ar gyfartaledd fesul preswylydd o gartrefi preifat erbyn 31 Rhagfyr 2006;
- Sicrhau fod yr holl GOTE a gesglir o gartrefi preifat yn cael eu cludo i gyfleusterau triniaeth a awdurdodir gan y Gyfeireb; a
- Sicrhau bod cynhyrchwyr yn gwneud darpariaeth i gyllido gwastraff yn y dyfodol.

Ar y cyd gyda Chyfeireb GOTE, mae'r Gyfeireb Cyfyngiad ar y Defnydd o Rai Sylweddau Peryglus mewn offer trydanol ac electronig 2002/95 CE yn anelu at gyfyngu ar effaith amgylcheddol offer trydanol ac electronig pan fydd wedi darfod. Mae ei brif amcanion yn cynnwys lleihau'r defnydd o sylweddau peryglus a sicrhau cysoni deddfwriaeth sydd yn rheoli sylweddau peryglus mewn offer trydanol ac electronig ar draws y CE. Mae'n ofynnol yn ôl y Gyfeireb i offer trydanol ac electronig newydd a roddir ar y farchnad o 1 Gorffennaf 2006 ddefnyddio rhywbeth yn lle nifer o fetelau trwm (fel plwm, arian byw, cadmiwm a hecsafalent cromiwm) ac arafwyr fflam brominad (yn cynnwys biffenylau polybromiad (PBB) neu ether diffenyl polybromiad (PBDE). Ond mae nifer o ddeunyddiau o'r sylweddau hyn wedi'u heithrio. Bydd angen i gynhyrchwyr sicrhau bod eu cynnyrch yn cydymffurfio gyda lefelau cytun o sylweddau peryglus. Ym mis Awst 2005 cyhoeddodd y Comisiwn Benderfyniad yn newid y Gyfeireb RoHS a sefydlu mwyafswm gwerthoedd crynodiad ar gyfer sylweddau peryglus penodol mewn offer trydanol ac electronig.

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.defra.gov.uk/environment/waste/topics/electrical/
www.dti.gov.uk/sustainability/weee/

Gwastraff

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.sepa.org.uk/producer/elvs.htm
www.defra.gov.uk/environment/waste/topics/elvehicledir.htm

Cerbydau Diwedd Bywyd (CDB)

Mae darpariaethau yn y Gyfeireb Cerbydau Diwedd Bywyd 2000/53 CE, a ddaeth i rym ar 21 Hydref 2000 sydd yn anelu at atal cynhyrchu gwastraff o gerbydau ac annog adfer, ailddefnyddio ac ailgylchu cerbydau diwedd bywyd a'u cydrannau mewn ymdrech i wella perfformiad amgylcheddol gweithredwyr economaidd sydd yn ymwneud â cherbydau diwedd bywyd. Mae'r Gyfeireb yn arbennig yn:

- cyfyngu ar y defnydd o rai metelau trwm wrth gynhyrchu cerbydau newydd;
- cyflwyno Tystysgrif Dinistrio sydd yn cael gwared ar gerbyd o'r gofrestr cerbydau cenedlaethol;
- ei gwneud yn ofynnol fod rhai cydrannau wedi eu marcio i gynorthwyo gydag adfer ac ailgylchu, a bod gwybodaeth yn cael ei darparu i hwyluso datgymalu;
- ei gwneud yn ofynnol i sefydlu systemau digonol ar gyfer casglu CDB ac yn pennu safonau safle, storio a gweithredu sy'n rhaid i fusnesau a ganiateir i drin CDB eu diwallu; a
- ei gwneud yn ofynnol na ellir trin CDB ond gan gyfleusterau awdurdodedig sy'n gorfod diwallu safonau amgylcheddol penodol.

Traws osodwyd y gofynion hyn yn gyfraith DU gan Reoliadau Cerbydau Diwedd Bywyd 2003 (SI 2003/2635) a ddaeth i rym ar 3 Tachwedd 2003. Mae'r darpariaethau eraill yn y Gyfeireb, sydd yn ymwneud â chyfrifoldeb cynhyrchwyr, wedi eu trawsosod trwy Reoliadau (cyfrifoldeb Cynhyrchwyr) CDB 2005 (SI 2005/263) a ddaeth i rym ar 3 Mawrth 2005. Mae'n cynnwys:

- derbyn CDB 'yn ôl am ddim' o 1 Ionawr 2007;
- rhwymedigaeth y cynhyrchydd i ddarparu ar gyfer CDB yn ôl trwy rwydweithiau hygyrch o gyfleusterau triniaeth awdurdodedig a phwyntiau casglu; a
- rhwymedigaethau cynhyrchwyr a chyfleusterau triniaeth awdurdodedig mewn perthynas â diwallu targedau adfer ac ailgylchu o 2006 ymlaen.

Bioamrywiaeth

Cytundeb Ramsar ar Diroedd Gwlybion o Bwysigrwydd Rhyngwladol

Mae'r Cytundeb ar Diroedd Gwlybion, a lofnodwyd yn Ramsar, Iran ym 1971, yn darparu'r fframwaith ar gyfer gweithredu cenedlaethol a chydweithio rhyngwladol ar gyfer cadwraeth a defnydd doeth tiroedd gwlybion a'u hadnoddau. Daeth y Cytundeb i rym ym 1975 ac ar hyn o bryd mae 146 o Bartïon wedi contractio i'r Cytundeb, gyda 1458 o safleoedd diroedd gwlybion, sef 125.4 miliwn hectar o fis Medi 2003, wedi'u penodi ar gyfer eu cynnwys yn Rhestr Ramsar o Diroedd Gwlybion o Bwysigrwydd Rhyngwladol. Mae'r ysgrifenyddiaeth a enwir yn 'Biwro Ramsar' wedi'i leoli ym mhencadlys Undeb Cadwraeth y Byd (IUCN) yn Gland, y Swistir. Mae pedwar prif ymrwymiad ar gyfer y partïon sydd wedi contractio yn y Cytundeb:

- Pennu un tir gwlyb o leiaf ar gyfer ei gynnwys ar 'Restr Ramsar' a hyrwyddo ei gadwraeth, yn cynnwys lle mae'n briodol, defnydd doeth ohono.
- Cynnwys ystyriaethau cadwraeth tir gwlyb mewn cynllunio defnydd tir cenedlaethol.
- Sefydlu gwarchodfeydd natur mewn tiroedd gwlybion, os ydynt wedi'u cynnwys ar Restr Ramsar ai peidio, a hyrwyddo hyfforddiant ym maes ymchwil a rheolaeth tiroedd gwlybion.
- Ymgynghori gyda Phartïon eraill sydd wedi contractio am weithrediad y Cytundeb.

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.ramsar.org

Cytundeb mewn Masnach Rhyngwladol mewn Rhywogaethau Planhigion ac Anifeiliaid dan Fygythiad

Mabwysiadwyd Cytundeb CITES ar 2 Mawrth 1973, a daeth i rym ar 1 Gorffennaf 1975. Ar hyn o bryd mae 169 Parti i'r Cytundeb. Nodau cadwraeth y cytundeb yw: monitro ac atal masnach ryngwladol fasnachol mewn rhywogaethau dan fygythiad; cynnal rhywogaethau dan ddefnydd masnachol rhyngwladol; a chynorthwyo gwledydd tuag at ddefnydd cynaliadwy o rywogaethau trwy fasnach ryngwladol. Mae partïon CITES yn rheoleiddio masnach bywyd gwyllt trwy reoli a rheoliadau ar rywogaethau a restrir yn y tri Atodiad.

Bioamrywiaeth

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.cites.org

www.iisd.ca/process/biodiv_wildlife.htm

- Rhywogaethau **Atodiad I** yw'r rhai dan fygythiad oherwydd masnach ryngwladol; caniateir eu cyfnewid dim ond mewn amgylchiadau eithriadol.
- Mae rhywogaethau **Atodiad II** yn destun masnach wedi'i reoli'n llym yn seiliedig ar gwotâu ac/neu drwyddedau i atal eu defnydd anghynaladwy, a rheoliadau i gynnal ecosystemau ac atal rhywogaethau rhag dod yn gymwys ar gyfer Atodiad I.
- Mae rhywogaethau **Atodiad III** yn destun rheoliad gan Barti sydd angen cydweithrediad Partïon eraill i reoli masnach ryngwladol.

Mae cyrff gweithrediadol CITES yn cynnwys ei Bwyllgor Sefydlog, yn ogystal â sawl pwyllgor ymgynghorol gwyddonol: y Pwyllgor Anifeiliaid; y Pwyllgor Planhigion; a'u his-bwyllgorau, y Pwyllgor Galwedyddion a'r Pwyllgor Llawlyfr Adnabod. Mae ysgrifenyddiaeth CITES wedi'i leoli yn Genefa ac mae'n cynorthwyo Partïon a Phwyllgorau CITES.

Cytundeb y CU ar Amrywiaeth Biolegol

Agorwyd Cytundeb y CU ar Amrywiaeth Biolegol, a drafodwyd dan nawdd Rhaglen Amgylchedd y cenhedloedd Unedig (UNEP) ar gyfer llofnod yn Uwchgynhadledd y Byd Rio 1992 a daeth i rym ym mis Rhagfyr 1993. Hyd yn hyn, mae dros 180 o wledydd wedi cadarnhau'r Cytundeb. Tri amcan y CAB yw hyrwyddo 'cadwraeth amrywiaeth biolegol, y defnydd cynaliadwy o'i gydrannau a rhannu teg a chyfiawn y manteision yn deillio o ddefnyddio adnoddau genetig'. Mae'r Cytundeb yn cydnabod bod cadwraeth amrywiaeth biolegol yn 'bwnc cyffredin i ddynolryw' ac yn rhan annatod o'r broses ddatblygu. Mae'r cytundeb yn cynnwys yr holl ecosystemau, rhywogaethau ac adnoddau genetig. Mae'n cysylltu ymdrechion cadwraeth draddodiadol gyda'r nod economaidd o ddefnyddio adnoddau biolegol yn gynaliadwy ac mae'n gosod egwyddorion ar gyfer rhannu'r manteision sydd yn deillio o'r defnydd o adnoddau genetig yn deg ac yn gyfiawn, yn bennaf y rhai ar gyfer defnydd masnachol. Mae hefyd yn cynnwys maes biotechnoleg sydd yn ehangu'n gyflym, gan ddelio â datblygiad technoleg a throsglwyddo. Rhannu manteision a bioddiogelwch.

Protocol Cartegena ar Fioddiogelwch

Yn dilyn pum mlynedd o drafod cytunwyd ar Brotocol Cartagena ar Fioddiogelwch ym mis Ionawr 2000. Mae'r Protocol hwn yn ceisio sicrhau trosglwyddiad, trafod a defnydd diogel o organebau byw wedi'u haddasu a allai gael effeithiau niweidiol ar gadwraeth a defnydd cynaliadwy amrywiaeth biolegol, gan gymryd i ystyriaeth hefyd y peryglon i iechyd dynol, ac yn benodol yn canolbwyntio ar y mudiadau traws ffiniau. Mae'r Protocol yn sefydlu gweithdrefn cytundeb uwch ar gyfer mewnforio organebau byw wedi'u haddasu ar gyfer eu cyflwyno'n fwriadol i'r amgylchedd ac mae hefyd yn ymgorffori'r egwyddor ragofalus a mecanweithiau ar gyfer asesu risg a rheolaeth risg. Daeth y Protocol i rym ar 11 Medi 2003, 90 diwrnod o gyflwyniad yr 50fed offeryn cadarnhau.

Cytundeb y CU i Ymladd yn erbyn Anghyfanedd-dra

Nod Cytundeb y CU i Ymladd yn erbyn Anghyfanedd-dra yw ymladd yn erbyn anghyfanedd-dra a lleihau effeithiau sychder mewn gwledydd sydd yn dioddef sychder difrifol ac/neu anghyfanedd-dra, yn enwedig yn Affrica, trwy weithredu effeithiol ar bob lefel, gyda chefnogaeth cydweithio ryngwladol a chytundebau partneriaeth. Mabwysiadwyd y Cytundeb ym Mharis ar 17 Mehefin 1994 a daeth i rym ym mis Rhagfyr 1996. Mae wedi ei gadarnhau gan dros 190 gwlad gan ei wneud yn wirioneddol fyd-eang ei gyrhaeddiad. Mae'r Cytundeb yn cydnabod agweddau ffisegol, biolegol a chymdeithasol economaidd anghyfanedd-dra, pwysigrwydd ailgyfeirio trosglwyddiad technoleg fel ei bod yn cael ei yrru gan alw a chyfranogiad poblogaethau lleol. Craidd y CYA yw datblygiad rhaglenni gweithredu cenedlaethol ac isranbarthol a rhanbarthol gan lywodraethau cenedlaethol mewn cydweithrediad gyda noddwyr, poblogaethau lleol a chyrff anllywodraethol.

CYFEIRIAD GWEFAN DEFNYDDIOL

www.unccd.int

Cymru a'r Byd: Swyddogaeth Cymru yn Rhwydweithiau Rhanbarthau Ewropeaidd Cynaliadwy a Rhwydwaith Llywodraethau Rhanbarthol ar gyfer Datblygu Cynaliadwy (NRG4SD)

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.sustainable-euregions.net
www.nrg4sd.net

Mae'n ddyletswydd gyfreithiol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ddilyn datblygu cynaliadwy wrth ymarfer ei swyddogaethau sydd wedi eu hadeiladu i'w gyfansoddiad gan adran 121 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae'r NRG4SD wedi ei sefydlu i annog deialog ar lefel llywodraeth ranbarthol er mwyn hyrwyddo datblygu cynaliadwy mewn polisi rhyngwladol. Caiff y Rhwydwaith Rhanbarthau Ewropeaidd Cynaliadwy ei gyllido gan y Comisiwn CE a'i nod yw cynhyrchu argymhellion polisi blaengar ar gyfer datblygu rhanbarthol cynaliadwy yn yr Aelod Wladwriaethau. Mae Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth y Cynulliad yn cadw at ei ymrwymiad o hyrwyddo ymarfer gorau trwy ganlyniadau Rhwydwaith Rhanbarthau Ewropeaidd Cynaliadwy ac NRG4SD. Yn ychwanegol at hyn, mewn cyhoeddiad 2004 o'r enw *Dechrau Byw yn Wahanol – Cynllun Datblygu Cynaliadwy* mae'r Cynulliad yn cydnabod ei rôl fel un o fwydo i mewn i Gomisiwn ar gyfer Datblygu Cynaliadwy'r CU trwy NRG4SD.

Ym mis Mawrth 2004 cynhaliwyd y bedwaredd gynhadledd NRG4DS ryngwladol yng Nghaerdydd. Daeth dros 300 o bobl yno, yn cynnwys cynrychiolwyr swyddogol o 32 o lywodraethau rhanbarthol neu gymdeithasau llywodraethau rhanbarthol. Mae'r lefel hon o ymrwymiad gan Lywodraeth y Cynulliad yn adlewyrchu ei safle fel chwaraewr byd-eang ar yr agenda datblygu cynaliadwy.

Mae Jonathan Porritt CBE, Cadeirydd Comisiwn Datblygu Cynaliadwy DU wedi dweud:

"Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn unigryw yn ei eglurder gweledigaeth ac ymrwymiad i blannu DC wrth galon popeth a wna. Mae amrediad ymrwymiadau'r Cynllun Gweithredu yn adlewyrchu'r angen i Gymru weithredu yn fewnol ac i chwarae ei rhan mewn dylanwadu ar bynciau yn y DU ac yn y Byd. Mae'n cynrychioli cyfle cynhyrfus i adeiladu ar y cynnydd a wnaethpwyd eisoes yng Nghymru ac i ganolbwyntio ar wneud newidiadau real a pharhaol."

Tirwedd Gwleidyddol: Cymru

Y Cyfansoddiad

Cymru: Gwell Gwlad

Wrth nodi agenda strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae 'Cymru: Gwell Gwlad' yn darparu gweledigaeth ar gyfer polisïau a gweithdrefnau unigol y Cynulliad, yn ogystal â rhai yr holl bartneriaid ac asiantaethau eraill. Adlewyrchir natur strategol y ddogfen yn ei integreiddiad amlwg o holl sectorau llywodraeth a chymdeithas tuag at y nod torfol o 'wlad decach, fwy ffyniannus, iachach ac addysg well.' Wrth osod y fath bwyslais ar bwysigrwydd cyfalaf cymdeithasol a dynol, mae'r Cynulliad yn cydnabod y gwerth a ellir ei ychwanegu trwy fuddsoddi mewn pobl. Tra bod nodau'r polisi yn ymddangos yn heriol, maent yn sialensiau lle mae Cymru yn cael ei hystyried yn fwy na galluog i'w cyflawni, os caiff ymagwedd integredig ei mabwysiadu.

Wrth nodi'r weledigaeth y dylai Cymru fod yn gweithio tuag ati, cyfeirir at rolau'r economi Gymreig; iechyd ac addysg; atebolrwydd gwleidyddol; cymuned a hunaniaeth; dwyieithrwydd a synnwyr o le; cynaladwyedd amgylcheddol; a chydweithio rhyngwladol. Bydd adeiladu ar gryfderau'r cydrannau unigol hyn yn darparu'r cynhwysion ar gyfer dyfodol cynaliadwy yng Nghymru. Wrth wneud hynny. Rhoddir blaenoriaeth nid yn unig i atgyfnerthu cryfder cymunedau iach, ond hefyd annog a hwyluso cyfranogiad yr unigolion a'r mannau hynny sydd fwyaf angen cefnogaeth. Cyflawnir hyn trwy ddefnyddio graddfa ofodol fireiniach ym mholisi'r Cynulliad, ac felly ei alluogi i fyfyrio ar ffurf amrywiol cymunedau a thirwedd yng Nghymru.

Wrth ddwyn ynghyd holl wahanol rannau o bolisi'r Cynulliad, mae'r ddogfen yn amlinellu cyfres o 'ymrwymiadau, nodau a chynlluniau gweithredu' a fydd yn caniatáu'r Cynulliad i gyflwyno ar ei amcanion archfwaol gwirioneddol o: helpu rhagor o bobl i swyddi; gwella iechyd; cyflwyno cymunedau cryf a diogel; a chreu gwell swyddi a sgiliau. Yn ganolog i agenda'r Cynulliad strategol felly mae sicrhau fod 'gwelliant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn cydweithio i greu newid cadarnhaol'. Mae cyflawni'r weledigaeth yn dibynnu nid yn unig ar arweinyddiaeth effeithiol ond hefyd ar wella diwylliant o hunan gymorth a chyfranogiad ymysg pobl a sefydliadau Cymru mewn dull, yn unol ag egwyddor glasurol cynaladwyedd, 'sydd yn sicrhau fod cenedlaethau'r dyfodol yn mwynhau gwell rhagolygon mewn bywyd, ac nad ydynt yn cael eu beichio ag etifeddiaeth o broblemau gennym ni'.

Y Cyfansoddiad

Dysgu Byw'n Wahanol

Wrth ddiwallu eu dyletswydd statudol (o dan adran 121 o ddeddf Llywodraeth Cymru) i hyrwyddo datblygu cynaliadwy, mae 'Cymru Gynaliadwy – Dysgu Byw'n Wahanol' (2000) yn cynrychioli cam cyntaf ymdrech strategol y Cynulliad i weithredu ymagwedd newydd tuag at bolisi a gwneud penderfyniadau. Fel y cydnabyddir yn y ddogfen, nid yw diwallu gofynion datblygu cynaliadwy yn rhywbeth y gellir ei gyflawni dros nos, ond yn hytrach mae 'Dysgu Byw'n Wahanol' yn gychwyn ar broses faith a fydd yn esblygu. Mewn gwirionedd, mae'r ddogfen yn gogwyddo tuag at annog a hwyluso ymagwedd wahanol tuag at ddatblygiad cymdeithasol economaidd ac amgylcheddol yng Nghymru, na thuag at osod targedau caled. Ar hyn o bryd, ystyriwyd mai'r flaenoriaeth fyddai sefydlu gweledigaeth gliriach o'r 'hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni yn y tymor hir'. Wrth wneud hynny, rhoddwyd pwyslais ar godi ymwybyddiaeth o'r angen am egwyddorion datblygu cynaliadwy i dorri ar draws pob maes o waith y Cynulliad, yn ogystal â phartneriaid ac actorion eraill yng Nghymru.

Dechrau Byw'n Wahanol

Diben y ddogfen 'Dysgu Byw'n Wahanol' (2004) yw cadarnhau'r cynnydd a wnaethpwyd ers lansio 'Dysgu Byw'n Wahanol' (2000) a gweithio tuag at ddatblygu 'cynllun gweithredu' penodol ar gyfer cyflwyno ymarfer datblygu cynaliadwy yn y dyfodol yng Nghymru. Nid yw'r ddogfen yn newid unrhyw un o'r egwyddorion gwaelodol yn y strategaeth wreiddiol. Yn hytrach, mae'n eu diweddaru fel bo'n briodol ac wrth wneud hynny, yn sefydlu fframwaith ar gyfer cynllun gweithredu i'w gweithredu mewn dull sydd yn gallu cyflwyno nodau gwirioneddol, yn ogystal â hwyluso monitro a gwerthuso clir. Mae 'Dechrau Byw'n Wahanol' yn ail gadarnhau sefyllfa'r cynllun datblygu cynaliadwy fel 'y fframwaith archfwaol ar gyfer holl waith y Cynulliad'. Mae hefyd yn ail gadarnhau pwysigrwydd datblygu cynaliadwy fel cysyniad y mae'n rhaid i'r holl actorion yng Nghymru ymrwymo iddo. Mae'n nod y mae gan y Cynulliad rôl arweiniol yn ei gyflwyno, ond nid yw'n rhywbeth y gall ei gyflawni ar ei ben ei hun.

Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy 2004-2007

Mae'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy yn nodi'r meysydd blaenoriaeth a nodwyd, trwy broses o ymgynghori, fel rhywbeth sydd angen 'gweithredu ffres. Mae'n amlygu'r meysydd hynny lle y bydd yn rhaid

i'r Cynulliad weithredu i gyflwyno newid, yn ogystal â'r gweithredu y bydd yn gofyn i eraill ei gyflawni. Caiff y ddogfen ei hadolygu'n rheolaidd gan mai cynllun yn esblygu yw ei ddiben fel ei bod yn parhau'n effeithiol yn ei ddewis o flaenoriaethau a dulliau o gyflwyno newid. Mae'r Cynllun Gweithredu yn ateb galwadau diweddar i'r Cynulliad gyhoeddi amserlenni a thargedau penodol wrth ddilyn datblygu cynaliadwy. Mae'r targedau wedi eu rhannu rhwng pedwar prif gategori gwaith: 'Byw'n Wahanol'; 'Arweinyddiaeth a Chyflwyniad'; 'Gwneud i'n Harian Siarad'; a 'Mesur ein Cynnydd'.

Cynorthwyir mesur cyflawniad targedau trwy'r defnydd o set o ddangosyddion cynaladwyedd wedi'u diffinio o flaen llaw (e.e. yr ôl troed ecolegol). Ond, mae'r Cynllun Gweithredu hefyd yn cydnabod yr angen brys i gynhyrchu set ehangach o ddangosyddion sydd yn gallu adlewyrchu'n llawnach y pwysau cynaladwyedd allweddol sy'n wynebu Cymru. Mae'r Cynllun Gweithredu ei hun yn dystiolaeth o'r cynnydd da a wnaethpwyd ers cyhoeddi'r cynllun datblygu cynaliadwy cyntaf 'Dysgu Byw'n Wahanol' yn 2000; ond mae hefyd yn amlygu graddau llawn yr hyn sy'n rhaid ei gyflawni wrth wynebu'r 'sialens o integreiddio datblygu cynaliadwy go iawn i mewn i bopeth a wneir ar bob lefel o lywodraeth a chymdeithas ddinesig'.

Gwneud y Cysylltiadau

Y flaenoriaeth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i gosod i'w hun ar gyfer ei ail dymor yw gwella cyflwyniad a chynaladwyedd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Nodir y nod hwn, a'r amcanion ar gyfer ei gyflawni yn y ddogfen ymgynghori 2004, 'Gwneud y Cysylltiadau': Cyflwyno Gwell Gwasanaethau i Gymru'. Nod archfwaol y Cynulliad yw cyflawni lefel llawer mwy o integreiddio a meddwl unedig mewn darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus. Gwelir fframwaith o'r fath ar gyfer cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus ardderchog fel cydran hanfodol o 'Gymru ffyniannus, gynaliadwy, ddwyieithog, iachach wedi'i haddysgu'n well'.

Gwelir cyfuno nifer o Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yn gam sylweddol tuag at gyflawni cyflwyniad gwasanaeth mwy cynaliadwy. Yn gyfochrog â hyn, trwy ymgynghori ar ddulliau i leihau biwrocratiaeth, cynyddu ymatebolrwydd ac atebolrwydd a gwella gwasanaethau llinell flaen, mae'r Cynulliad, mewn cydweithrediad â'i bartneriaid cyflwyno gwasanaeth cyhoeddus yn ceisio rhoi'r dinesydd ar ganol y llwyfan.

Amgylchedd

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn Gorff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad a hefyd yn rhan o Asiantaeth yr Amgylchedd corfforaethol ar gyfer Cymru a Lloegr. Yn ymarferol golyga hyn, tra'i fod yn cael cyfarwyddyd gan, ac yn adrodd yn ôl i'r Cynulliad, mae hefyd yn tynnu oddi ar arbenigedd corff mwy ac felly'n mynd i'r afael â materion amgylcheddol Cymru o fewn cyd-destun amgylchedd ehangach Lloegr a thu hwnt.

Trwy ei gylch gorchwyl mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn gweithio tuag at gyflawni datblygu cynaliadwy trwy fonitro a rheoli amrediad amrywiol o weithgarwch amgylcheddol ar draws tir, môr ac awyr. Wrth wneud hynny mae'n ceisio diogelu a gwella'r amgylchedd mewn modd sydd ar yr un pryd yn 'cymryd i ystyriaeth ystyriaethau economaidd a chymdeithasol'. Gan gofleidio'r strategaeth o arwain trwy esiampl mae'n ceisio 'dylanwadu ar eraill i gyflawni canlyniadau cadarnhaol trwy newid agwedd ac ymddygiad'. Ffactor bwysig yn ei allu i wneud hynny yw ei rôl fel 'ymgynghorydd annibynnol ar faterion amgylcheddol sydd yn effeithio ar lunio polisi o fewn y Cynulliad ac yn fwy eang'.

Agenda 21

Lansiwyd y fenter Agenda 21 trwy Uwchgynhadledd y Byd Rio 1992. Wrth edrych nid yn unig ar ddelio â phroblemau heddiw, ond wrth wneud hynny, creu dyfodol gwell a mwy cynaliadwy, mae'n gosod pwyslais sylweddol ar swyddogaeth llywodraeth fel actor a hwylusydd yn y broses o newid. Ar lefel leol gwireddir y swyddogaeth hon trwy ddatblygiad a gweithrediad cynlluniau Agenda 21 Lleol.

Mae ymgorfforiad y pum adnawdd cyfalaf trwy gynlluniau Agenda 21 Lleol yn cael ei adlewyrchu yn y ffaith fod y nod o ddatblygu cynaliadwy yn cael ei ystyried yn bwnc cymunedol, er ei fod yn cael ei hwyluso gan lywodraeth, yn cynnwys pob adran o gymdeithas, yn cynnwys grwpiau cymunedol, busnesau ac unigolion.

Trwy ymwneud ag actorion cymunedol mae cynlluniau Agenda 21 Lleol yn ceisio addysgu cymdeithas am y cyfleoedd di-rif ar gyfer gweithredu ymarferion datblygu cynaliadwy yn eu gweithgareddau beunyddiol. Er enghraifft, fel y mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ei hun yn cydnabod: 'Mae gan awdurdodau lleol rôl allweddol i'w chwarae mewn cyflwyno datblygu cynaliadwy trwy amrediad eang o wasanaethau lleol hanfodol fel addysg, trafnidiaeth leol, gwasanaethau cymdeithaso, cynllunio defnydd tir, amddiffyn yr amgylchedd a rheolaeth cefn gwlad, datblygu economaidd a rheolaeth gwastraff.'

Cynllun Gofodol

Mae Cynllun Gofodol Cymru yn gweithredu fel atodiad uniongyrchol i ddogfen gweledigaeth strategol y Cynulliad, 'Cymru: Gwell Gwlad'. Mae'n nodi'r fframwaith gofodol ar gyfer rheoli adnoddau a thiriogaeth Cymru ac wrth wneud hynny mae'n darparu'r mecanwaith ar gyfer dathlu a gwneud lwfans am yr amrywiaeth cyfoethog o amodau sydd yn bodoli ledled Cymru. Mae pum thema arweiniol yn gyrru'r cynllun gofodol sef adeiladu cymunedau cynaliadwy; hyrwyddo economi gynaliadwy; gwerthfawrogi ein hamgylchedd; cyflawni hygyrchedd cynaliadwy; a pharchu arbenigrwydd a thrwy hynny mae'n ceisio gwneud y gorau o reolaeth y cyfalaf naturiol, dynol a gwneuthuredig mewn modd a fydd yn ei dro yn hyrwyddo twf cyfalaf cymdeithasol ac ariannol.

Gan osod agenda integredig strategol am yr ugain mlynedd nesaf, nod y cynllun gofodol yw sicrhau fod polisïau a rhaglenni'r Cynulliad yn dod ynghyd yn effeithiol gyda gwaith llywodraeth leol, busnesau a phartneriaid eraill ar draws Cymru i alluogi dyfodol cynaliadwy i bawb. Yn ôl diffiniad mae cyflwyniad y cynllun gofodol yn galw am feddwl ar y cyd, nid yn unig o fewn cyrff a sefydliadau, ond hefyd rhyngddynt. Yn yr un modd mae llwyddiant yn dibynnu cymaint ar gydweithredu a chydlynu o fewn ardaloedd daearyddol penodedig ag a wna ar draws ffiniau gofodol o'r fath. Felly wrth gydnabod y ffaith y bydd 'gwahanol atebion eu hangen yn ôl gwahanol amgylchiadau lleol' gwir werth y cynllun gofodol yw'r modd y mae'n adeiladu hyblygrwydd gofodol i weithrediad gweledigaeth genedlaethol archfwaol: mae'n darparu 'pont rhwng dyheadau lleol a gweledigaethau strategol'. Gan adlewyrchu hyn, mae'r ffaith fod gweithrediad y cynllun yn digwydd ar y cyd ar lefelau cenedlaethol ac ardal, gyda monitro parhaus, gwerthuso a dysgu o'r broses, yn brofiad ar y cyd tebyg.

Amgylchedd

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.walesfootprint.org

Ôl Troed

Mae ôl troed ecolegol yn ddangosydd o faint y mae adnoddau'r byd yn cael eu defnyddio. Mae'n mesur faint o ardal o dir a'r môr cynhyrchiol sydd ei angen i gynnal y modd y mae pobl yn byw. Caiff yr ôl troed ei gyfrifo mewn hectarau byd-eang o 'ddarnau o'r ddaear'. Mae mesuriadau ôl troed diweddar ar gyfer pobl Cymru wedi dangos eu bod, ar gyfartaledd, yn defnyddio 5.25 hectar y person. Er bod hyn yn is na'r cyfartaledd ar gyfer DU ac Ewrop ac yn sylweddol is na'r ôl troed ar gyfer Gogledd America, mae'n sylweddol uwch na'r 'cyfran daear teg' cynaliadwy o tua 1.92 hectar y person. Beth mae hyn yn ei olygu felly yw 'pe bai pawb yn y byd yn byw fel y person cyffredin Cymreig, byddem angen bron i dair planed i gynnal ein ffordd o fyw'.

Mewn ymdrech i leihau ôl troed Cymru mae argymhellion polisi wedi eu nodi'n ddiweddar ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru trwy adroddiad 'Lleihau ôl troed ecolegol Cymru' (a baratowyd gan Sefydliad Amgylchedd Stockholm (SEI)). Casgliad yr adroddiad hwn yw 'tra bod rhywfaint o waith da eisoes wedi'i wneud yng Nghymru', 'mae angen agenda mwy radical i helpu Cymru baratoi ar gyfer dyfodol cynaliadwy newydd'. Ond, tra bod yr adroddiad yn gosod pwyslais ar bwysigrwydd polisi llywodraeth lem i ddwyn ynghyd newid, mae hefyd yn cydnabod y ffaith 'bod rhaid i bawb gyfrannu': 'mae angen i'r llywodraeth osod y fframwaith cyfreithiol, cyflwyno newidiadau ariannol a chefnogi atebion sydd yn amgylcheddol gadarn; mae angen i fusnesau gymryd cyfrifoldeb nid yn unig am brosesau cynhyrchu cynaliadwy ond hefyd am eu cynnyrch wedi iddynt gael eu gwerthu; ac mae rhaid i bob un ohonom geisio mabwysiadu ffordd o fyw cynaliadwy' (SEI 2005). Felly, er bod y Cynulliad Cenedlaethol yn amlwg yn symud i'r cyfeiriad cywir gyda'i ymrwymiad cyfreithiol i adeiladu datblygu cynaliadwy i mewn i bopeth a wna, er mwyn ychwanegu gwerth gwirioneddol i'r nod hon, mae'n weledigaeth sydd yn rhaid ei derbyn cymaint gan bobl Cymru a chan y gwleidyddion.

Strategaeth Amgylcheddol sy'n Datblygu

Er ei bod yn canolbwyntio ar ddatblygu strategaeth amgylcheddol i Gymru, mae dogfen ymgynghori ddiweddar y Cynulliad 'Ein Hamgylchedd, Ein Dyfodol' yn amlwg yn gwneud cysylltiadau rhwng tair elfen datblygu cynaliadwy – y cymdeithasol, yr economaidd ac wrth gwrs yr amgylchedd. Fel y mae'n cydnabod o'r cychwyn cyntaf: 'trwy wneud y dewisiadau anghywir a difrodi ein hamgylchedd gallwn niweidio ein hiechyd a'n lles, difetha ein gofod byw ac amharu ar ein perfformiad economaidd'. Bydd y strategaeth amgylcheddol a ddyluniwyd i weithredu fel fframwaith strategol yn sefydlu gweledigaeth ar gyfer amgylchedd Cymru yn 2025, y gall pawb ymrwymo iddo.

Mae'r materion amgylcheddol allweddol sy'n wynebu Cymru a'r hyn sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd i fynd i'r afael â hwy yn cael eu nodi yn y ddogfen ymgynghori dan chwe phrif bennawd: newid hinsawdd; rheoli'r tir a'r môr; defnydd cynaliadwy o adnoddau a gwasanaethau ecosystem; bioamrywiaeth; ansawdd bywyd; gwneud y cysylltiadau. Gan dynnu oddi ar ddogfennau fframwaith eraill fel 'Cymru: Gwell Gwlad' a 'Cymry'n Ennill: Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol'; defnyddio technegau monitro fel yr ôl troed ecolegol; a (trwy gyfeiriad at y 'Cynllun Gofodol') cymryd i ystyriaeth natur amrywiol yr amgylchedd Cymreig a'r pwysau arni; mae'r strategaeth amgylcheddol yn anelu a helpu i hwyluso prif ffrydio datblygu cynaliadwy mewn polisi ac ymarfer. Wrth wneud hynny bydd yn darparu esboniad ar sut y mae gwahanol asiantaethau a gweithrediadau gwahanol yn cyfrannu tuag at ganlyniadau amgylcheddol ac felly sut y gall pawb chwarae rhan mewn gwella eu hamgylchedd.

Cymuned a Chymdeithas

Cymunedau'n Gyntaf

Mae'r rhaglen Cymunedau'n Gyntaf yn ceisio mynd i'r afael ag amddifadedd trwy dargedu adnoddau yn ofodol i'r cymunedau hynny sydd fwyaf o angen cefnogaeth ychwanegol. Er yn seiliedig ar ddethol ardaloedd o'r gwaelod i lawr (gan y Cynulliad yn unol â thystiolaeth o amddifadedd), rheolir y rhaglen mewn dull sydd yn annog hunan gymorth a chyfranogiad aelodau'r gymuned a thrwy hynny, 'creu hyder' a datblygu diwylliant 'medraf'. Yn ôl ei ddyluniad, ei rôl yw hwyluso cymunedau i gyflawni eu hanghenion cydnabyddedig eu hunain, yn hytrach na gorfodi atebion arnynt yn unig. Yn allweddol i'r ymagwedd hon yw'r ffaith bod adnoddau wedi eu hymrwymo i'r rhaglen Cymunedau'n Gyntaf am 10 mlynedd o leiaf – yn adlewyrchu'r ffaith bod angen mwy nag ateb tymor byr i ddatblygiad 'cyfalaf' (boed yn gymdeithasol-economaidd neu yn amgylcheddol).

Er ei fod yn gogwyddo'n gryf tuag at adeiladu cyfalaf dynol a chym deithasol. Mae Cymunedau'n Gyntaf, yn ôl ei ddyluniad, yn cydnabod y berthynas rhwng y nodau hyn a phwysigrwydd gwella cyfalaf naturiol a gwneuthuredig ar yr un pryd o fewn ardaloedd difreintiedig. Felly, wrth ddiwallu prif egwyddorion cynhwysiad cymdeithasol, datblygu cynaliadwy a chyfle cyfartal, ei nod yw gwella'r amgylchedd naturiol a ffisegol yn ogystal â gostwng cyfraddau trosedd a chreu pobl leol mwy hyderus gyda gwell sgiliau sydd yn fwy galluog i gyflawni pethau. Ond yn amlwg, oherwydd mai ymagwedd o hwyluso yn hytrach na chyfarwyddo yw'r un a fabwysiadwyd gan Gymunedau'n Gyntaf, unwaith eto, nid yw'n rhaglen y gellid disgwyl i'r Cynulliad ei gyflwyno ar ei ben ei hun. Mae ei lwyddiant felly yn dibynnu ar greu cydweithrediad cynaliadwy rhwng partneriaeth aml-lefel ac aml-adrannol o actorion, Adlewyrchir yr ethos hwn yn y weithdrefn ar gyfer monitro a chofnodi canlyniadau sydd yn gweithredu ar lefel genedlaethol a chymunedol.

Strategaethau Cymunedol Lleol

Mae'n ddyletswydd ar Awdurdodau Lleol yng Nghymru o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2000 i baratoi strategaeth gymunedol. Yn ei hanfod, diben strategaethau cymunedol yw cyflawni gwell ansawdd bywyd i bobl Cymru trwy weithredu wedi'i dargedu dan arweiniad cymunedau unigol, i wella lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ar lefel leol. Gan ddatblygu nod archfwaol y Cynulliad o feddwl unedig a chynllunio adnoddau, mae'r strategaethau cymunedol yn darparu ffocws ar gyfer 'cydweithio rhwng awdurdodau lleol, y sectorau gwirfoddol a busnes ac asiantaethau eraill, i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion a dyheadau cymunedau yn effeithiol'. Yn gyfochrog â hyn, trwy nodi sut mae blaenoriaethau'r Cynulliad yn berthynol i flaenoriaethau lleol, mae'r Strategaethau yn hwyluso proses ddwy ffordd o ddysgu a datblygu rhwng y gwahanol lefelau hyn. Maent yn ategu'r fframwaith strategol Cymru gyfan 'Cymru: Gwell Gwlad' trwy ddarparu fframwaith strategol wedi'i deilwra yn lleol ar gyfer holl gynlluniau a strategaethau eraill ar gyfer ardal yr awdurdod unedol.

Mae pob strategaeth gymunedol yn seiliedig ar werthusiad cynaladwyedd – sef, 'dylai'r dadansoddiad o anghenion a chanlyniadau arfaethedig integreiddio ystyriaethau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol'. Maent wedi eu dylunio i gydbwyso gweledigaethau hir dymor (am 10 – 15 mlynedd) gyda 'thargedau canlyniad ymyl caled' ar gyfer y tymor byr a chanolig. Gan gynnwys holl ardal awdurdod lleol mae eu rôl fel dogfen fframwaith strategol yn caniatáu i actorion lleol osgoi 'bylchau, gorgyffwrdd ac/neu wrthddywediadau'.

Er mai elfen hanfodol pob strategaeth yw annog dinasyddiaeth weithredol a chyda hyn, perchnogaeth leol gyffredinol ymysg yr holl grwpiau cymunedol. Mae eu cyflwyniad hefyd yn gysylltiedig â newidiadau ehangach mewn darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus. Nod y newidiadau hyn yw sicrhau 'bod gweithgareddau'r amrywiol gyrff sydd yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd wedi'u cydlynu'n well; yn ymateb i bryderon cymunedau lleol; yn cael eu cyflwyno mewn dulliau sydd yn gweddu i'r bobl sydd yn dibynnu arnynt; yn amgylcheddol gynaliadwy ac yn cymryd i ystyriaeth anghenion cenedlaethau'r dyfodol'.

Cymuned a Chymdeithas

CYFEIRIAD GWEFAN DEFNYDDIOL

www.accac.org.uk/uploads/documents/212.pdf
www.esd-wales.org.uk

Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy (ADC)

Mae addysg yn chwarae rhan hanfodol bwysig yn yr ymchwil am DC. Os nad yw pobl yn deall beth yw DC a sut mae'n berthynol i'w bywydau, maent yn annhebygol o fod yn barod nac yn alluog i chwarae rhan yn y broses fel dinasyddion, pleidleiswyr, defnyddwyr, buddsoddwyr na gweithwyr. Mae ADC yn helpu pobl o oedran ifanc i ddatblygu mwy o synnwyr o bwysigrwydd cyfrifoldeb unigol. Gallant hefyd ddod yn fwy ymwybodol o sut y gall eu gweithrediadau a'u dewisiadau eu hunain effeithio ar fywydau eraill nawr ac yn y dyfodol, o fewn eu teuluoedd eu hunain a chymunedau lleol a hefyd ledled y byd.

Yng Nghymru sefydlwyd Panel Ymgynghorol yn 2001 i hyrwyddo ADC yn effeithiol mewn ysgolion a thu hwnt. Yn ddiweddarach fe'i hunwyd gyda'r Gweithgor Dinasyddiaeth Byd-Eang i ffurfio Panel Ymgynghorol Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Byd-Eang. Mae'n cynnwys cynrychiolaeth o'r Cynulliad, cyrff addysg ACCAC, ESTYN ac ELWa, Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a sawl Corff Anllywodraethol amlwg. Mae gwaith y Panel a'r cyrff sydd yn cyfrannu iddo wedi gwneud cryn dipyn i hyrwyddo ymgorffori egwyddorion DC a dinasyddiaeth fyd-eang yn y cwricwlwm a hyfforddiant i athrawon yng Nghymru.

Cefnogir ADC yng Nghymru hefyd gan SCAN, rhwydwaith addysg amgylcheddol sy'n cael ei redeg gan Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru gyda chefnogaeth Cyngor Cefn Gwlad Cymru. Mae'n darparu adnoddau i athrawon oedd eisiau rhoi cyfle i'w disgyblion fynegi barn am faterion amgylcheddol yn ysbryd Agenda 21. Mae SCAN yn sefydlu projectau sydd yn dysgu disgyblion am faterion amgylcheddol a datblygu cynaliadwy cyfredol ac yn dangos iddynt sut y gallant chwarae rhan bwysig yn y penderfyniadau sydd yn effeithio ar ein dyfodol.

Ble mae/Beth yw Cymru 'Wledig'?

Tra bod Cymru yn cael ei gweld yn bennaf fel gwlad 'wledig', mae diwydiant, yn enwedig gwaith glo a llechi, wedi dylanwadu ar fywyd a diwylliant bron ym mhob cornel o'r wlad. Mae'r ffiniau felly rhwng Cymru wledig a threfol hyd yn oed aneglur yn hanesyddol. Mae ardaloedd a gyfrifir yn 'wledig' hefyd yn hynod o gymysg c.f. Amlwch, Aberystwyth ac Aberhosan. Yn ddiweddar mae'r gwahaniaeth wedi erydu ymhellach wrth i broblemau 'trefol' e.e. cyfraith a threfn, amddifadedd cymdeithasol, tai gwael ddod yn bynciau gwledig.

Mae ffiniau daearyddol ar y gorau yn annelwig gan fod ardaloedd hyd yn oed o fewn ardal ddiwydiannol y Gogledd Ddwyrain, De a De Ddwyrain y gellid eu hystyried yn 'wledig' gyda darnau o gefn gwlad agored, amaethyddol e.e. Gwyr, Maelor, Dyffryn Ceiriog a chryn dipyn o Sir Fynwy. Mae band eang a'r we hefyd wedi dod â swyddi trefol i gefn gwlad. Felly nid yn unig y mae ffyrdd o fyw amgen yn nodweddiadol o 'ardaloedd gwledig' ond felly hefyd gwaith amgen a gweithgarwch lluosog. Mae rhyng-ddibyniaeth rhwng gwlad a thref, ac mae hynny wedi bod yn wir ar hyd yr amser, gyda chymunedau, teuluoedd ac unigolion yn symud yn rheolaidd ar gyfer gwaith o un i'r llall gan ddrysu ymdrechion i wahanu'r ddau (Gareth Wyn Jones ac Einir Young 2003).

Mae'r *Cynllun Datblygu Gwledig i Gymru 2000-2006* yn cydnabod bod '... yr anhawster cysyniadol o ddiffinio Cymru wledig wedi'i adlewyrchu yn ymarferol fel nad yw hyd yn oed Cymru wledig yn rhanbarth economaidd y gellir ei hadnabod yn ddiamwys. O ganlyniad i hynny nid oes gwybodaeth ystadegol ac economaidd ar gael ar sail wedi'i flaen ddiffinio neu wedi'i gytuno arno yn gytûn'.

Nid yw'r diffyg diffiniad cytun o natur ardal wledig wedi'i gyfyngu i Gymru ac yn 2002 cynhaliodd Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (ODPM) adolygiad o ddiffiniadau Trefol a Gwledig fel dilyniant i'r Papurau Gwyn Trefol a Gwledig. Daethpwyd i'r casgliad nad yw diffiniadau cyfredol yn ddigonol yn yr hir dymor. A sefydlwyd 'project Diffiniadau Trefol Gwledig' newydd gyda chyllid gan y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), ODPM, Asiantaeth Cefn Gwlad a Chynulliad Cenedlaethol Cymru i gynhyrchu dosbarthiad cytun o ardaloedd trefol a gwledig yng Nghymru a Lloegr.

Er gwaethaf yr ymdrech unol hon i fireinio'r diffiniadau mae dadleuon cryf dros wrthod datblygu sydd yn atgyfnerthu'r rhaniad 'gwledig/trefol'. Rhaid cydnabod y newidiadau cyflym yn yr economi byd-eang ac amaethyddol, mewn dyheadau cymdeithasol unigol a strwythur cymunedol a rhaid datblygu strategaeth o gwmpas ardaloedd o dwf economaidd potensial a bywiogrwydd cymdeithasol ledled Cymru gan bwysleisio gwerth cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd cefn gwlad Cymru, un o asedau oesol Cymru a photensial yr holl ddinasyddion (Gareth Wyn Jones ac Einir Young 2003). Mae Cynllun Gofodol Cymru (2005), gyda'i bwyslais ar yr angen i gydweithio ar draws ffiniau daearyddol a sectoraidd traddodiadol ac i symud oddi wrth feddwl mewn adrannau, yn arwain y ffordd.

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.wefo.wales.gov.uk/resource/ruraldevplan_e.pdf

www.odpm.gov.uk/

www.defra.gov.uk/rural/ruralwp/default.htm

www.statistics.gov.uk/geography/nrudp.asp

Amrywiaeth

Agenda Cydraddoldeb – Cynllun i Gymru

Mae'n ddyletswydd gyfreithiol ar lywodraeth y Cynulliad, trwy Ddeddf Llywodraeth Cymru (adran 120) i weithredu mewn dull sydd 'yn dangos sylw dyladwy i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bob person'. Er nad oes ganddo strategaeth cydraddoldeb cyffredinol, mae'r Cynulliad er hynny yn gweithio tuag at brif ffrydio saith llinyn cydraddoldeb (hil, rhyw, anabledd, oedran, gogwydd rhywiol, crefydd a chred a'r iaith Gymraeg) ar draws ei holl ymarferion a meysydd gwaith. Yn gyfochrog â hyn, ar lefel leol, mae Uned Cydraddoldebau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn darparu cyngor a chymorth ar sut y gellir gweithredu agenda cydraddoldeb Cymru o fewn corff pob awdurdod lleol, trwy'r 'Safon Cydraddoldeb'.

Mae'r ymrwymiad hwn i gyflawni cyfle cyfartal yng Nghymru wrth wraidd amcan trawsbynciol arall y Cynulliad o ddatblygu cynaliadwy. Mae'r gwaith o 'brif ffrydio' cydraddoldeb ei hun yn ddim ond yn ddechreuad ar y broses llawer hirach o ddatblygu dealltwriaeth lawnach o anghenion amrywiol pobl Cymru. Wrth wneud hynny fodd bynnag, mae'r Cynulliad hefyd yn dod yn llawer nes at gyflawni 'datblygiad polisïau a gwasanaethau sydd yn ymateb i'r anghenion hynny'. Felly yn oblygedig ac yn glir mae'r ymrwymiad i'r agenda cydraddoldeb yn parhau'n ganolog i dwf cynaliadwy'r pum adnawdd cyfalaf yng Nghymru.

Rôl Strategol Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Am ddadansoddiad manwl am yr iaith Gymraeg yng Nghymru gweler Williams (2005).

Mae'r iaith a'r diwylliant Cymraeg yn elfen fawr sydd yn gwahaniaethu Cymru oddi wrth weddill y Deyrnas Unedig. Mae'n un o ieithoedd hynaf yn Ewrop sydd wedi goroesi gyda 575,640 o siaradwyr wedi'u cofnodi yng nghyfrifiad 2001 a 222,077 pellach yn hawlio sgiliau iaith arall.

Mae Cymru wedi ei hymgorffori yn wleidyddol ac yn gyfreithiol i Loegr ers Deddfau Uno 1536 a 1542. Cafodd hyn effaith sylweddol ar statws y Gymraeg: *'The people of Wales.. do daily use a speech nothing like the natural mother tongue used in England… From henceforth no persons that use the Welsh speech or language shall enjoy any… office or fees within this realm of England and Wales'*. O ganlyniad i'r Deddfau hyn daeth y Gymraeg a fu cyn hynny dan nawdd tywysogion, aristocratiaid a gŵyr bonheddig yn eiddo i'r werin.

Yn eironig ddigon, cyfrannodd yr un wladwriaeth Duduraidd yn ei hymdrechion i gael gwared ar Gatholigiaeth, tuag at nid yn unig barhad yr iaith ond hefyd at gynnal ei harddwch trwy ganiatáu cyfieithu'r Testament Newydd a'r Llyfr Gweddi gan William Salesbury ym 1567 a chwblhau'r Beibl gan William Morgan ym 1588.

Yn dilyn terfysgoedd Rebecca a ddigwyddodd rhwng 1839 hyd at ganol yr 1840au, ac a ddigwyddodd yn ôl The Times oherwydd addysg wael, comisiynwyd a chyhoeddwyd adroddiad ym 1847. Ystyriwyd yr adroddiad hwn yn sarhaus yng Nghymru oherwydd sylwadau haerllug y tri chomisiynydd Anglicanaidd nad oeddent yn siarad Cymraeg am yr iaith Gymraeg, Anghydffurfiaeth a moesau pobl Cymru yn gyffredinol. O ganlyniad galwyd yr adroddiad yn 'Frad y Llyfrau Gleision' ac mae wedi'i gyfeirio ato fel *'Glencoe ac Amritsar hanes Cymru'*. Hyd heddiw mae'r synnwyr o gymhlethdod y taeog a greodd yn treiddio trwy'r ysbryd cenedlaethol.

Ar dro'r ugeinfed ganrif gweithiodd arloeswyr fel O.M.Edwards i adfer y diffyg gwybodaeth am hanes a diwylliant Cymru gan ymgyrchu am addysg yn Gymraeg. Parhaodd ei fab, Ifan ab Owen Edwards gyda'r gwaith trwy sefydlu Urdd Gobaith Cymru. Ond y trobwynt oedd Darlith Flynyddol y BBC gan Saunders Lewis ar Dynged yr Iaith ym mis Chwefror 1962 a hawliodd bod 'adfer yr iaith Gymraeg yng Nghymru yn ddim llai na chwyldro. Dim ond trwy ddulliau chwyldroadol y gallwn lwyddo.' Arweiniodd ei ddarlith ar ffurfio Cymdeithas yr Iaith Gymraeg ac i gyfnod o ymgyrchu dros hawliau i'r iaith Gymraeg.

Yn dilyn datganoli, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo ei hun i greu Cymru ddwyieithog ac ym mis Chwefror 2003 cyhoeddwyd *Iaith Pawb* y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol. Mae ei ddiben yn amlwg 'Rydym wedi ymrwymo i wneud dwyieithrwydd yn realiti yng Nghymru…' Mae bod yn 'ddwyieithog' yn golygu gwahanol bethau i wahanol bobl ac amser a dengys a yw'r polisi yn ddigon cryf i sicrhau y bydd holl ddinasyddion Cymru yn y diwedd yn gallu siarad Cymraeg i lefel ddigonol i sicrhau y gall siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r 'iaith o'u dewis eu hunain'.

Gellir cael 'The Story of Welsh Timeline' ar wefan y BBC ac mae llinell amser o ddetholiad o ddigwyddiadau allweddol yr ugeinfed ganrif i'w gweld ar wefan Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.statistics.gov.uk/downloads/census2001/Report_on_the_Welsh_language.pdf

www.llgc.org.uk/drych/drych_s088.htm

www.bbc.co.uk/wales/storyofwelsh/content/thetudors

www.urdd.org/indexS.html

www.llgc.org.uk/ymgyrchu/Iaith/TyngedIaith

www.bwrdd-yr-iaith.org.uk/

www.naldic.org.uk/ITTSEAL2/teaching/B1.cfm

www.bbc.co.uk/wales/storyofwelsh/timeline/index.shtml

www.llgc.org.uk/ymgyrchu/map-e.htm

Amrywiaeth

Iaith Pawb – Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog

Am ddadansoddiad manwl o'r iaith Gymraeg yng Nghymru gweler Williams (2005).

Mae tair Deddf Seneddol a basiwyd rhwng 1988-1998 yn darparu rhwydwaith statudol a chyd-destun sefydliadol i'r iaith Gymraeg:

Ym 1988 rhoddodd *Deddf Diwygio Addysg* statws pwnc craidd i'r Gymraeg yn y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru mewn ysgolion Cymraeg a dwyieithog a statws pwnc sylfaen iddi yng ngweddill ysgolion Cymru. Ym 1990 daeth y Gymraeg yn bwnc gorfodol i bob myfyriwr mewn ysgolion prif ffrwd y wladwriaeth yng Nghymru. Mae disgyblion bellach yn astudio Cymraeg nail ai fel iaith gyntaf neu ail iaith yn dibynnu ar leoliad. Ond, mae'r gofyniad statudol yn amwys iawn gydag amrywiadau yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 yn enwedig; gellir dadlau ei fod yn dibynnu ar weledigaeth ac ymrwymiad y pennaeth. Dylid nodi nad oes unrhyw ddeddfwriaeth yn bodoli i hyrwyddo a diogelu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel Addysg Uwch a Phellach. Mae data swyddogol gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru sydd yn datgan fod llai na 3% o'r holl fyfyrwyr yn astudio rhyw ran o'u cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg yn wybyddus iawn. Mae niferoedd a darpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi parhau'n sefydlog dros y ddegawd diwethaf ond o ganlyniad i niferoedd cynyddol mae'r canran o'r rhai sydd yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg wedi syrthio (Wyn Jones 2004). Bob blwyddyn mae 40% o fyfyrwyr yn gadael Cymru i dderbyn eu haddysg uwch yn Lloegr a thu hwnt. Mae'r ecsodus hwn wedi'i ddisgrifio fel 'gwaedlif yr ymennydd' (Glyn Jones 2003). Ni all gwlad fechan fforddio colli hufen ei hieuenctid (siaradwyr Cymraeg neu beidio) yn enwedig os nad ydynt yn dychwelyd ac mae angen gweithredu i gywiro'r sefyllfa. Yn Anelu'n Uwch mae Llywodraeth y Cynulliad yn datgan ' Rydym eisiau sector AU sydd yn ymatebol i unigolion, yn cynnwys y rhai sydd yn dymuno dilyn elfennau o'u cwrs gradd trwy gyfrwng y Gymraeg. Dros gyfnod o amser dylid ei ystyried fel rhan o'r ddarpariaeth prif ffrwd yn cynnwys detholiad o gyrsiau' (Llywodraeth y Cynulliad 2002). Mae cyllid i wireddu'r dyhead hwn yn rhyfeddol o fychan (Young 2005).

Mae *Deddf yr Iaith Gymraeg (1993)* yn darparu fframwaith statudol ar gyfer trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal. Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn gorff statudol , wedi'i gyllido gan arian cyhoeddus, a sefydlwyd ym mis Rhagfyr 1993 dan delerau Deddf yr Iaith Gymraeg. Ei brif swyddogaeth yw hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Caiff ei gyllido gan gymorth grant gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, oedd yn £12 miliwn yn 2003/04 (er mai dim ond 0.1% o gyllideb y Cynulliad Cenedlaethol o £10.3bn yn 2003/4 yw hyn). Ar hyn o bryd mae'r Ddeddf wedi'i chyfyngu i rwymedigaethau cyrff cyhoeddus yng Nghymru ac mae galwadau am Ddeddf newydd i gynnwys y sector preifat.

Digwyddodd y cam nesaf mewn normaleiddio'r Gymraeg gyda *Deddf Llywodraeth Cymru 1998*. O'r cychwyn cyntaf ac yn unol â gwleidyddiaeth byd cyfoes mae siambr y Cynulliad yn gweithredu'n ddwyieithog. Mae hyn yn dilyn y norm o fewn seneddau rhanbarthol Ewropeaidd (e.e. Catalonia, Ewscadi) neu o fewn cyrff rhyngwladol eraill fel Cyngor Ewrop, NATO a'r Cenhedloedd Unedig.

Beth sy'n dod nesaf? Ym mis Gorffennaf 2004 cyhoedd LlCC y byddai Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cael ei ddiddymu erbyn 2007 a'i ddyletswyddau'n cael eu trosglwyddo i Lywodraeth y Cynulliad. Gallai hyn arwain at wagle statudol. Yn Eisteddfod Genedlaethol 2005 amlinellodd yr Athro Colin Williams, arbenigwr mewn cynllunio ieithyddol, y newidiadau angenrheidiol os yw nod Llywodraeth y Cynulliad o greu Cymru ddwyieithog i'w gwireddu ac os yw'r Gymraeg i gyflawni gwir gydraddoldeb gyda'r iaith Saesneg. Yn ei farn ef, dylai pwerau deddfwriaethol fodoli yng Nghaerdydd ac nid yn Llywodraeth Lloegr. Dylai Llywodraeth y Cynulliad gael pwerau ychwanegol a dylid defnyddio'r pwerau hynny hefyd i gyflwyno cyfres o Deddfau i ddiogelu'r iaith, dylid ymgorffori hawliau ieithyddol mewn Siarter Iaith a phenodi Comisiynydd yr Iaith Gymraeg annibynnol i archwilio a hyrwyddo'r polisi Iaith.

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.bbc.co.uk/wales/schoolgate/aboutschool/content/inwelsh.shtml

www.elwa.co.uk

www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

www.walesoffice.gov.uk/2005/better_governance_for_wales_report.pdf

Mentrau Busnes a Chynaladwyedd

Mae gormodedd o safonau, codau ymddygiad a mentrau sector busnes yn ymwneud â chynaladwyedd. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain wedi'u datblygu dros y ddegawd ddiwethaf, gyda nifer o safonau cychwynnol yn cael eu datblygu o gwmpas amser Cynhadledd y Ddaear Rio ym 1992.

Tra bod y rhain yn bennaf yn fentrau busnes, maent bron i gyd wedi' datblygu trwy ryw ffurf o ymagwedd aml-fuddiolwr, gyda mewnbwn i'w datblygiad yn cael ei roi – i amrywiol raddau – gan fusnes, llywodraeth, cyrff llafur a chyrff anllywodraethol.

Mae amrywiol ffyrdd o wahaniaethu rhwng y mentrau hyn. Un dewis yw gwahaniaethu rhwng *egwyddorion bras* sydd yn rhoi arweiniad cyffredinol, a *safonau penodol* sydd yn rhoi manylion am set o ofynion meincnodi y dylid eu gweithredu:

- Egwyddorion – mae'r rhain yn darparu set o werthoedd archfwaol i arwain ac ategu ymddygiad.
- Safonau proses – mae'r rhain yn diffinio'r gweithdrefnau y dylai cwmni eu rhoi yn eu lle (yn ymwneud er enghraifft â dylunio systemau rheolaeth neu ymarferion cynnwys buddiolwyr).
- Safonau perfformiad – mae'r rhain yn diffinio set lleiafswm o weithgarwch y dylai cwmni gydymffurfio â nhw (er enghraifft safonau llafur craidd) neu lefel o berfformiad o fewn maes gweithgarwch.
- Safonau sylfaen – mae'r rhain yn darparu sylfaen ar gyfer maes newydd, yn amlinellu'r hyn y gellid ei weld fel ymarfer gorau mewn maes o weithgarwch sydd yn datblygu; gallant gynnwys egwyddorion, prosesau a safonau perfformiad.
- Safonau ardystiad – mae'r rhain yn diffinio set o amodau, os cydymffurfir â nhw, y gall trydydd parti annibynnol eu gwobrwyo; gallant gynnwys blaenoriaethau, prosesau a safonau perfformiad.

Dull arall o wahaniaethu rhwng mentrau yw yn nhermau eu cwmpas a'u hamcan. Dyma'r ymagwedd a fabwysiadwyd yn y ddogfen hon, lle mae'r amrywiol wahanol fentrau wedi eu rhannu fel a ganlyn:

- **Egwyddorion byd-eang a Chodau Ymarfer** – Canllawiau OECD ar gyfer Mentrau Cydwladol; Siarter yr ICC ar gyfer Datblygu Cynaliadwy; a Compact Byd-Eang y CU.
- **Manylebau Rheolaeth Systemau** – ISO 14001, EMAS, SA 8000, OHSAS 18001 a SIGMA.
- **Canllawiau ar Adrodd a Chynnwys Buddiolwyr** – GRI ac AA1000.
- **Mentrau'n benodol i sectorau** – Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd, Cyngor Stiwardiaeth y Môr, Gofal Cyfrifol.
- **Mentrau ariannol** – Mynegai Cynaladwyedd Dow Jones, FTSE4Good, Egwyddorion Equator.
- **Mentrau'n benodol i themâu** – Menter Masnach Moesegol, Menter Tryloywder Diwydiannau Extractive, Menter Protocol Nwy Tŷ Gwydr.

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar rai o'r mentrau gwirfoddol mwyaf adnabyddus a weithredir yn fyd-eang. Er nad yw'r rhestr hon yn sicr yn gyflawn, y diben yw darparu cyflwyniad sylfaenol i rai o'r mentrau amlycaf.

Egwyddorion Byd-Eang a Chodau Ymarfer

Canllawiau OECD ar gyfer Mentrau Cydwladol

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.oecd.org

Mae'r Corff ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn grŵp o 30 o aelod wledydd – pob un â statws 'cenedl ddatblygedig' – lle mae'r llywodraethau sydd yn cymryd rhan yn 'trafod, datblygu a pherffeithio polisi economaidd a chymdeithasol.'

Nid yw Canllawiau OECD ar gyfer Mentrau Cydwladol yn argymhellion sy'n rhwymo'n gyfreithiol ac maent wedi eu dylunio i sicrhau fod busnesau cydwladol yn cynnal eu busnes yn unol â pholisïau'r gwledydd y maent yn gweithredu ynddynt. Mae'r Canllawiau yn argymhellion a drafodir gan lywodraethau i fentrau cydwladol sydd yn gweithredu yn neu o wledydd cyfagos. Mae'r Canllawiau yn darparu egwyddorion gwirfoddol ar gyfer ymddygiad busnes cyfrifol ar faterion fel cyflogaeth a chysylltiadau diwydiannol, yr amgylchedd, llwgrwobrwyo a llygredd, hawliau dynol, buddiannau defnyddwyr, datgelu gwybodaeth, cystadleuaeth a threthi. Cyhoeddwyd y Canllawiau i ddechrau ym 1976 ac fe'u diwygiwyd yn sylweddol yn 2000 i ganolbwyntio ar faterion datblygu cynaliadwy. Ers eu hadolygu maent bellach yn cynnwys holl gytundebau llafur craidd y Corff Llafur Rhyngwladol (ILO). Nodwedd bwysig o'r safonau hyn yw bod y canllawiau yn defnyddio ymarfer lleol yn hytrach na safonau y cytunwyd arnynt yn rhyngwladol.

Nodwedd unigryw Canllawiau OECD yw bod pob llywodraeth sydd wedi llofnodi iddynt wedi sefydlu Pwynt Cyswllt Cenedlaethol sydd yn gyfrifol am hyrwyddo'r Canllawiau ac ar gyfer ymchwilio a chynorthwyo i gyfryngu cwynion yn erbyn cwmnïau gan fuddiolwyr gartref neu dramor. Ers 2000 mae tua deg ar hugain o achosion wedi'u dwyn yn rhyngwladol, yn cynnwys materion fel iechyd a diogelwch yn y gwaith, rhyddid cymdeithasu, defnydd llafur gorfodol a gweithrediadau cwmni yn Burma. Tra bod rhai o'r achosion wedi'u datrys yn gyfeillgar ac eraill wedi peidio â bod yn berthnasol, mae nifer heb eu datrys.

Tra bod y Canllawiau hyn yn wahanol i'r rhan fwyaf o'r rhai a ystyrir isod – hynny yw, eu bod ar gyfer ymrwymiad llywodraethau yn hytrach na chwmnïau – maent er hynny yn gwneud cyfraniad sylweddol i weithgarwch CSR. Os cant eu gweithredu'n effeithiol mae ganddynt y potensial i ddangos effeithiolrwydd hunan reoleiddio a chyfrannu tuag at symud cysylltiadau cwmni-buddiolwyr o sefyllfa elyniaethus i ymagweddau yn canolbwyntio mwy ar atebion.

Egwyddorion Byd-Eang a Chodau Ymarfer

Naw Egwyddor y Compact Byd-Eang

Hawliau Dynol

1. 1. Cefnogi a pharchu diogelu hawliau dynol rhyngwladol o fewn cylch dylanwad cwmnïau sydd yn llofnodwyr
2. Sicrhau nad yw eu cwmnïau yn rhan o gam-drin hawliau dynol

Llafur

3. Rhyddid cymdeithasu a chydnabyddiaeth effeithiol o'r hawl i gyd fargeinio
4. Cael gwared ar bob ffurf o lafur gorfodol
5. Dileu llafur plant
6. Dileu gwahaniaethu o ran cyflogaeth a galwedigaeth

Amgylchedd

7. Cefnogi ymagwedd ragofalus tuag at sialensiau amgylcheddol
8. Cynnal mentrau i hyrwyddo mwy o gyfrifoldeb amgylcheddol
9. Annog datblygiad a lledaeniad technolegau sydd yn gyfeillgar i'r amgylchedd

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.unglobalcompact.org

Compact Byd-Eang

Mae'r Compact Byd-Eang a gynigiwyd yn Fforwm Economaidd y Byd gan Ysgrifennydd y CU, Kofi Annan, yn herio arweinwyr busnes 'i wneud i fyd-ehangu weithio i holl bobl y byd.' Bwriad y Compact yw bod yn llwyfan ar gyfer deialog a dysgu wedi'i anelu at gyflawni newid mewn agweddau. Mae'r Compact yn ymgorffori naw egwyddor sylfaenol ar lafur, hawliau dynol a'r amgylchedd. Mae'r egwyddorion hyn wedi'u tynnu o'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol, Egwyddorion Sylfaenol ILO ar Hawliau yn y Gwaith, ac Egwyddorion Rio ar yr Amgylchedd a Datblygu.

Gwelwyd y Compact fel carreg filltir arwyddocaol gan mai dyma'r tro cyntaf i'r wladwriaeth fyd-eang (ar ffurf y Cenhedloedd Unedig) fynegi safbwynt ar gyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol. Fe'i gwelir fel rhywbeth sydd â'r potensial i ddatblygu yn strwythur llywodraethu byd-eang ar faterion CSR.

I gymryd rhan yn y Compact, rhaid i brif weithredwr cwmni gyflwyno llythyr yn ymrwymo'r cwmni i'r Compact, a'i naw egwyddor a mynegi parodrwydd i gymryd rhan yn ei weithgarwch. Mae'r ymrwymiad yn cynnwys: hyrwyddo'r Compact a'i egwyddorion yn gyhoeddus yn ei ddatganiad cenhadaeth ac adroddiadau; cyflwyno cyhoeddiad blynyddol ar Wefan y Compact Byd-Eang yn rhoi manylion am gamau pendant a gymerwyd i weithredu ar yr egwyddorion hyn, ac unrhyw wersi a ddysgwyd; ac ymuno â'r CU mewn projectau partneriaeth er budd i'r gwledydd sy'n datblygu.

Manylebau Systemau Rheolaeth

Yn waelodol i unrhyw fenter cwmni wedi'i anelu at hyrwyddo datblygu cynaliadwy yw gweithrediad system realaeth strwythuredig. Yn y ddegawd olaf mae nifer o safonau rheolaeth wirfoddol wedi'u datblygu, nifer ohonynt yn deillio o systemau rheolaeth ar gyfer ansawdd ardystiedig (e.e. ISO 9000) a ddatblygwyd fel rhan o'r symudiad Rheolaeth Ansawdd llwyr. Mae'r rhain yn darparu dull systematig o ddelio â phryderon amgylcheddol. Cymdeithasol ac iechyd a diogelwch tra hefyd yn galluogi cwmnïau i gael ardystiad rhyngwladol cydnabyddedig allai fod â manteision marchnata gwerthfawr.

Mae gan systemau rheolaeth wedi'u dylunio a'u gweithredu'n effeithiol nifer o fanteision pwysig:

- Maent yn helpu i nodi a blaenoriaethu eu heffeithiau amgylcheddol ac/neu gymdeithasol allweddol mewn dull strwythuredig a systematig.
- Maent yn darparu fframwaith ar gyfer gosod amcanion a thargedau clir i reoli'r effeithiau hyn.
- Maent yn sicrhau fod prosesau a gweithdrefnau strwythuredig yn eu lle i fesur a monitro perfformiad.

Ond nid yw systemau rheolaeth heb eu beirniaid:

- Ar lefel cyffredinol mae pryder eu bod yn canolbwyntio ymdrechion ar welliannau cynyddrannol yn hytrach nag ar yr ailddylunio a'r ailfeddwl a welir yn angenrheidiol ar gyfer cynaladwyedd – 'gwneud beth a wnewch, yn gywir' yn hytrach na 'gwneud y peth cywir".
- Gallant fod yn anhyblyg ac yn fiwrocrataidd.
- Yn berthynol i hyn, maent yn aml yn rhy gymhleth o ran gweithrediad, gan gymryd amser staff ar reoli dogfennau a gweithdrefnau gweinyddol.
- Ychydig iawn y mae manylebau system rheolaeth yn darparu ar gyfer holi ac integreiddio sylwadau buddiolwyr i'r system rheolaeth.
- Mae perygl nad yw peth o'r wybodaeth a gynhyrchir gan y system rheolaeth yn ddigon integredig o fewn prosesau gwneud penderfyniadau allweddol ar lefel strategol.

Manylebau Systemau Rheolaeth

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.iso.ch

ISO 14001

Ym 1993 dechreuodd y Corff Rhyngwladol ar gyfer Safoni (ISO) waith ar y gyfres ISO 14000. Mae'r gyfres hon yn delio ag amrywiol agweddau rheolaeth amgylcheddol, yn cynnwys systemau rheolaeth amgylcheddol (EMS), archwilio, gwerthusiad perfformiad, eco-labelu ac asesiad cylch bywyd. Conglfaen y gyfres – a'r safon meincnodi ar gyfer systemau rheolaeth amgylcheddol – yw'r Fanyleb ISO 14001 EMS Wedi'i ryddhau ym 1996 hwn yw'r safon EMS mwyaf derbyniol yn rhyngwladol. Mae ISO yn adrodd, ar ddiwedd 2002, bod dros 49,400 o dystysgrifau ISO 14001 wedi'u rhoi mewn 118 gwlad, sef cynnydd o 35% ar lefelau yn 2001.

Mae'r safon yn canolbwyntio ar brosesau trefnyddol eang, yn disgrifio sut y dylai cwmni reoli ei system drefnyddol fel ei fod yn monitro yn effeithiol, yn mesur ac yn gwella'n barhaus ar ei berfformiad amgylcheddol. Mae'r gofynion allweddol ar gyfer cael tystysgrif ISO 14001 yn cynnwys:

Asesu effeithiau amgylcheddol y cwmni, datblygu polisi amgylcheddol, gosod amcanion a thargedau, sefydlu a chynnal rhaglen rheolaeth amgylcheddol, gweithredu gweithdrefnau ar gyfer hyfforddi, cyfathrebu, monitro a mesur a chynnal archwiliadau amgylcheddol ac adolygiadau rheolaeth.

Eco-Reolaeth a Chynllun Archwilio

Yn debyg o ran cysyniad i ISO 14001, mae'r safon EMAS – a ddatblygwyd ym 1993 gan y Comisiwn Ewropeaidd – hefyd yn gwasanaethu fel safon wirfoddol, anreoleiddiol i systemau rheolaeth amgylcheddol ac archwilio. Mae cwmnïau wedi gallu cymryd rhan yn y cynllun ers 1995. Yn wreiddiol wedi'i gyfyngu i gwmnïau yn y sectorau diwydiannol. Ers 2001 mae'r cynllun wedi bod yn agored i'r holl sectorau econo0maidd, yn cynnwys gwasanaethau cyhoeddus a phreifat. Mae cymryd rhan yn wirfoddol ac yn ymestyn i gyrff cyhoeddus neu breifat sydd yn gweithio yn yr Undeb Ewropeaidd a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA) – Gwlad yr iâ, Liechtenstein a Norwy. Mae nifer cynyddol o wledydd sy'n ymgeiswyr hefyd yn gweithredu'r cynllun i baratoi ar gyfer ymuno â'r UE.

I gael cofrestriad EMAS rhaid i gorff gynnal adolygiad amgylcheddol, sefydlu system rheolaeth amgylcheddol effeithiol, cynnal archwiliadau amgylcheddol a darparu datganiad allanol o'i berfformiad amgylcheddol. Rhaid i'r adolygiad amgylcheddol, EMS, gweithdrefn archwilio a'r datganiad amgylcheddol gael eu cymeradwyo gan ddilysydd EMAS achrededig ac mae angen anfon y datganiad dilysedig at Gorff Cymwys EMAS ar gyfer cofrestru a bod ar gael yn gyhoeddus cyn y gall corff ddefnyddio logo EMAS.

CYFEIRIAD GWEFAN DEFNYDDIOL

europa.eu.int/comm/environment/emas/index_en.htm

Atebolrwydd Cymdeithasol 8000

SA 8000 yw'r safon fyd-eang cyntaf y mae modd ei archwilio ar gyfer olrhain moesegol. Wedi'i ddatblygu gan Asiantaeth Cyngor ar gyfer Achredu Blaenoriaethau Economaidd yn Efrog Newydd (bellach Atebolrwydd Cymdeithasol Rhyngwladol) gyda chefnogaeth cyrff anllywodraethol, undebau llafur a chwmnïau, mae'n bennaf seiliedig ar gytundebau'r Corff Llafur Rhyngwladol, Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol a Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn. Diben SA 8000 yw caniatáu i gwmnïau – mewn unrhyw wlad ac mewn unrhyw sector – i archwilio a dilysu'n annibynnol bod eu cynnyrch yn dod o gyflenwyr sydd yn diwallu safonau llafur rhyngwladol a rhwymedigaethau hawliau dynol, yn cynnwys materion llafur plant, iechyd a diogelwch galwedigaethol, rhyddid cymdeithasu, gwahaniaethu, ymarferion disgyblu, iawndal a rheolaeth. Mae mwyafrif y cwmnïau sydd yn defnyddio SA 8000 yn y sector manwerthu neu yn ymwneud â chynhyrchu dillad, teganau ac esgidiau, gyda diddordeb uchaf yn y cwmnïau hynny gyda brandiau proffil uchel. Tra bod SA 8000 yn debyg iawn i ISO 14001 – o ran pennu system rheolaeth y gellir ei harchwilio wedi'i anelu at welliant parhaus – mae'n gwahaniaethu'n sylweddol oherwydd ei fod yn cynnwys darpariaethau perfformiad penodol ac yn gosod mwy o bwyslais ar gynnal cyfweliadau gyda gweithwyr. Er gwaethaf y gwahaniaethau hyn mae nifer o gwmnïau yn dechrau cyfuno eu harchwiliadau SA 8000 gydag archwiliadau ISO 14001 ac ISO 9000 fel rhan o broses rheolaeth symlach.

CYFEIRIAD GWEFAN DEFNYDDIOL

www.sa-intl.org
www.cepaa.org/SA8000/SA8000.htm

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.osha-bs8800-ohsas-18001-health-and-safety.com

Cyfres Asesu Lechyd a Diogelwch Galwedigaethol

Mae'r gyfres OHSAS 18000 a ddatblygwyd gan Sefydliad Safonau Prydeinig, yn safon system rheolaeth iechyd a diogelwch galwedigaethol rhyngwladol, yn gymharol gydag ISO 9000 (rheolaeth ansawdd) ac ISO 14001 (EMS). Mae'r safon yn amlinellu ymarferion rheolaeth wedi'u hanelu at wella perfformiad iechyd a diogelwch cwmni. Nid yw'r gyfres OHSAS 18000 yn darparu meini prawf rheolaeth penodol ac nid yw'n cynnwys manylebau manwl ar gyfer dylunio'r system rheolaeth.

Canllawiau ar Gyfranogiad Buddiolwyr, Adrodd ac Atebolrwydd

Datblygiad pwysig dros y ddegawd ddiwethaf fu'r cynnydd cyflym mewn adrodd corfforaethol ar berfformiad heb fod yn ariannol. Mae dau ganllaw ymarfer gorau arwyddocaol yn y maes hwn: mae'r cyntaf yn darparu canllaw ar faterion sylweddol i'w cynnwys mewn adroddiad cynaladwyedd tra bod yr ail yn darparu fframwaith i arwain sefydlu proses o gynnwys buddiolwyr mewn modd cynhwysol.

Menter Adrodd Byd-Eang

Sefydlwyd y Fenter Adrodd Byd-Eang (GRI) ym 1997 gan y Gynghrair dros Economïau Cyfrifol yn Amgylcheddol yn Boston (CERES) a Sefydliad Tellus, gyda'r nod o godi adrodd ar gynaladwyedd i lefel cyfatebol i adrodd ariannol o ran hygrededd, manyldeb, amserlenni a natur wiriadwy. Bellach mae'r GRI yn gorff annibynnol, wedi'i leoli yn yr Iseldiroedd ac yn gydnabyddedig fel Canolfan Gydweithredu Rhaglen Amgylchedd y Cenhedloedd Unedig (UNEP). Ym 1999 cyhoeddodd GRI y drafft cyntaf o *Canllawiau Adrodd ar Gynaladwyedd*. Adolygwyd y rhain yn 2002, yn dilyn cyfnod o dreialu helaeth. Datblygwyd y Canllawiau trwy bartneriaeth gydweithredol yn cynnwys diwydiant, undebau llafur, cyrff anllywodraethol a chyrff cyfrifo, gyda chefnogaeth y CU. Mae'r Canllawiau wedi'u defnyddio gan dros 100 o gwmnïau amlwg y byd.

Mae'r Canllawiau yn darparu arweiniad ar ffurf a chynnwys adroddiadau yn ogystal â chymorth ar sut i normaleiddio a dilysu data. Mae set gynhwysfawr ynddynt o ffiniau trefnyddol, rheolaeth system a pherfformiad, yn ymwneud â pherfformiad economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cwmni. Mae'r Canllawiau yn annog cwmnïau i osod targedau ac ymrwymiadau ac yna i adrodd ar i ba raddau y mae'r rhain yn cael eu diwallu, gan ddarparu rhesymau am unrhyw fylchau neu fethiannau. Mae'r GRI yn argymell yn gryf y dylid mabwysiadu proses o gynnwys buddiolwyr, gyda'r nod o adrodd ar y materion hynny sydd yn fwyaf perthnasol i fuddiolwyr. Yn ogystal â'r set craidd o Ganllawiau mae nifer o brotocolau adrodd yn benodol i sector a thema yn cael eu datblygu. Mae grŵp aml-fuddiolwyr wedi'i gynnull i edrych ar faterion dilysu adrodd.

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.globalreporting.org

Canllawiau ar Gyfranogiad Buddiolwyr, Adrodd ac Atebolrwydd

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.accountability.org.uk

AccountAbility 1000

Mae AA1000, a lansiwyd ym 1999, yn safon ymarfer gorau ar gyfer ymagwedd seiliedig ar fuddiolwr tuag at gyfrifo, archwilio ac adrodd cymdeithasol a moesegol. Fe'i datblygwyd gan Institute of Social and Ethical AccountAbility yn y DU, corff aelodaeth broffesiynol heb fod ar gyfer elw yn cynnwys cynghrair o fusnesau, cyrff anllywodraethol, prifysgolion a darparwyr gwasanaeth. Mae AA1000 yn darparu fframwaith i arwain sefydlu proses o gynnwys buddiolwyr mewn modd cynhwysol, wedi'i anelu at nodi materion a blaenoriaethau allweddol, diffinio metrigau a thargedau a chyfrannu at ddatblygu systemau cyfrifo, archwilio ac adrodd. Mae egwyddorion safon ansawdd yn y fframwaith yn ogystal â set o safonau proses sydd yn cynnwys pum cam: cynllunio, cyfrifo, archwilio ac adrodd, cadarnhau a chynnwys buddiolwyr. Mae'n cyfeirio at, ac yn adeiladu ar fentrau rheolaeth systemau blaenorol fel ISO 9001 ac ISO 14001.

Yn 2002 dechreuodd AccountAbility y gyfres AA1000 gyda lansio Safon Sicrwydd AA1000. Diben hwn yw ategu Canllawiau Adrodd GRI ac ymagweddau safonedig eraill tuag at ddatgeliad. Mae'n delio â'r data meintiol ac ansoddol sydd yn ffurfio perfformiad cynaladwyedd yn ogystal â'r systemau sydd yn ategu'r data a'r perfformiad.

Mentrau Penodol i Sectorau

Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.fscoax.org

Mae Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd (FSC) yn gorff anllywodraethol rhyngwladol, heb fod ar gyfer elw, a sefydlwyd ym 1993 mewn ymateb i bryderon rhyngwladol cynyddol ynghylch dadfforestru yn ogystal â chynnydd yng ngalw defnyddwyr am gynllun labelu coed credadwy. Mae'r FSC yn ceisio hyrwyddo rheolaeth gyfrifol o goedwigoedd y byd trwy system o ardystio coedwigoedd a labelu cynnyrch sydd yn caniatáu i ddefnyddwyr adnabod coed a chynnyrch coed o goedwigoedd wedi'u rheoli'n dda. Mae'r FSC yn cynnwys gweithgorau cenedlaethol mewn 28 gwlad gyda chefnogaeth nifer o gyrff anllywodraethol yn cynnwys WWF, Greenpeace a Chyfeillion y Ddaear, yn ogystal â chefnogaeth rhai cyrff yn y diwydiant coed a phapur. Mae 16 miliwn hectar (0.5% o goedwigoedd y byd) wedi'u hardystio dan FSC mewn 30 gwlad.

Mae'r ardystiad yn cynnwys pob math o goedwigoedd (trofannol, tymherus a boreal). O ran y cynllun mae FSC yn gwerthuso, achredu a monitro cyrff ardystio annibynnol sydd wedyn yn ardystio ymarferion rheolaeth coedwigoedd unigol yn ogystal â gweithredu 'Cadwyn Gofal' – system monitro ac olrhain sydd yn ei lle trwy bob cam yn y gadwyn cyflenwi, o'r coedwigoedd i'r siopau. Caiff coedwigoedd eu harolygu a'u hardystio yn erbyn safonau llym yn seiliedig ar 10 Egwyddor o Stiwardiaeth Coedwigoedd FSC a ddatblygwyd gan bobl broffesiynol mewn coedwigaeth, ecoleg, datblygu gwledig a chymdeithasol, yn ogystal â defnyddwyr coedwigoedd, masnachwyr, manwerthwyr, gwneuthurwyr a chynrychiolwyr o grwpiau amgylcheddol a hawliau dynol.

I gael ardystiad FSC rhaid rheoli coedwig mewn dull amgylcheddol priodol. Buddiol yn gymdeithasol ac yn hyfyw yn economaidd. Cynhelir yr arolygon gan gyrff annibynnol sydd wedi'u hachredu gan FSC. Rhoddir ardystiad FSC i goedwigoedd sydd wedi diwallu'r safona llym hyn ac mae'r coed yn cael cario'r label FSC. Ar hyn o bryd mae label FSC ar dros 10,000 o linellau cynnyrch yn cynnwys dodrefn tŷ a gardd, cegin, ystafell ymolchi a deunyddiau tŷ cyffredinol, papur wal a lloriau a phapur a phensiliau. Mynegwyd pryder gan rai cyrff anllywodraethol am hygrededd y cynllun, yn enwedig mecanweithiau monitro a gorfodi yn berthynol i'w ardystio a systemau 'Cadwyn Gofal'.

Mentrau yn Benodol i Sectorau

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.msc.org

Cyngor Stiwardiaeth y Môr

Mae'r MSC yn gorff byd-eang annibynnol heb fod ar gyfer elw a sefydlwyd i hyrwyddo pysgodfeydd cynaliadwy ac ymarferion pysgota cyfrifol. Sefydlwyd MSC ym 1997 fel menter ar y cyd rhwng WWF ac Unilever, prynwr mwyaf y byd o fwyd môr. Ym 1999 daeth MSC yn hollol annibynnol oddi wrth y ddau gorff ac ar hyn o bryd fe'i cyllidir gan amrediad o gyrff yn cynnwys sefydliadau elusennol a chwmnïau preifat.

O ran y cynllun, gall pysgodfeydd sydd wedi mabwysiadu ymarferion rheolaeth cyfrifol amgylcheddol ddefnyddio label glas amlwg ar gyfer eu cynnyrch. Mae'r ardystiad, a gynhelir gan gyrff ardystio achrededig annibynnol, yw wedi'i fwriadu i fod yr un mor ddilys ar gyfer pob math o bysgodfeydd, waeth beth fo' maint na'u lleoliad. Mae'r egwyddorion a'r meini prawf yn cynnwys pysgod ac ymlusgiaid y môr ond yn eithrio cynaeafu rhywogaethau môr eraill, diwylliant dŵr a physgodfeydd dŵr ffres. Diben y meini prawf yw sicrhau fod cynnyrch pysgod yn dod o ffynonellau wedi'u rheoli'n dda. Tra'u bod yn cynnwys rhai manylebau cymdeithasol ac economaidd, mae'r pwyslais ar hyfywdra'r ecosystem ag agweddau ecolegol. Mae tair egwyddor allweddol ar gyfer pysgota cynaliadwy yn arwain MSC: osgoi gorbysgota neu leihau poblogaethau sydd wedi'u camddefnyddio, cynnal strwythur, cynhyrchiant, swyddogaeth ac amrywiaeth cynefinoedd perthnasol a pharchu cyfreithiau a safonau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Datblygwyd y safon dros gyfnod o ddwy flynedd yn dilyn proses ymgynghori rhyngwladol gyda gwyddonwyr, arbenigwyr pysgodfeydd, cyrff amgylcheddol a phartïon eraill â diddordeb. Hyd yn hyn, yn dilyn cwblhau'r cyfnod profi yn ddiweddar, mae chwe phrosesydd a dosbarthwyr wedi eu hardystio ar gyfer label Cadwyn Gofal MSC.

Gofal Cyfrifol

Datblygwyd rhaglen Gofal Cyfrifol y diwydiant cemegol rhyngwladol i ddechrau yng Nghanada ym 1995 i ddelio â phryderon cyhoeddus am wneuthuriad, dosbarthiad a defnydd cemegolion. Mae'n fram waith a gydnabyddir yn rhyngwladol ar gyfer gwelliant amgylcheddol gwirfoddol, iechyd a diogelwch a weithredir ar hyn o bryd mewn 46 gwlad. Mae'r fenter yn ceisio meithrin mabwysiadu gwerthoedd corfforaethol sydd yn pwysleisio ymrwymiad hir dymor i iechyd a diogelwch cymunedol a galwedigaethol ac i amddiffyn yr amgylchedd.

Mae wyth nodwedd sylfaenol yn Gofal Cyfrifol yn cynnwys ymrwymiad ffurfiol ar ran pob cwmni sydd yn llofnodwr i set o Egwyddorion Arweiniol a lofnodwyd gan CEO. Mae'r ymrwymiad hwn yn cynnwys datblygu dangosyddion yn raddol er mwyn gallu mesur gwelliannau mewn perfformiad yn eu herbyn. Nodwedd craidd y fenter yw'r chwe Cod Rheolaeth.

Ymarferion yn delio â'r materion canlynol:

- Ymwybyddiaeth gymunedol ac ymateb brys
- Atal llygredd
- Diogelwch proses
- Dosbarthu
- Iechyd a diogelwch cyflogai
- Stiwardiaeth cynnyrch.

Anogir cwmnïau sydd yn mabwysiadu Gofal Cyfrifol i weithredu mesurau effeithiol i ymwneud â'u cymunedau cyfagos, yn cynnwys er enghraifft, trwy sefydlu pwyllgorau ymwybyddiaeth cymunedol ac ymateb brys (CAER). Ar lefel rhyngwladol mae ymdrechion ar y gweill i hyrwyddo mabwysiadu Gofal Cyfrifol mewn gwledydd newydd sydd yn cynhyrchu cemegolion yn sylweddol, yn ogystal â gwella'r proses sicrwydd gweithrediad sydd eisoes yn bodoli.

CYFEIRIAD GWEFAN DEFNYDDIOL

www.icca-chem.org

Mentrau yn Benodol i Sectorau

Mentrau Sectorau Busnes Eraill

Mae'r tair menter sectorau busnes a enwir yn y ddogfen hon yn cynrychioli sampl bychan o'r amrediad amrywiol o fentrau sector. Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys:

- Ymgyrch Cyfrifiadur Glân (**www.svtc.org**).
- Cloddio Mwynau a Datblygu Cynaliadwy (**www.iied.mmsd**).
- Menter Cynaladwyedd Sment WBCSD (**www.wbcsdcement.org**).

Mentrau Ariannol

Egwyddorion Equator

CYFEIRIAD GWEFAN DEFNYDDIOL

www.equator-principles.com

Mae Egwyddorion Equator yn set wirfoddol o ganllawiau i reoli materion cymdeithasol ac amgylcheddol yn ymwneud â chyllido projectau datblygu. Mabwysiadwyd yr egwyddorion i ddechrau ar 4 Mehefin 2003 gan ddeg o fanciau rhyngwladol amlwg o saith gwlad. Bydd y banciau yn cymhwyso'r egwyddorion yn fyd-eang i gyllido projectau yn yr holl sectorau diwydiannol, yn cynnwys cloddio, olew a nwy a choedwigaeth. Gwarantodd y banciau a fabwysiadodd yr Egwyddorion Equator gyntaf tua $14.5 biliwn o fenthyciadau project yn 2002, yn cynrychioli tua 30% o farchnad syndicetiad benthyciadau projectau yn fyd-eang.Y llofnodwyr gwreiddiol oedd ABN AMRO Bank, N.V., Barclays plc, Citigroup Inc., Credit Lyonnais, Credit Suisse Group, HVB Group, Rabobank, Royal Bank of Scotland, WestLB AG, a Westpac Banking Corporation.

Mae Egwyddorion Equator yn seiliedig ar bolisïau a chanllawiau Banc y Byd a Chorfforaeth Cyllid Rhyngwladol (IFC) ac fe'u cymhwysir gan y Banciau i'r holl fenthyciadau ar gyfer projectau gyda chost cyfalaf o $50 miliwn neu ragor. Wrth fabwysiadu'r Egwyddorion mae banc yn ymrwymo i ddarparu benthyciadau i'r projectau hynny yn unig y gall eu noddwyr ddangos eu gallu a'u parodrwydd i gydymffurfio â phrosesau cynhwysfawr wedi anelu at sicrhau fod projectau'n cael eu datblygu mewn dull cymdeithasol cyfrifol ac yn unol ag ymarferion rheolaeth amgylcheddol gadarn.

Mae'r Egwyddorion yn defnyddio proses sgrinio yn seiliedig ar fethodoleg sgrinio amgylcheddol a chymdeithasol IFC. Caiff projectau eu categoreiddio gan y banciau fel A, B neu C (risg amgylcheddol neu gymdeithasol uchel, canolig neu isel). Ar gyfer projectau A a B (risg uchel a chanolig) mae'n ofynnol i'r benthyciwr gwblhau Asesiad Amgylcheddol yn delio â'r materion amgylcheddol a chymdeithasol a nodir yn y broses o gategoreiddio. Ar ôl ymgynghori'n briodol gyda buddiolwyr lleol sy'n cael eu heffeithio, bydd projectau categori A a chategori B yn paratoi Cynlluniau Rheolaeth Amgylcheddol lle mae'n briodol a fydd yn delio â lleddfiad a monitro risgiau amgylcheddol a chymdeithasol.

Crëwyd Egwyddorion Equator mewn ymateb i feirniadaeth gan grwpiau pwyso amgylcheddol a chymdeithasol fod benthyciadau banc yn aml wedi cyfrannu at lygredd a thlodi'r byd sydd yn datblygu. Er bod rhai gweithredwyr wedi croesawu'r fenter gyda gofal, mae eraill wedi parhau'n amheus ynglŷn â'i weithrediad. Mae nifer o fanciau eraill wedi mynegi diddordeb mewn llofnodi'r Egwyddorion Equator a rhagwelir y daw'r canllawiau yn safon diwydiant.

Mentrau Ariannol

Egwyddorion Llundain

Mae *Egwyddorion Llundain o Gyllid Cynaliadwy* yn god gwirfoddol o saith Egwyddor sydd yn cynnig amodau y gall mecanweithiau'r farchnad ariannol hyrwyddo datblygu cynaliadwy yn y dull gorau. Mae'r Egwyddorion, a ddatblygwyd fel menter wirfoddol ar y cyd rhwng Corfforaeth Llundain a Llywodraeth y DU wedi'u bwriadu fel fframwaith i ganiatáu sefydliadau ariannol a llunwyr polisi i nodi lle mae angen arloesi yn y dyfodol er mwyn gwella'r modd y mae'r system ariannol yn gyfan yn cyllido datblygu cynaliadwy. Mae'r Egwyddorion yn gymwys i bob agwedd o ariannu ac nid buddsoddiad yn seiliedig ar werthoedd yn unig a chilfachau ariannol a bancio neilltuol. Ond, ni fydd yr holl Egwyddorion yn berthnasol i bob sefydliad ariannol.

Datblygwyd yr Egwyddorion gan y Ganolfan dros Fuddsoddi Cynaliadwy, menter Fforwm ar gyfer y Dyfodol sydd yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau ariannol prif ffrwd i gefnogi cyllido projectau a busnesau sydd yn hyrwyddo, neu nad ydynt yn niweidio, ffyniant economaidd, diogelwch yr amgylchedd a chyfiawnder cymdeithasol. Wrth ddatblygu'r Egwyddorion, cafodd bron i 50 o sefydliadau ariannol eu cyfweld yn fanwl; ategwyd hyn gan weithdy i 80 o gyfranogwyr eraill a thrwy gyflwyniadau ysgrifenedig.

Egwyddorion Llundain

Mae llofnodwyr i Egwyddorion Llundain yn cytuno, lle mae'n berthnasol i'r cynnyrch a chwmpas daearyddol eu busnes i:

Ffyniant Economaidd

- Egwyddor 1: Darparu mynediad i gyllid a chynnyrch rheolaeth risg ar gyfer buddsoddi, arloesi a'r defnydd mwyaf effeithiol o asedau sydd eisoes yn bodoli.
- Egwyddor 2: Hyrwyddo eglurder a safonau uchel llywodraethu corfforaethol ynddynt eu hunain ac yn y gweithgarwch a gyllidir.

Amddiffyn yr Amgylchedd

- Egwyddor 3: Adlewyrchu costau risgiau amgylcheddol a chymdeithasol wrth brisio cynnyrch ariannol a rheolaeth risg.
- Egwyddor 4: Ymarfer perchnogaeth deg i hyrwyddo defnydd asedau effeithiol a chynaliadwy.
- Egwyddor 5: Darparu mynediad i gyllid ar gyfer datblygu technolegau sydd yn fanteisiol i'r amgylchedd.

Datblygu Cymdeithasol

- Egwyddor 6: Ymarfer perchnogaeth deg i hyrwyddo safonau uchel o gyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol gan y gweithgareddau a gyllidir.
- Egwyddor 7: Darparu mynediad i gyllid marchnad a chynnyrch rheolaeth risg i fusnesau mewn cymunedau dan anfantais ac economïau sydd yn datblygu.

Mae Egwyddorion Llundain yn uchelgeisiol ac yn ceisio annog gwelliant parhaus. I wneud y broses yn eglur bydd llofnodwyr Egwyddorion Llundain yn adrodd yn flynyddol ar gynnydd tuag at eu gweithredu.

Mae Egwyddorion Llundain yn uchelgeisiol ac yn ceisio annog gwelliant parhaus. I wneud y broses yn eglur bydd llofnodwyr Egwyddorion Llundain yn adrodd yn flynyddol ar gynnydd tuag at eu gweithredu.

Mynegai Cynaladwyedd Dow Jones

Wedi'u lansio ym 1999, Mynegai Cynaladwyedd Dow Jones (DJSI) oedd y mynegai byd-eang cyntaf i olrhain perfformiad ariannol y cwmnïau mawr sy'n cael eu gyrru gan gynaladwyedd ledled y byd. Yn seiliedig ar gydweithrediad Mynegai Dow Jones mae STOXX Limited a Rheolaeth Asedau Cynaladwyedd (SAM) mae'r DJSI yn ceisio darparu rheolwyr asedau gyda meincnodau dibynadwy a gwrthrychol i reoli portffolio cynaladwyedd.

Mae teulu DJSI yn dilyn ymagwedd gorau yn y dosbarth yn cynnwys arweinwyr cynaladwyedd yn y byd buddsoddiadwy o bob diwydiant. Wedi'u categoreiddio i 60 grŵp diwydiant, mae cwmnïau'n cael eu hasesu yn unol â meini prawf cyffredinol a phenodol i ddiwydiant. Yna cant eu cymharu yn erbyn eu cymheiriaid a'u graddio yn unol â hynny, gan gynnwys y cwmnïau sydd ar y blaen yn y DJSI. Mae byd stociau buddsoddiadwy Byd DJSI yn cynnwys 2,500 o'r cwmnïau cyfalaf mwyaf yn Mynegai Byd-Eang Dow Jones. Caiff teulu DJSI ei adolygu yn flynyddol. Unwaith y caiff y cydrannau eu dethol, cant eu monitro yn barhaus trwy gydol y flwyddyn i ddilysu cyfraniad yn, a rheolaeth meysydd hanfodol.

Mae teulu DJSI yn seiliedig ar broses asesu cynaladwyedd trylwyr a gynhelir gan SAM ac mae'n cynnwys meini prawf economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. Mae'r ymchwil yn dechrau trwy ddiffinio tueddiadau cynaladwyedd y mae SAM yn eu gweld fel rhai ag effaith cynyddol ar lwyddiant hir dymor cwmnïau.

Mentrau Ariannol

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.sustainability-index.com

Yn seiliedig ar y ddealltwriaeth hon o ddatblygiadau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol yn y dyfodol, mae'r dehonglwyr yn datblygu set o feini prawf cyffredinol a phenodol i ddiwydiant i asesu cwmnïau. Yna mae'r cwmnïau sydd wedi'u dadansoddi yn cael sgôr cynaladwyedd a chant eu graddio yn unol â'u grŵp diwydiant. Mae'r meini prawf yn cynnwys materion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol gyda ffocws clir ar greu gwerth buddiolwyr hir dymor. (Mae rhestr gyflawn o'r meini prawf cyffredinol yn cynnwys eu pwysedd ar gael ar dudalen cartref DJSI).

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.ftse.com/ftse4good

FTSE4Good

Lansiwyd Cyfres Mynegai FTSE4Good ym mis Gorffennaf 2001 fel offeryn ar gyfer buddsoddwyr oedd â diddordeb mewn buddsoddiadau cymdeithasol cyfrifol. Ers ei lansio mae dros 250 o gwmnïau wedi dod ar y mynegai, mewn llawer achos, wedi gorfod addasu eu hymarferion i wneud hynny. Mae meini prawf dethol a methodoleg ar gyfer FTSE4Good yn seiliedig ar themâu cyffredin o ddeg set o egwyddorion datganedig. Caiff athroniaeth FTSE4Good a'i feini prawf cynnwys eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddaru trwy broses ymgynghori marchnad eang. I fod yn gymwys i'w cynnwys rhaid i gwmnïau yn y byd cychwyn ddiwallu safonau penodedig mewn tri maes: cynaladwyedd amgylcheddol, hawliau dynol byd-eang a datblygu cysylltiadau cadarnhaol gyda buddiolwyr. Mae'r mynegai yn eithrio cwmnïau'n ymwneud â'r diwydiannau tybaco, arfau ac ynni niwclear.

Mentrau Penodol i Themâu Amrywiol

Menter Masnach Moesegol

Mae'r Fenter Masnach Moesegol (ETI) yn gynghrair o gwmnïau, cyrff anllywodraethol a chyrff undebau llafur sydd wedi ymrwymo i gydweithio i nodi a hyrwyddo masnach foesegol. Maent yn canolbwyntio eu gweithgarwch ar greu ymarfer da trwy weithredu cod ymddygiad yn ymwneud â hyrwyddo hawliau gweithwyr a hawliau dynol yn gyffredinol. Mae'r meysydd ffocws neilltuol yn cynnwys llafur plant, llafur gorfodol, gweithdai cyflog isel, iechyd a diogelwch a hawliau llafur. Mae'r ETI yn bodoli yn bennaf i rannu profiad a hyrwyddo dysgu am weithredu safonau llafur rhyngwladol mewn cadwyni cyflenwi rhyngwladol. Nid yw'n asiantaeth achredu ac nid yw'n cynnal archwiliadau allanol.

Mae holl aelodau ETI yn ymrwymo i fabwysiadu'r safonau sydd yn Côd Sylfaen ETI, nail ai trwy fabwysiadu'r Côd air am air neu trwy ymgorffori'r safonau perthnasol i'w codau eu hunain. Mae'r Côd Sylfaenol a ddatblygwyd gan y cwmnïau sylfaen, undebau llafur a chyrff anllywodraethol yn cynnwys safonau rhyngwladol yn deillio o gytundebau craidd y Corff Llafur Rhyngwladol.

Menter Eglurder Diwydiannau Cloddiol

Cyhoeddwyd y Fenter Eglurder Diwydiannau Cloddiol (EITI) gan Brif Weinidog y DU, Tony Blair yng Nghynhadledd y Byd ar Ddatblygu Cynaliadwy yn Johannesburg, Medi 2002, gyda'r nod o gynyddu eglurder dros daliadau gan gwmnïau yn y diwydiannau cloddiol i lywodraethau a chyrff yn gysylltiedig â llywodraethau yn ogystal ag eglurder mewn perthynas â refeniw gan lywodraethau gwledydd sy'n eu cartrefu. Mae'r fenter hon wedi'i gyrru gan bryder y gall y diffyg atebolrwydd ac eglurder mewn refeniw o gwmnïau olew, nwy a chloddio waethygu llywodraethu gwael ac arwain at lygredd, gwrthdaro a thlodi. Gobeithio y bydd cynnydd mewn eglurder a gwybodaeth am refeniw yn galluogi dinasyddion a sefydliadau i ddal llywodraethau i gyfrif, a'i gwneud yn anos dargyfeirio cyllid oddi wrth ddibenion datblygu cynaliadwy.

CYFEIRIAD GWEFAN DEFNYDDIOL

www.ethicaltrade.org

Mentrau yn Benodol i Themâu Amrywiol

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.dfid.gov.uk

Mae'r fenter, dan arweiniad Adran Datblygu Rhyngwladol y DU (DFID) yn cael ei datblygu trwy bartneriaeth aml-fuddiolwyr yn cynnwys cwmnïau wedi'u masnachu'n gyhoeddus, preifat a rhai'n berchen i wladwriaethau, llywodraethau, cyrff anllywodraethol ac asiantaethau rhyngwladol yn cynnwys y CU, OECD, a Banc y Byd. Ym mis Mehefin 2003 cynhaliodd DFID Gynhadledd EITI yn Llundain gyda'r nod o gytuno ar Ddatganiad o Egwyddorion a Gweithrediadau Cytun i gynyddu eglurder trwy ddatgelu taliadau cwmnïau a refeniw llywodraethau yn rheolaidd. Mae trafodaethau ar y fenter yn parhau gyda'r nod o fireinio'r canllawiau adrodd arfaethedig a dylunio trefniadau ar gyfer cymorth technegol.

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.ghgprotocol.org

Menter Protocol Nwy Tŷ Gwydr

Mae'r Fenter Protocol Nwy Tŷ Gwydr (Protocol GHG) wedi sefydlu ers 1998 fel partneriaeth rhwng Cyngor Busnes y Byd dros Ddatblygu Cynaliadwy a Sefydliad Adnoddau'r Byd i ddatblygu safonau cyfrifo ac adrodd sydd yn dderbyniol yn rhyngwladol ar gyfer allyriadau nwy tŷ gwydr gan gwmnïau. Daw Protocol GHC ag arbenigwyr amlwg ar allyriadau nwy tŷ gwydr ynghyd i ddatblygu'r safonau hyn.

Mae Protocol GHG wedi rhannu datblygiad y safonau yn ddwy gydran:

- Cyfrifo ac Adrodd GHG corfforaethol: Modiwl Rhestr Corfforaethol – mae'r gydran hon yn datblygu canllaw cam wrth gam i gwmnïau rhoi cyfrif am ac adrodd ar eu hallyriadau GHG.
- Cyfrifo ac Adrodd GHG Project – mae'r gydran hon yn datblygu canllaw ar gyfer cyfrifo ac adrodd ar allyriadau o brosiectau a ddatblygir i wrthbwyso allyriadau GHG.

Sefydliadau ar gyfer Datblygu Cynaliadwy

Cyrff Busnes

Cyngor Busnes y Byd ar gyfer Datblygu Cynaliadwy

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.wbcsd.ch

Sefydlwyd Cyngor Busnes y Byd ar gyfer Datblygu Cynaliadwy ('y Cyngor') ym 1991 i hyrwyddo a chydlynu cyfranogiad busnes yng Nghynhadledd y Ddaear Rio. Ers hynny mae wedi tyfu i ddod yn gynghrair o dros 170 o gwmnïau o dros 35 gwlad a 20 sector diwydiannol mawr gyda'r nod o feithrin arweinyddiaeth busnes fel catalydd ar gyfer newid tuag at ddatblygu cynaliadwy. Gyda'i Ysgrifenyddiaeth yng Ngenefa mae gan Y Cyngor rwydwaith byd-eang 0 45 o gynghorau busnes a chyrff sydd yn bartneriaid cenedlaethol a rhanbarthol mewn 40 o wledydd, yn cynnwys dros 1,000 o arweinwyr busnes ledled y byd. Mae ei aelodau'n cynnwys rhai o gwmnïau mwyaf y byd fel AOl Time Warner, AT & T, Bayer, BP, Coca-Cola, Dow Chemical a Shell.

Mae Cyngor Busnes y Byd ar gyfer Datblygu Cynaliadwy yn ceisio bod yn eiriolydd busnes arweiniol ar faterion yn gysylltiedig â datblygu cynaliadwy. Mae'n cymryd rhan mewn datblygu polisi gyda'r nod o 'greu fframwaith sydd yn caniatáu i fusnesau gyfrannu'n effeithiol at ddatblygu cynaliadwy', ac mae'n ceisio dangos cynnydd busnes mewn cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol trwy rannu ymarferion blaengar ymysg ei aelodau.

Mae'r Cyngor yn cynnal cyfres o brosiectau penodol i sectorau sydd yn defnyddio ymchwil annibynnol a phroses ymgynghori gyda buddiolwyr gyda'r nod o adnabod sut y gall y sector gyflunio ei ymarferion a'i bolisïau gyda gofynion datblygu cynaliadwy. Mae projectau cyfredol yn canolbwyntio ar y diwydiant sment. Cyfleustodau trydan, diwydiant cynnyrch coedwigoedd, cloddio a mwynau a'r sector trafnidiaeth. Mae'r Cyngor hefyd yn gweinyddu nifer o brosiectau'n benodol i themâu. Mae'r rhain yn canolbwyntio at atebolrwydd ac adrodd, eiriolaeth a chyfathrebu, adeiladu gallu, ynni a hinsawdd, y sector ariannol, bywydau cynaliadwy a dŵr. Yn fwy diweddar mae Cyngor Busnes y Byd ar Ddatblygu Cynaliadwy wedi cyflwyno cyfres o themâu traws bynciol, gan olrhain cynnydd ar fentrau blaenorol ac ymateb i bynciau sydd yn dod i'r wyneb. Mae'r rhain yn cynnwys pynciau yn ymwneud ag eco-efeithlonrwydd, arloesi a thechnoleg, cyfrifoldeb cymdeithaso corfforaethol, ecosystemau, cynaladwyedd a marchnadoedd a risg. Mae gan y Cyngor wefan gynhwysfawr yn cynnwys y newyddion diweddaraf yn berthynol i fusnes a datblygu cynaliadwy.

Cyrff Busnes

Cynghorau Busnes Rhanbarthol ar gyfer Datblygu Cynaliadwy

Mae Rhwydwaith Rhanbarthol Cyngor Busnes y Byd ar gyfer Datblygu Cynaliadwy yn gydffederasiwn anffurfiol o dros 40 o gyrff annibynnol. Mae'r Cyngor Busnes ar gyfer Datblygu Cynaliadwy rhanbarthol a chyrff sydd yn bartneriaid, yn ymestyn o Ewrop, Affrica a'r Americas i Asia ac Ynysoedd y De yn unedig yn eu cyd ymrwymiad i ddarparu arweinyddiaeth busnes ar gyfer datblygu cynaliadwy yn eu gwledydd neu ranbarthau eu hunain.

Yn ogystal â chymryd rhan yn weithredol yn rhaglenni a mentrau'r Cyngor, mae aelodau'r Rhwydwaith Rhanbarthol yn elwa oddi wrth gydweithredu gyda'i gilydd ac o fod yn gysylltiedig â chorff rhyngwladol blaenllaw. Mae aelodaeth yn eu galluogi i gadw mewn cysylltiad â'r meddwl a'r ymarfer gorau diweddaraf ar reolaeth economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol mewn diwydiant ac yn cynnig mynediad i chwaraewyr rhyngwladol allweddol a llwyfannau datblygu cynaliadwy.

Ar yr un pryd, mae'r Rhwydwaith Rhanbarthol yn gyfrwng i'r Cyngor ymestyn allan at nifer o fentrau bach a chanolig (MBC) ledled y byd. Mae hefyd yn darparu llwyfan i weithredu polisïau a chysyniadau datblygu cynaliadwy, yn enwedig yn y byd sydd yn datblygu ac mae'n rhoi persbectifau lleol a rhanbarthol gwerthfawr i'r Cyngor ar bryderon yr economïau sydd yn datblygu.

CYFEIRIAD GWEFAN DEFNYDDIOL

www.arenanetwork.org/index.asp

Yng Nghymru: Rhwydwaith ARENA

Mae Rhwydwaith ARENA wedi bod yn un o'r prif gyrff cefnogi busnes amgylcheddol yn gweithio yng Nghymru am dros ddegawd. Mae'n gorff annibynnol Cymru gyfan sydd yn canolbwyntio'n bennaf ar faterion rheolaeth a hyfforddiant amgylcheddol, codi ymwybyddiaeth amgylcheddol, hyrwyddo ymarfer gorau a chefnogi datblygu cynaliadwy mewn busnes. Mae'n gweithredu ar sail heb fod ar gyfer elw, ac mae hefyd yn cynnig aelodaeth i fusnesau ledled Cymru, ar hyn o bryd yn cefnogi tua 800 o aelodau. Mae ARENA yn gweithio mewn partneriaeth gyda Groundwork Cymru ac Awdurdod Datblygu Cymru i gefnogi tîm Cymru gyfan o Gydlynwyr Amgylcheddol Busnes sydd yn gyfrifol am weithredu fel pwyntiau cyswllt ledled Cymru rhwng busnesau a darparwyr cefnogi busnes amgylcheddol.

Rheolir ei waith o swyddfeydd yn y Drenewydd, Abertawe, Trefforest a Wrecsam. Ei rôl yw galluogi busnesau (a chyrff eraill) i ymateb yn effeithiol i'r pwysau am newid a osodir gan fuddiolwyr allweddol fel cwsmeriaid, llywodraeth, rheoleiddwyr a'r gymuned ehangach. Gwna hyn trwy gydnabod fod rheolaeth amgylcheddol yn broses gwelliant parhaus ac mae wedi ceisio adeiladu cysylltiadau busnes hir dymor gyda busnesau. Mae'r rhan fwyaf o'u gwaith yn cynorthwyo busnesau yng Nghymru i reoli materion amgylcheddol. Ond, roedd y project 'Hyder mewn Dysgu' a gwblhawyd yn 2005 yn adlewyrchu pwysigrwydd datblygu pobl fel pwnc busnes allweddol yn yr 21ain ganrif. Wrth i'r thema ehangach o 'gynaladwyedd' dyfu mewn pwysigrwydd disgwylir i bortffolio ARENA amrywio ymhellach. Mae Rhwydwaith ARENA hefyd yn rheoli'r Wobr Amgylchedd Cymru fawreddog. Dyma un o'r cyfleoedd busnes ac amgylcheddol allweddol yng Nghymru ac fe'i cydnabu felly yn Uwchgynhadledd y Byd yn Johannesburg yn 2001.

Yng Nghymru: Cylch

Rhwydwaith Ailgylchu Cymunedol Cymru yw Cylch. Mae'n gorff ambarél a ffurfiwyd ym 1997 i hyrwyddo rheolaeth adnoddau cynaliadwy trwy addysg a gweithredu ymarferol yng Nghymru. Mae'n derbyn arian craidd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac fe'i cefnogir gan incwm ychwanegol a enillir, cynt trwy Gronfa Cleanstream® (bellach wedi cau) ac ar hyn o bryd trwy'r Cynllun Ailgylchu Strategol. Ei amcanion yw datblygu'r rhwydwaith cenedlaethol o gyrff ailgylchu cenedlaethol, darparu cefnogaeth o ansawdd i'w aelodau, gosod y sector ailgylchu cymunedol fel partner hanfodol mewn rheolaeth amgylcheddol yng Nghymru yn y dyfodol a sefydlu ei hun fel Menter Gymdeithasol ragorol.

CYFEIRIAD GWEFAN DEFNYDDIOL

www.cylch.org/index2.html

Mae'n cefnogi ac yn hyrwyddo mentrau rheolaeth adnoddau cynaliadwy wedi'u harwain gan bartneriaid, cymunedol fel yr atebion ymarferol ac effeithiol i broblemau gwastraff Cymru. Mae'n ystyried deunydd gwastraff fel adnoddau gwerthfawr sydd os cant eu rheoli'n effeithiol, yn creu manteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd i unigolion a'r cymunedau y maent yn byw ynddynt. Mae'n cynnig amrediad o wasanaethau i'w aelodau gan ddarparu gwybodaeth, adnoddau, cynrychiolaeth, eiriolaeth, hyfforddiant, digwyddiadau, cefnogaeth a chyngor (cyffredinol a chyllido), cyfranogiad project ac arbenigedd cysylltiadau cyhoeddus/marchnata.

Cyrff Busnes

Mae'n gweithio gyda nifer o bartneriaid allweddol yng Nghymru i gyflwyno ei raglenni yn cynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Cyswllt Amgylchedd Cymru ac Ymddiriedolaeth Adfywio Meysydd Glo.

Mae rhai o'i raglenni amgylchedd allweddol ar raddfa fawr yn gweithio'n llwyddiannus iawn tuag at reolaeth gwastraff ac adnoddau cynaliadwy yng Nghymru ac o'r rhain ystyrir y projectau Cleanstream a High Diverson Exemplar yn neilltuol o effeithiol.

CYFEIRIAD GWEFAN DEFNYDDIOL

www.bsr.org

Busnes ar gyfer Cyfrifoldeb Cymdeithasol

Mae Busnes ar gyfer Cyfrifoldeb Cymdeithasol (BCC) yn gorff byd-eang heb fod ar gyfer elw wedi'i leoli yn UDA sydd yn helpu cwmnïau i gyflawni llwyddiant masnachol mewn modd sydd yn parchu gwerthoedd moesegol, cymunedau a'r amgylchedd. Mae'n darparu gwybodaeth, offer, hyfforddiant a gwasanaethau cynghori i wneud cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol yn rhan annatod o weithrediadau a strategaethau busnes. Yn 2001 ymgorfforodd BCC Net Impact, rhwydwaith o MBAs a phobl broffesiynol wedi ymrwymo i ddefnyddio pŵer busnes i greu gwell byd. Trwy'r corff canolog a dros 75 o benodau myfyrwyr a phroffesiynol ledled y byd, mae Net Impact yn cynnig portffolio o raglenni i helpu aelodau ehangu eu haddysg busnes, mireinio eu sgiliau arwain a dilyn eu nodau proffesiynol, wrth adeiladu eu rhwydwaith.

CYFEIRIAD GWEFAN DEFNYDDIOL

www.iblf.org

Fforwm Arweinwyr Busnes Rhyngwladol

Mae Fforwm Arweinwyr Busnes Rhyngwladol yn elusen addysgol ryngwladol a sefydlwyd ym 1990 i hyrwyddo ymarferion busnes cyfrifol gyda'r nod o gyflawni datblygu cynaliadwy cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, yn enwedig ymysg economïau marchnad newydd. Mae'r Fforwm wedi datblygu amrywiol bartneriaethau daearyddol a rhai'n seiliedig ar bynciau i weithredu ar faterion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ac mae'n ceisio creu amgylchedd i alluogi'r partneriaethau hyn i ffynnu. Mae'r fforwm wedi datblygu ffocws pedwar pwynt: Eiriolaeth dros yr achos am gyfrifoldeb cymdeithasol busnes a phartneriaeth; Broceriaeth partneriaid; Adeiladu gallu mewn hyfforddi rheolwyr a phartneriaid ar gyfer arwain a gweithredu; a Lledaenu syniadau ac ymarferion da.

Mae aelodaeth y Fforwm yn cynnwys dros 65 o gwmnïau cydwladol blaenllaw'r byd, yn cynrychioli amrediad eang o sectorau busnes a rhanbarthau daearyddol, gyda'r llinyn cyffredin fod ganddynt i gyd fuddiannau cryf mewn economïau sy'n datblygu neu yn newid. Ystyrir y cwmnïau yn arweinwyr yn eu sectorau, yn ogystal ag ym meysydd cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol, buddsoddi cymdeithasol corfforaethol, ymgynghori gyda buddiolwyr a phartneriaethau. Mae cwmnïau yn ymuno i ddechrau am dair blynedd ac yn ymrwymo i 'welliant parhaus' y eu hymarferion busnes a deialog gyda buddiolwyr. Mae'r rhan fwyaf wedi ymgymryd i wneud cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol yn rhan strategol o weithrediadau cwmni mewn gwahanol ardaloedd yn y byd.

CSR Ewrop

Mae CSR Ewrop yn gorff heb fod ar gyfer elw gyda'r genhadaeth o 'helpu cwmnïau i gyflawni elw, twf cynaliadwy a chynnydd dynol trwy osod cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol ym mhrif ffrwd ymarfer busnes.' Sefydlwyd y corff, a enwyd i ddechrau yn Rhwydwaith Busnes Ewropeaidd ar gyfer Cydlyniad Cymdeithasol, ym mis Ionawr 1996, fel menter wirfoddol gan y sector corfforaethol. Mae CSR Ewrop yn ceisio argyhoeddi rheolwyr am fanteision ymarfer busnes cymdeithasol cyfrifol trwy ddarparu dros 500,000 o bobl a phartneriaid busnes gyda chyhoeddiadau print ac ar-lein, ymarferion gorau ac offer, a thrwy gynnig cyfleoedd dysgu, meincnodi ac adeiladu gallu. Gyda 65 o aelodau cwmni a 18 corff cenedlaethol sy'n bartneriaid, maent wedi dod yn gyfeirbwynt Ewropeaidd sylweddol ar strategaethau ac ymarferion cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol i gwmnïau.

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.csreurope.org

Rhwydwaith Glasu Diwydiant

Sefydlwyd Rhwydwaith Glasu Diwydiant ym 1991, sef cymdeithas ryngwladol ymchwilwyr, arweinwyr busnes, gweithredwyr a llunwyr polisi i adeiladu dyfodol cynaliadwy. Gyda swyddfeydd yn yr Iseldiroedd, Gwlad Tai a'r Unol Daleithiau mae'n cynnwys cyfranogwyr o dros 50 o wledydd i ymateb i'r her o ddatblygu cynaliadwy. Trwy gynadleddau cyswllt, cyhoeddiadau a chyfathrebiadau mae'r Rhwydwaith yn creu cysylltiadau newydd, gweledigaethau ac ymarferion ar gyfer cynaladwyedd. Nod y rhwydwaith yw datblygu gwybodaeth a throsglwyddo ymarfer i gyflymu'r cynnydd tuag at gymdeithas gynaliadwy.

Cyrff Busnes

Gwna hyn trwy ddefnyddio ymchwilwyr cymunedol i annog maes ymchwil strategol newydd ar lasu diwydiant; creu deialog rhwng y gymuned ymchwil newydd hon ac arweinwyr mewn cyrff busnes, llafur a chymdeithas ddinesig, llywodraeth; a thrwy ddarparu cyfle i bob buddiolwr, gyda llais cyfartal, i ddatblygu ymchwil ac agenda gweithredu ar bynciau diwydiant, amgylchedd a chymdeithas.

Mae'r Rhwydwaith Glasu Diwydiant yn annog, cydlynu a chysylltu ymchwil o ansawdd uchel i bolisïau, strategaethau a gweithrediadau mewn ffyrdd sydd yn cyfrannu at gymdeithas fwy cynaliadwy. Trwy sawl arena mae'n darparu fforwm agored ar gyfer trafodaeth greadigol i gynnwys ymchwilwyr, busnes, gweithwyr, llywodraeth, defnyddwyr ac actorion eraill i ddatblygu cyd ddealltwriaeth o'r newidiadau angenrheidiol i greu dyfodol mwy cynaliadwy. Un arena allweddol yw'r Gynhadledd Glasu Diwydiant rhyngwladol flynyddol. Cynhelir hon am y tro cyntaf yn y DU ym mis Gorffennaf 2006 dan ofal Prifysgol Caerdydd trwy Ganolfan ESRC BRASS.

Cyrff Anllywodraethol a Chyrff Cymdeithasau Dinesig

Dadl Cynaladwyedd

Mae datblygu cynaliadwy yn broses ddeinamig sydd yn galluogi pobl i wireddu eu potensial a gwella ansawdd eu bywydau mewn ffyrdd sydd ar yr un pryd yn diogelu a gwella systemau cynnal bywyd y Ddaear. Rhain fodd bynnag yw prif begynau tensiwn. Mae anghyfiawnder cymdeithasol, y gwahaniaeth materol sydd yn cyd-fynd â hynny yn ogystal â'r cwestiwn pam y dylai ystyriaeth o natur ddod o flaen lles dynol ryw wrth galon y ddadl datblygu cynaliadwy.

Cynaladwyedd ecolegol yw rhan syml y cysyniad o ddatblygu cynaliadwy. Tra bod cryn ddadlau am le'n union y mae'r terfynau, mae cytundeb cyffredinol fod rhaid i ni ddysgu cydfyw o fewn gallu natur.

Ffocws Busnes

Golwg Gorfforaethol

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.corporatewatch.org

Grŵp ymchwil a chyhoeddi heb fod ar gyfer elw yw Golwg Corfforaethol sydd yn cynnal ymchwil ar effaith gymdeithasol ac amgylcheddol corfforaethau mawr, yn enwedig y rhai rhyngwladol. Nod Gofal Corfforaethol yw dangos y mecanweithiau y mae'r corfforaethau yn eu defnyddio i weithredu ac effeithiau niweidiol hynny ar gymdeithas a'r amgylchedd, fel canlyniad anorfod eu strwythur cyfreithiol cyfredol.

Mae Golwg Gorfforaethol yn ceisio creu cymdeithas sydd yn ecolegol gynaliadwy, yn ddemocrataidd, yn gyfiawn heb fod yn manteisio. Gall cynnydd tuag at gymdeithas o'r fath yn rhannol gael ei gyflawni trwy ddatgymalu pŵer economaidd a gwleidyddol enfawr corfforaethau a datblygu dewisiadau ecolegol a chymdeithasol cyfiawn i'r system economaidd bresennol.

Cydffederasiwn Rhyngwladol Undebau Llafur Rhydd

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.icftu.org

Sefydlwyd Cydffederasiwn Rhyngwladol Undebau Llafur Annibynnol (ICFTU) ym 1949 ac mae iddo 233 o gyrff yn aelodau ohono mewn 154 gwlad. Mae ICFTU yn trefnu ac yn cyfarwyddo ymgyrchoedd ar bynciau fel:

- Hawl ac amddiffyniad hawliau undebau llafur a gweithwyr
- Dileu llafur plant a llafur gorfodol plant
- Hyrwyddo hawliau cyfartal i fenywod sy'n gweithio
- Yr amgylchedd

Cyrff Anllywodraethol a Chyrff Cymdeithasau Dinesig

- Rhaglenni addysg i aelodau undebau llafur ledled y byd
- Annog trefniadaeth gweithwyr ifanc
- Anfon cenhadaeth i ymchwilio i sefyllfa undebau llafur mewn sawl gwlad.

Mae gan ICFTU dri chorff rhanbarthol mawr, ICFTU Asia a Chorff Rhanbarthol y Pasiffig (APRO) ar gyfer Asia a'r Pasiffig, ICFTU Corff Rhanbarthol Affrica (AFRO) ar gyfer Affrica ac ICFTU Corff Gweithwyr Rhanbarthol Rhyng Americanaidd (ORIT) ar gyfer gwledydd yr America. Mae hefyd yn cynnal cysylltiadau agos gyda Chydffederasiwn Undebau Llafur Ewropeaidd (ETUC) (sydd yn cynnwys holl aelodau Ewropeaidd ICFTU) a Ffederasiynau Undebau Byd-eang, sydd yn cysylltu undebau cenedlaethol o fasnach neu ddiwydiant neilltuol ar lefel rhyngwladol.

CYFEIRIAD GWEFAN DEFNYDDIOL

www.envirowise.gov.uk

Envirowise

Lansiwyd Envirowise ym 1994. Dyluniwyd y rhaglen yn benodol i annog rhannu ymarfer gorau ar draws diwydiant y DU, gan helpu busnesau i roi hwb i gystadleugarwch trwy well perfformiad amgylcheddol a defnydd mwy effeithiol o adnoddau. Mae Envirowise yn helpu busnesau i fabwysiadu ymagwedd amgylcheddol mewn cydymffurfiad â'r ddeddfwriaeth. Mae cyngor a gwybodaeth am ddim gan Envirowise yn arfogi busnesau gyda man cychwyn ar gyfer trin a chael gwared ar achos effaith amgylcheddol. Mae Envirowise hefyd yn darparu gwybodaeth am ddim trwy adnoddau ar y we, yn cynnwys offeryn rhyngrwyd i helpu busnesau i adnabod deddfwriaeth amgylcheddol allweddol sydd yn effeithio arnynt. Mae hefyd yn helpu busnesau i ddeall y dewisiadau ar gyfer cydymffurfiad.

Caiff Envirowise yng Nghymru ei gyllido gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae Envirowise yn cynnig cyngor a chefnogaeth am ddim, annibynnol, cyfrinachol i fusnesau Cymreig ar ddulliau ymarferol o gynyddu elw, lleihau gwastraff a gostwng effaith amgylcheddol.

CYFEIRIAD GWEFAN DEFNYDDIOL

www.bitc.org.uk

Busnes yn y Gymuned (BITC)

Mae Busnes yn y Gymuned yn fudiad yn y DU gyda 700 o gwmnïau'n aelod ohono. Diben BITC yw ysbrydoli, herio, cynnwys a chefnogi busnes i wella ei effaith gadarnhaol ar gymdeithas yn barhaus. Mae BITC Cymru yn gweithredu mewn partneriaeth gyda dros 300 o gwmnïau i hyrwyddo a chefnogi mentrau adfywio cymdeithasol ac economaidd ledled Cymru. Mae BITC Cymru yn darparu cyngor, cyfleoedd rhwydweithio ac arweinyddiaeth i fusnes fel eu bod yn ymrwymo i ymarfer

busnes cyfrifol (cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol) a chynyddu eu heffaith a'u cyfraniad i gymdeithas yng Nghymru.

Mae Gwasanaeth Ymgynghorol BTIC Cymru yn darparu cefnogaeth broffesiynol i fusnesau i lunio polisïau, ymarferion ac effaith cyfrifoldeb corfforaethol. Mae BTIC Cymru hefyd yn rhedeg sawl menter allweddol ar draws y sbectrwm eang o'r agenda ar gyfer cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol.

Eraill

Mae amrywiol gyrff anllywodraethol a chymdeithas ddinesig yn cynnig cymorth i fusnesau; mae rhai enghreifftiau yn cynnwys:

Ymateb i Newid Hinsawdd (RTCC)

Mae RTCC yn gorff anllywodraethol ac yn arsyllwr swyddogol i drafodaethau Newid Hinsawdd y CU, sydd yn datblygu cynnyrch a sianeli gwybodaeth fel bod busnesau, llywodraeth a chyrff anllywodraethol yn gallu dysgu rhagor am fygythiad newid hinsawdd/cynhesu byd-eang yr amgylchedd a ffurfio'r ymateb mwyaf priodol. Un o brif swyddogaethau RTCC yw helpu i brofi achos busnes y sector preifat dros gymryd rhan mewn ymatebion newid hinsawdd a chefnogi mentrau partneriaeth rhwng y sectorau preifat, llywodraeth a chyrff anllywodraethol.

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.rtcc.org

Ffocws Amgylcheddol

Cyfeillion y Ddaear Rhyngwladol

Mae Cyfeillion y Ddaear Rhyngwladol yn ffederasiwn o gyrff amgylcheddol hunanlywodraethol ledled y byd. Mae eu haelodau, mewn 70 gwlad, yn ymgyrchu ar faterion amgylcheddol a chymdeithasol mwyaf taer ein dydd, ac ar yr un pryd, yn creu symudiad tuag at gymdeithasau cynaliadwy. Sefydlwyd Cyfeillion y Ddaear Rhyngwladol ym 1971 gan bedwar mudiad o Ffrainc, Sweden, Lloegr a'r Unol Daleithiau.

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.foei.org

Mae Cyfeillion y Ddaear Rhyngwladol yn ceisio cyflawni hyn trwy weithio o lefel leol i lefel byd-eang gan edrych am ddewisiadau amgen credadwy yn seiliedig ar ymchwil. Sefydlwyd Cyfeillion y Ddaear Cymru ym 1984 i ymgyrchu yng Nghymru yn benodol ar faterion amgylcheddol. Maent wedi ymrwymo i amddiffyn yr amgylchedd a hyrwyddo dyfodol cynaliadwy i Gymru. Mae gan Cyfeillion y Ddaear Cymru bump prif faes ymgyrchu:

- Ymladd newid hinsawdd a chynhesu byd-eang; hyrwyddo ynni gwyrdd a gwrthwynebu ynni niwclear.

Cyrff Anllywodraethol a Chyrff Cymdeithasau Dinesig

- Hyrwyddo system drafnidiaeth deg, gynaliadwy a chynhwysol; ymladd adeiladu ffyrdd a newid hinsawdd.
- Hyrwyddo lleihau gwastraff, ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio, ymladd cymdeithas wastraffus, tirlenwi a llosgi.
- Ymgyrchu am fwyd a ffermio go iawn ac amgylchedd Cymreig yn rhydd o GM.
- Ymgyrchu am system gynllunio well, teg ac agored.

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.greenpeace.org/international

Greenpeace Rhyngwladol

Mae Greenpeace yn fudiad annibynnol heb fod ar gyfer elw byd-eang sydd yn defnyddio gwrthdaro creadigol i amlygu problemau amgylcheddol byd-eang a'r rhesymau drostynt. Mae Greenpeace wedi bod yn ymgyrchu yn erbyn diraddio amgylcheddol ers 1971. Mae Greenpeace yn trefnu ymgyrchoedd cyhoeddus dros:

- Amddiffyn moroedd a choedwigoedd hynafol
- Diwedd tanwydd ffosil a hyrwyddo ynni adnewyddol er mwyn atal newid hinsawdd
- dileu cemegolion gwenwynig
- yn erbyn rhyddhau organebau wedi'u haddasu'n enetig i natur
- diarfogi niwclear a therfyn ar ddifwyniad niwclear.

Mae Greenpeace yn ymgyrchu o gwmpas ardal De Cymru gyda rhwydweithiau o gwmpas Caerdydd, Abertawe a Chaerfyrddin. Mae'r rhwydwaith ar hyn o bryd yn ymwneud ag ymgyrch GM Greenpeace ac wedi annog aelodau o'r cyhoedd i weithredu yn erbyn GM mewn llaeth a chynnyrch llaeth. Maent yn weithredol yng Nghaerdydd yn erbyn archfarchnadoedd sydd yn gwerthu llaeth GM.

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.rspb.org.uk

RSPB

Elusen yn y DU yw RPB yn gweithio i sicrhau amgylchedd iach i adar a bywyd gwyllt. Fe'i sefydlwyd ym 1889 ac ers hynny mae wedi tyfu i fod yn elusen cadwraeth bywyd gwyllt mwyaf Ewrop gyda dros filiwn o aelodau. Mae'r RSPB wedi ymrwymo i gefnogi achos cadwraeth bioamrywiaeth o fewn y ddadl ehangach ar ddatblygu cynaliadwy. Mae'r RSPB hefyd yn gweithio tuag at faterion cadwraeth ryngwladol trwy Bartneriaeth Bywyd Adar sydd yn gynghrair byd-eang o gyrff cadwraeth.

Mae RSPB Cymru wedi bod yn weithredol mewn nifer o weithgareddau cadwraeth yng Nghymru yn cynnwys er enghraifft:

- Mae'r grugiar ddu wedi bod yn ymladd ei ffordd yn ôl o ymyl difodiant ers tua phymtheg mlynedd yng Nghymru. Mae RSPB Cymru, Menter Coedwigoedd Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a pherchnogion tir eraill wedi bod yn gweithio'n agos ar Brosiect Adfer y Grugiar Ddu ers 1998.
- Ar fferm Llyn Fyrnwy ar ben deheuol Mynydd y Berwyn yng Nghanolbarth Cymru mae RSPB Cymru a Dŵr Hafren Trent yn dangos y gall ffermio modern fynd llaw yn llaw gydag ymarferion amgylcheddol da i greu amgylchedd iach i bobl, adar a bywyd gwyllt arall.
- Mae tir Gwlyb i Gymru yn brosiect wedi ei ariannu gan Gronfa Treftadaeth y Loteri i adfer etifeddiaeth coll tiroedd gwlyb yng Nghymru. Mae'n bartneriaeth rhwng RSPB Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt er budd bioamrywiaeth yng Nghymru.

BTCV

Elusen yw BTCV sydd yn cefnogi gwaith cadwraeth ymarferol gan wirfoddolwyr ledled gwledydd Prydain. Mae'n cefnogi nifer o grwpiau lleol ar draws y wlad, yn cynnal cyrsiau hyfforddi ac yn trefnu gwyliau gwaith. BTCV yw elusen cadwraeth ymarferol fwyaf y DU. Fe'i sefydlwyd ym 1959 ac mae'n helpu dros 130,000 o wirfoddolwyr i weithredu'n ymarferol i wella'r amgylchedd gwledig a threfol. Mae gwaith project lleol BTCV hefyd yn gwneud cyfraniad at weithredu Cynlluniau Gweithredu Cynefinoedd Lleol ar gyfer gwrychoedd hynafol ac/neu sydd yn gyfoethog o ran rhywogaethau, pyllau, mawnogydd, gweundiroedd a gwelyau calch.

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.btcv.org

Mae BTCV Cymru, trwy ei amrywiol brosiectau datblygu cymunedol yn ceisio cefnogi a galluogi unigolion a grwpiau i adnabod materion amgylcheddol yn eu cymdogaethau a dyfeisio a gweithredu strategaethau i ddelio â hwy. Eu cenhadaeth yw cefnogi datblygu cynaliadwy trwy sicrhau fod sgiliau a gwybodaeth gynyddol yn gymorth i gyflogadwyedd ac yn helpu cymunedau i ddeall ac integreiddio materion amgylcheddol gyda chanlyniadau economaidd a chymdeithasol. Mae rhai o'r projectau datblygu cymunedol a gynhelir gan BTCV Cymru ar draws Cymru yn cynnwys.

Cyrff Anllywodraethol a Chyrff Cymdeithasau Dinesig

- **Project Perllannau a Dolau Cymunedol** sef plannu perllan gymunedol a chreu dôl gymunedol yng Ngogledd Ddwyrain Cymru
- **Trawsnewid glaswelltir nad yw'n cael ei ddefnyddio** Mae darn mawr o laswelltir nad yw'n cael ei defnyddio yn Y Waun yn Llwynhendy yn cael ei drawsnewid gan BTCV Cymru gyda chymorth preswylwyr lleol. Mae'r gymuned leol wedi dod ynghyd i gasglu syniadau am yr ardal sydd yn cynnwys gwell mynediad, blodau gwyllt, llwyni a choed, drysfa, cerfluniau a seddi.
- **Ymladd yn erbyn ymddygiad gwrthgymdeithasol** Mae'r project hwn yn helpu'r gymuned ar ystâd Waunheulog ym Mlaenau Gwent i asesu pa fesurau y gellir eu cymryd i ymladd yn erbyn ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Eraill

Cyrff gwirfoddol eraill sydd yn canolbwyntio ar faterion amgylcheddol cynaliadwy yw:

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.cardiffconservation.org.uk

Gwirfoddolwyr Cadwraeth Caerdydd

Grŵp o 140 o wirfoddolwyr yw Gwirfoddolwyr Cadwraeth Caerdydd sydd yn ceisio hyrwyddo cadwraeth, amddiffyn a gwelliant amgylchedd ffisegol a naturiol yng Nghymru. Mae'r grŵp yn gwneud gwaith sydd yn cynnwys clirio llystyfiant wedi gordyfu, defnyddio nifer o dechnegau draeniad, gwaith ail-wynebu, adeiladu bwrdd lwybrau ac adeiladu grisiau i gynnal llethrau ac uwchbridd. Maent hefyd yn weithredol mewn rheolaeth tir a thechnegau cadwraeth sydd yn cynnwys ffensio, adeiladu waliau sych, gosod gwrychoedd ac adfer cynefinoedd dŵr trwy glirio pyllau a chamlesi.

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.farm.org.uk

FARM – Llais Annibynnol Ffermwyr

Sefydlwyd FARM yn sgil yr epidemig clwy'r traed a'r genau yn 2001 gan grŵp o ffermwyr ac ymgyrchwyr oedd yn rhannu dadansoddiad cyffredin o achosion ac atebion yr argyfwng mewn ffermio. Mae'n grŵp ymgyrchu sydd yn dwyn ffermwyr, defnyddwyr ac amgylcheddwyr at ei gilydd i ymladd am ddyfodol cynaliadwy i ffermio yn y DU. Mae FARM wedi ymrwymo i atal tranc y diwydiant ffermio ac i ddwyn gwir gynaladwyedd i bolisi ac ymarfer ffermio fel bod amaethyddiaeth yn gallu cyflwyno ei botensial llawn o fanteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i gymdeithas. Mae FARM yn rhedeg ymgyrchoedd arloesol ac effeithiol sydd yn:

- Herio polisi ac ymarfer llywodraeth a diwydiant sydd yn niweidiol i ffermwyr, defnyddwyr a'r amgylchedd
- Cynnwys y cyhoedd mewn materion ffermio, adeiladu dealltwriaeth a phwrpas ar y cyd tuag at gynaladwyedd mewn amaethyddiaeth
- Hyrwyddo'r gwerthoedd ehangach y mae ffermio yn ei ddarparu i gymdeithas, sydd wedi ei anwybyddu gan asesiad economaidd confensiynol ond sydd yn hanfodol i'n tirwedd, bywyd gwyllt, cymunedau a diwylliant, yn ogystal ag i ddiwydiannau eraill.

Ffocws Cymdeithasol

Oxfam

Corff Prydeinig annibynnol yw Oxfam sydd wedi cofrestru fel elusen ac sydd yn aelod o Oxfam Rhyngwladol. Mae'n gweithio yn genedlaethol ac yn rhyngwladol i oresgyn tlodi a dioddefaint ac yn gweithredu fel 'llais ymgyrchu pwysig' ar ran tlodion y byd. Mae Rhaglen Dlodi DU Oxam yng Nghymru yn canolbwyntio ar bump prif thema:

- Rhoi llais i bobl a chryfhau cyrff cefn gwlad
- Datblygu ymwybyddiaeth rhyw a datblygiad sydd yn deg i ryw
- Dod â phersbectif rhyngwladol i waith gwrth dlodi yng Nghymru
- Mynd i'r afael â chysylltiadau rhwng hil, tlodi ac eithrio
- Herio agweddau negyddol tuag at bobl yn byw mewn tlodi.

Mae gwaith 'Oxfam Cymru' wedi ei dargedu tuag at y nod o wneud 'cyfraniad amlwg i greu Cymru gyda synnwyr cryf o genedligrwydd sifil sydd yn gynhwysol, gyfranogol ac yn canolbwyntio'n allanol'. Enghraifft dda o hyn mewn ymarfer yw 'Tîm Addysg Datblygu Oxfam Cymru' sydd yn gweithio mewn partneriaeth gyda nifer o gyrff ar draws Cymru (yn cynnwys y Cynulliad) a'r Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol i 'hyrwyddo dinasyddiaeth fyd-eang a datblygu cynaliadwy yn y Cwricwlwm Cenedlaethol Cymreig'.

Amnest Rhyngwladol

Mae Amnest Rhyngwladol yn fudiad byd-eang sydd yn ymgyrchu dros amddiffyn hawliau dynol cydnabyddedig rhyngwladol. Mae'n gweithio tuag at 'atal a rhoi terfyn ar gam-drin difrifol yr hawliau i gyfanrwydd corfforol a meddyliol, rhyddid cydwybod a mynegiant, a rhyddid rhag gwahaniaethu' ac i hyrwyddo pob hawl dynol.

Cyrff Anllywodraethol a Chyrff Cymdeithasau Dinesig

Mae swyddfa Gymreig Amnest Rhyngwladol yn darparu ffocws ar gyfer ymgyrchu a digwyddiadau yng Nghymru. Mae'r gweithgareddau a gefnogir yn cynnwys:

- Codi pryderon Amnest gyda gwleidyddion Cymreig
- Cael sylw i'w hymgyrchoedd ar y cyfryngau
- Croesawu siaradwyr rhyngwladol ar Hawliau Dynol
- Darparu adnoddau ymgyrchu i weithredwyr yng Nghymru
- Helpu pobl ifanc i ddysgu am Hawliau Dynol.

Mae Amnest Rhyngwladol mewn partneriaeth gyda Chanolfan Addysg Datblygu ac Amgylchedd Powys (PEDEC) ac actorion eraill yng Nghymru hefyd wedi sefydlu rhwydwaith Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol yn ddiweddar i edrych ar ffyrdd o gryfhau sector moesegol busnes yng Nghymru.

UNICEF

Trwy weithio i gyflawni'r nod o 'i bob plentyn Iechyd, Addysg, Cydraddoldeb, Diogelwch, Uwch Ddynoliaeth', cronfa blant y Cenhedloedd Unedig yw UNICEF. Yn y DU mae UNICEF yn gweithio i 'newid agweddau ac ennill cefnogaeth i hawliau plant trwy ymgyrchu ar faterion plant yn y DU ac yn rhyngwladol, gan weithio gyda phartneriaid mewn cyrff lleol, ysgolion, ysbytai a busnes a chodi arian i gefnogi rhaglenni UNICEF yn rhyngwladol'. Mae'n codi arian i raglenni UNICEF o gwmpas y byd, yn eiriol am newid a chynnydd mewn ymwybyddiaeth gyhoeddus o'r materion sy'n wynebu plant ac yn ymgyrchu i newid polisi llywodraeth. Adlewyrchir ymgyrchu UNICEF ym mhenodiad Comisiynydd Plant cyntaf Cymru yn 2001 gan y Cynulliad.

Achub y Plant

Mae Achub y Plant yn gweithio yn lleol yng Nghymru ac yng ngweddill y DU yn ogystal ag yn fyd-eang 'i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y dyfodol y maent yn ei haeddu'. Yn hytrach nag weld plant a phobl ifanc fel 'y broblem', mae Achub y Plant yn credu mai 'ganddynt hwy y mae'r amser ac mai hwy yw ein hadnawdd gorau a mwyaf egnïol'. Mae'n ceisio darganfod atebion gydol oes i'r plant hynny sydd yn dioddef oherwydd tlodi, afiechyd, anghyfiawnder a thrais. Wrth fynd ati i gyflawni'r nod hwn mae'n annog cyfranogiad gan blant a phobl ifanc yn ei waith, lle bynnag mae hynny'n bosibl.

Amcan allweddol Achub y Plant yng Nghymru yw cefnogi Llywodraeth y Cynulliad i ddatblygu a gweithredu 'strategaeth tlodi plant trawsbynciol sydd yn mynd i'r afael â meysydd allweddol fel mynediad i iechyd, trafnidiaeth, hamdden, cefnogaeth teulu ac mae hefyd yn ceisio delio ag effeithiau negyddol tlodi fel hunan barch gwael a bwlio'.

Eraill

Mae cyrff eraill sydd yn gweithio'n weithredol i gynyddu cyfalaf dynol a chymdeithasol yng Nghymru yn cynnwys;

- Mae **Ymddiriedolaeth y Tywysog** yn elusen DU gyfan sydd yn helpu pobl ifanc i 'oresgyn rhwystrau a chael eu bywydau ar waith'. Mae'n gweithredu rhaglen eang o hyfforddiant, mentora a chymorth ariannol wedi eu teilwra i anghenion penodol pobl ifanc 14-30 oed sydd angen cefnogaeth ychwanegol i wireddu eu potensial eu hunain Mae'r elusen yn canolbwyntio ar oedolion ifanc sydd wedi 'ymdrechu yn yr ysgol, wedi bod mewn gofal, wedi bod mewn helynt gyda'r gyfraith neu wedi bod yn ddi-waith am dymor hir'.
- Mae **Cymorth Cristnogol** yn gweithredu ledled y DU yn gweithio gydag amrediad o gyrff ac unigolion fel rhan o gorff byd-eang sydd yn 'ymdrechu am gyfiawnder'.Yng Nghymru mae Cymorth Cristnogol yn gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg a Saesneg. Yn ogystal ag addysgu'r cyhoedd am achosion ac effeithiau tlodi ac anghyfiawnder a'r pethau y gellir eu gwneud i greu gwahaniaeth, mae hefyd yn gweithio gydag ysgolion mewn ymgais i gyflwyno 'dinasyddiaeth fyd-eang' i'r cwricwlwm.
- Mae **Barnados** yn darparu cefnogaeth i blant ledled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Hwn yw elusen plant mwyaf y DU ac mae'n ceisio helpu'r 'plant a'r bobl ifanc mwyaf bregus i drawsnewid eu bywydau a chyflawni eu potensial'. Gyda'r gred y dylai pawb fod yn rhydd o 'dlodi, camdriniaeth a gwahaniaethu' mae'n canolbwyntio ar helpu plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i oresgyn problemau hir dymor o anfantais'.

Yng Nghymru

Cynnal Cymru

Mae 'cynnal' yn air eithriadol o bwerus yn Gymraeg, sydd yn golygu cynnal, cefnogi, meithrin ac arwain. Cynnal Cymru yw'r Fforwm Datblygu Cynaliadwy yng Nghymru. Mae'n gwmni annibynnol heb fod ar gyfer elw sydd ag aelodaeth yn agored i bawb. Mae'n cael ei gyllido

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.cynnalcymru.org
www.sustainwales.com

Cyrff Anllywodraethol a Chyrff Cymdeithasau Dinesig

gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Bwrdd Croeso Cymru, Llywodraeth y Cynulliad. Sefydlwyd Cynnal Cymru oherwydd dyletswydd y Cynulliad i hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Cynhyrchodd y Cynulliad ei Gynllun Datblygu Cynaliadwy cyntaf *'Dysgu Byw'n Wahanol'* ym mis Tachwedd 2000. Un o weithrediadau'r cynllun cyntaf oedd sefydlu corff i weithio gyda'r llywodraeth ond yn annibynnol ohono i gynorthwyo'r cynnydd tuag at ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru. Felly ym mis Rhagfyr 2002, daeth Cynnal Cymru – y Fforwm Datblygu Cynaliadwy i Gymru – i fodolaeth.

Mae Cynnal Cymru yn gweithredu i hyrwyddo datblygu cynaliadwy, i fod yn gatalydd ar gyfer newid tuag at ddatblygu cynaliadwy ym mhob sector o gymdeithas Cymru ac fel fforwm o fewn Cymru ar gyfer datblygu, canfasio, cyfnewid a rhannu barn, gwybodaeth a pholisïau ar ddatblygu cynaliadwy. Ei nod yw ychwanegu gwerth nid yn unig mewn hyrwyddo gweithredu ond hefyd mewn diffinio, ailddiffinio a mireinio'r broses o benderfynu ar weithredu. Trwy ei weithgareddau mae'n galluogi cymdeithas sifil i godi ei lefel o ymwybyddiaeth o ddatblygu cynaliadwy, gwella lefel dadl gyhoeddus am ddatblygu cynaliadwy a datblygu ei bolisïau a'i fentrau ei hun fel gwrthbwynt i waith y Cynulliad a Llywodraeth y Cynulliad. Mae ganddo nifer o raglenni penodol yn cynnwys y *Rhaglen Arweinyddiaeth Weithredol – 'Dysgu Byw'n Wahanol'* yn seiliedig ar Raglen Busnes ac Amgylchedd clodfawr Rhaglen ar gyfer Diwydiant Caergrawnt a gyflwynir gyda Phrifysgol Caerdydd a Phrifysgol Cymru, Bangor fel cydran o Reolaeth Sector Cyhoeddus – Rhaglen Hyfforddi Uwch Staff y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'n gweithredu fel cynullydd i ddwyn ymarfer gorau ac ymarfer sydd yn dod i'r wyneb ym mhob agwedd o ddatblygu cynaliadwy, yng Nghymru a thu hwnt i unigolion a chyrff allweddol. Mae'n ffurfio 'barn' yn flynyddol ar thema ddethol trwy broses hollol gyfranogol yn cynnwys yr holl aelodaeth ac eraill, a gaiff ei ystyried mewn Cynhadledd ac yna cyhoeddir y farn – gelir y rhaglen sy'n deillio o hyn yn *'Alwad i Weithredu'*. Mae hefyd yn cynnal digwyddiadau yn y maes, ac mae'n datblygu gwefan gynhwysfawr o'r enw **Sustainwales.com** o weithgarwch DC yng Nghymru, yn cysylltu pobl, projectau, cynnyrch a phethau newydd ar draws y parthau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

Groundwork Cymru

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.groundworkwales.org.uk

Yn y DU mae Groundwork yn ffederasiwn o 47 o Ymddiriedolaethau elusennol yn nifer o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn y wlad i ddod â phobl, lleoedd ac adnoddau at ei gilydd o bob rhan o'r gymuned mewn partneriaethau hir dymor effeithiol. Y diben yw cyflawni cymunedau cynaliadwy trwy gydweithredu amgylcheddol. Mae Groundwork Cymru yn rhan o rwydwaith Groundwork sydd yn gweithio gyda chymunedau lleol mewn ardaloedd o angen.

Mae wedi bod yn weithredol yng Nghymru am dros ddegawd yn cyflwyno rhaglenni amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd mewn ymagwedd holistaidd tuag at adfywio. Mae pedair ymddiriedolaeth yng Nghymru, ym Merthyr a Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont, Caerffili a Wrecsam. Maent i gyd wedi bod yn weithredol ers dros 12 mlynedd ac mae ganddynt enw da am brosiectau ardderchog ar y llawr. Rhyngddynt maent yn cyflogi dros 100 o staff. Mae Groundwork yn rhedeg amrywiaeth eang o brosiectau a rhaglenni yn cynnwys troi tir sydd yn cael ei danddefnyddio yn adnoddau cymunedol, yn cynnwys pobl leol mewn adfywio, defnyddio egwyddorion amgylcheddol cadarn i ffurfio a rheoli newid, a chyflwyno gwelliannau amgylcheddol ymarferol a chynlluniau tirlunio. Mae hefyd yn gweithio i gynnwys cymunedau lleol trwy helpu i adeiladu galluoedd cymunedau i wneud penderfyniadau a gweithredu, hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r amgylchedd, darparu cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a chyfranogiad mewn gweithredu amgylcheddol a gweithio gydag ysgolion. Mae hefyd yn gweithio gyda busnesau i wella rheolaeth a pherfformiad amgylcheddol, darparu gwell amgylchedd ar gyfer buddsoddi newydd a chyfredol, cynorthwyo'r broses o amrywiaeth a newid economaidd a gwella cysylltiadau busnes gyda'r gymuned ac ysgolion. Yn ei waith Gwasanaethau Busnes Amgylchedd mae'n cynnig amrediad o raglenni ymarferol ar gyfer busnesau ac mae'n bartner mewn cyflwyno'r safon rheolaeth amgylcheddol y Ddraig Werdd ledled Cymru, ac mewn darparu Cydlynwyr Amgylchedd Busnes mewn nifer o ardaloedd Awdurdodau Lleol yng Nghymru.

Funky Dragon

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.funkydragon.org/

Mae Funky Dragon – Cynulliad Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru – yn gorffa arweinir gan gyfoedion. Ei nod yw rhoi cyfle i blant a phobl ifanc o 0-25 oed y cyfle i gael lleisio eu barn ar faterion sydd yn effeithio arnynt. Mae'r cyfle i gymryd rhan a chael eu gwrando yn hawl sylfaenol o dan Hawliau'r Plentyn y Cenhedloedd Unedig. Prif dasgau Funky Dragon yw sicrhau fod barn plant a phobl ifanc yn cael ei glywed yn

Cyrff Anllywodraethol a Chyrff Cymdeithasau Dinesig

enwedig gan Lywodraeth y Cynulliad, a chefnogi cyfranogiad mewn gwneud penderfyniadau ar lefel genedlaethol. Fel hyn mae'r Cynulliad yn sicrhau bod pobl iau mewn cymdeithas sydd yn aml heb lais cryf mewn penderfynu ffocws a chyfeiriad polisi yn cael mynediad i wneud penderfyniadau. Mae'n delio â materion cyfiawnder rhyng genedlaethol trwy alluogi mynediad o'r fath a hefyd materion o gyfranogiad sifil yn y broses ddemocrataidd. Er enghraifft, mae Llywodraeth y Cynulliad yn darparu mynediad i ddogfennau ymgynghori i holl bobl ifanc Cymru fel y Strategaeth Amgylchedd i Gymru 2005.

Mae Funky Dragon yn cael ei arwain gan Gyngor Mawr sydd â 77 o aelodau ar hyn o bryd o Gymru gyfan ar gyfer sesiwn 2005-06. Pobl ifanc neu gynrychiolwyr pobl ifanc yw'r aelodau hyn ac felly maent yn gweithio i gyflwyno barn pobl ifanc yng Nghymru i'r Cynulliad ar amrediad eang o bynciau yn cynnwys cyflwyniad band eang yng Nghymru, cyllideb y Cynulliad, mentrau newydd i blant, tlodi plant a nifer o bynciau eraill. Mae Funky Dragon yn cysylltu'n uniongyrchol â Fforymau Ieuenctid ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru.

CYFEIRIAD GWEFAN DEFNYDDIOL

www.wyfsd.org

Fforwm Leuenctid Cymru ar DC

Yn gynnar yn 2002 sefydlwyd project 'Dyfodol Newydd i Gymru' gan y Ganolfan ar gyfer Technoleg Amgen a Techniquest, Caerdydd, gyda chyllid gan y Cynulliad Cenedlaethol. Y nod oedd ennyn diddordeb pobl ifanc Cymru a'u cynnwys mewn datblygu cynaliadwy a chaniatáu iddynt gyfranogi ym mhroses Uwchgynhadledd y Ddaear Johannesburg. Cynhaliwyd y gynhadledd gyntaf ym mis Gorffennaf 2002. Daeth pobl ifanc ar draws Cymru yno i drafod datblygu cynaliadwy a ffurfio datganiad gan ieuenctid Cymru; eu galwadau am yr hyn ddylai gael ei wneud am ddatblygu cynaliadwy. Trwy'r cyfarfod hwn a thrafodaethau pellach, nododd y bobl ifanc y canlynol:

- Nid oedd dull cyson i bobl ifanc Cymru fynegi eu barn ar Ddatblygu Cynaliadwy – er bod project Dyfodol Newydd i Gymru wedi darparu llwyfan i bobl ifanc fynegi eu barn, dim ond blwyddyn oedd hyd y project hwn.
- Roedd diffyg addysg orfodol ar ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru. Gwybodaeth gyfyng oedd gan nifer o bobl ifanc am y pynciau ac nid ydynt yn cysylltu'r hyn a wnânt yn eu bywydau beunyddiol gyda'r effaith ar yr amgylchedd.
- Roedd diffyg addysg am ddatblygu cynaliadwy mewn ysgolion.

Datblygodd y syniad am 'Fforwm Ieuenctid Cymru ar Ddatblygu Cynaliadwy' o'r pryderon hyn. Byddai hwn yn fudiad ieuenctid, wedi'i redeg gan bobl ifanc ar gyfer pobl ifanc a byddai'n fudiad o'r gwaelod i fyny. Cyflwynwyd y datganiad a'r syniad am Fforwm Ieuenctid Cymru ar Ddatblygu Cynaliadwy ym mis Rhagfyr 2003. Ers mis Awst 2003 mae'r Fforwm wedi 'bodoli'n swyddogol' – mae'r aelodau wedi dangos cryn frwdfrydedd ac ymrwymiad yn yr amrywiol ddigwyddiadau y maent wedi cymryd rhan ynddynt.

Nod y Fforwm yw creu byd cynaliadwy ac mae'n gweithio ar egwyddorion addysg, galluogi a gweithredu. Mae'n gweithio i addysgu pobl, ifanc a hen, am faterion datblygu cynaliadwy. Mae'n credu bod addysg cyfoedion – pobl ifanc yn hysbysu pobl ifanc eraill yn offeryn pwysig mewn cyflawni hyn. Mae'n credu hefyd fod barn pobl ifanc yn bwysig a dylai pobl mewn pŵer eu parchu a gwrando arnynt, ac er mwyn creu byd mwy cynaliadwy mae'n hanfodol fod pawb yn gweithredu yn eu bywydau beunyddiol. Mae'r fforwm yn rhoi cyfle i bobl ifanc weithredu'n gadarnhaol.

Mae'r fforwm yn cynnal digwyddiadau'n rheolaidd i bobl ifanc. Weithiau mae'r digwyddiadau yn trafod un pwnc neu gallant fod yn fwy cyffredinol. Fel rheol mae digwyddiadau'n gymysgedd o weithdai yn darparu gwybodaeth ar bwnc, a sesiynau i ganiatáu i aelodau drafod pethau. Mae gwefan y Fforwm yn darparu gwybodaeth a newyddion am bynciau cynaladwyedd. Mae'r Fforwm yn ymgyrchu ar bynciau sydd yn bwysig i'w aelodau. Caiff y fforwm ei rhedeg gan grŵp o bobl ifanc a elwir yn Grŵp Cydlynu ac fe'u cefnogir gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Llywodraeth y Cynulliad, y Grŵp Cydweithredol, Gwerin y Coed yng Nghymru, Cronfa Arbrofol Eryri a nifer o gyrff eraill.

Amgylchedd Cymru

Mae Amgylchedd Cymru yn bartneriaeth o gyrff yn y sector gwirfoddol, a gyllidir gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae'r partneriaid yn cynnwys Cylch, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Groundwork Cymru, BTCV Cymru, Cadw Cymru'n Daclus, Ymddiriedolaeth y Tywysog, RSPB, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Cymru a Cymad. Ymddiriedolaeth y Tywysog sydd yn gyfrifol am weinyddu'r bartneriaeth. Nod Amgylchedd Cymru yw cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy trwy gefnogi ac annog gweithredu gwirfoddol i amddiffyn a gwella amgylchedd Cymru. Ei amcanion yw cyflawni gwelliannau cynaliadwy i'r amgylchedd Cymreig trwy wybodaeth, addysg a gwasanaethau cynghori a helpu i greu

Cyfeiriad Gwefan Defnyddiol

www.environment-wales.org

Cyrff Anllywodraethol a Chyrff Cymdeithasau Dinesig

mentrau amgylcheddol sydd hefyd yn caniatáu i gymunedau a chyrff gwirfoddol gyfrannau at eu hanghenion cymdeithasol ac economaidd.

Mae Amgylchedd Cymru yn darparu pum ffrwd wahanol o gyllid grant i grwpiau cymunedol a heb fod ar gyfer elw ar gyfer gwaith a phrosiectau sydd yn dangos gwelliannau amgylcheddol ymarferol a datblygu cynaliadwy. Mae cyllid yn cefnogi sefydlu grwpiau gwirfoddol neu gymunedol newydd, costau datblygu cyn project fel astudiaethau dichonolrwydd a chynlluniau busnes, deunydd project a gofynion offer, swyddi newydd heb fod yn swyddi craidd, a chyllid i gefnogi hyfforddiant. Ei nod yw cefnogi projectau sydd yn arloesol neu'n gydweithredol yn enwedig y rhai hynny sydd yn arddangos datblygu cynaliadwy ac y gellid eu defnyddio fel modelau mewn mannau eraill. Mae'n annog ac yn cefnogi projectau sydd yn cynorthwyo cyfranogiad cymunedau yn Agenda Lleol 21, ac yn helpu'r projectau hynny fydd yn cyflawni buddiannau mwy i'r amgylchedd gyda chyllid pellach. Mae'n cefnogi grwpiau cymunedol sydd yn gwneud gwaith amgylcheddol ar sail hir dymor ac un o'i nodau yw sicrhau fod grwpiau cymunedol eu hunain yn tyfu ac yn datblygu mewn modd cynaliadwy.

Un o'r mentrau allweddol y mae Amgylchedd Cymru yn ymwneud ag ef yw Enfys. Gelwir y rhaglen Gofod Gwyrdd a Chymunedau Cynaliadwy yng Nghymru yn Enfys. Nod cynllun Enfys yw cynorthwyo cymunedau trefol a gwledig i ddeall, gwella a gofalu am eu hamgylchedd naturiol a byw ac mae'n cynnig cyllid i'r diben hwn. Mae ganddo dair blaenoriaeth ar gyfer ei raglen cyllido; gofod gwyrdd i gymunedau; gwneud mannau gwyrdd yn fwy hygyrch i gymunedau a chynnwys cymunedau mewn datblygu cynaliadwy. Mae'n darparu arian ar gyfer datblygu proses er enghraifft cefnogi ymweliadau cyfnewid, astudiaethau dichonolrwydd ac yn y blaen. Mae hefyd yn cefnogi mentrau cymunedol a'r rhai sydd eisiau cyllid ar raddfa fawr a'r projectau hynny sydd yn dangos gwir bartneriaeth rhwng cyrff ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Nod Enfys yw meithrin a chefnogi syniadau ar gyfer gofod gwyrdd a datblygu cymunedol cynaliadwy o'r gwaelod i fyny ac mae'n targedu pobl leol i sicrhau fod datblygu cynaliadwy yn dod yn realaeth go iawn mewn cymunedau lleol. Mae'n darparu ffocws lleol i gyflawni canlyniadau ymarferol ac mae'n ategu amrediad o fentrau polisi allweddol yng Nghymru yn cynnwys Agenda Lleol 21, cynllunio cymunedol. Strategaeth Plant a Phobl Ifanc, Strategaeth datblygu Cynaliadwy ac eraill.

Gwynedd Gynaliadwy

Mae *Gwynedd Gynaliadwy* yn gorff gwirfoddol sydd wedi ymrwymo i godi ymwybyddiaeth am ddatblygu cynaliadwy yng Ngwynedd. Gan fod yn ymwybodol mai ychydig oedd yr ymwybyddiaeth o Agenda 21 yng Ngwynedd, dechreuodd Mantell Gwynedd (corff ambarél y sector gwirfoddol yn y sir) grŵp a fyddai'n annog dealltwriaeth o'r egwyddorion ymysg preswylwyr yr ardal. Gyda chefnogaeth gan Gyngor Amddiffyn Cefn Gwlad Cymru sefydlwyd *Gwynedd Gynaliadwy* o'r grŵp hwn a llwyddwyd i gael cymorth gan Gist Gwynedd (Cyngor Gwynedd), CAE (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, dan weinyddiaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri) a Mantell Gwynedd. Ffurfiwyd y corff ym 1998 ac ym mis Hydref 2001 derbyniodd gyllid grant i gyflogi Swyddog Datblygu i gydlynu gwaith y corff.

Mae'r corff yn gwasanaethu rhwydwaith cynhwysfawr o wybodaeth am ymarfer da a materion cynaladwyedd yng Ngwynedd a thu hwnt. Ei nod yw datblygu sgiliau a hyder grwpiau cymunedol ac unigolion i weithredu tuag at gychwyn projectau lleol a ffyrdd o fyw cynaliadwy. Mae hefyd yn anelu at gynyddu ymwybyddiaeth o egwyddorion datblygu cynaliadwy yng Ngwynedd, ac i annog sefydlu mentrau sydd yn cyfrannu tuag at ddatblygu cynaliadwy yn y sir. Ym mis Ionawr 2004 roedd 66 corff yn aelodau ohono a 65 o aelodau unigol. Roedd y rhaglen waith ar gyfer 2004 yn cynnwys pynciau ynni, cyrff cynaliadwy, bwyd iach/lleol, gwastraff, codi ymwybyddiaeth a phartneriaethau. Mae Gwynedd Gynaliadwy hefyd yn ddiweddar wedi cynhyrchu cyfeirlyfr yn disgrifio enghreifftiau o ddatblygu cynaliadwy yng Ngwynedd.

Asiantaeth ynni Canolbarth Cymru

Cenhadaeth Asiantaeth Ynni Canolbarth Cymru yw gostwng allyriadau carbon deuocsid trwy hyrwyddo a hwyluso ynni cynaliadwy yng Nghanolbarth Cymru. Fe'i sefydlwyd yn 2000 fel Asiantaeth Ynni Powys ond dan ei enw newydd mae bellach yn cynnig cefnogaeth ynni cynaliadwy i Ganolbarth Cymru gyfan. Mae'r Asiantaeth yn gwmni cyfyngedig gan warant; mae'n gorff heb fod ar gyfer elw ac mae iddo statws elusennol.

CYFEIRIAD GWEFAN DEFNYDDIOL

www.gwyneddgynaladwy.org.uk

Cyrff Anllywodraethol a Chyrff Cymdeithasau Dinesig

Gyda chyllid gan Gyngor Sir Powys, WWF Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru a rhaglenni Ewropeaidd yn cynnwys Altener, Asiantaeth SAVE a FEDARENE, mae'r Asiantaeth yn darparu arbenigedd a chyngor o natur dechnolegol i breswylwyr, awdurdodau lleol, busnesau a grwpiau cymunedol gan godi ymwybyddiaeth o faterion ynni, cefnogi adfywio gwledig trwy ynni adnewyddol a hyrwyddo buddsoddi mewn effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddol, yn enwedig trwy grantiau a chyllid.

Mae ei brosiectau yn cynnwys ffynonellau ynni adnewyddol, archwilio ynni, datblygu tanwydd coed, arolygon gwres, grantiau gwresogi dŵr gydag ynni'r haul, technolegau carbon isel a dim carbon ar gyfer cartrefi symudol, pŵer gwynt cymunedol ac eraill. Mae hefyd yn cyfrannu at gynllunio a chanllaw polisi ar gyfer strategaethau ynni ar lefel gymunedol a chynorthwyo strategaethau ynni a ddatblygir gan wahanol gyrff.

Cyrff Ymchwil ac Academaidd

Fforwm ar gyfer y Dyfodol

CYFEIRIAD GWEFAN DEFNYDDIOL

www.forumforthefuture.org.uk

Mae'r Fforwm ar gyfer y Dyfodol yn elusen a sefydlwyd ym 1996 gyda'r nod o gyflymu datblygu cynaliadwy trwy fabwysiadu dull wedi'i seilio ar atebion, yn y gred fod nifer o'r atebion sydd eu hangen i adeiladu cymdeithas fwy cynaliadwy eisoes ar gael. Mae'r Fforwm wedi datblygu nifer o fentrau allweddol gyda'r nod o wthio ymlaen yr agenda cynaladwyedd ymysg amrediad eang o lunwyr barn a llunwyr penderfyniadau yng nghymdeithas y DU thu hwnt.

Mae rhai o'r prif fentrau yn cynnwys:

- Rhaglen Economi Cynaliadwy – mae'r rhaglen hon yn ceisio datblygu economi sydd yn cyfuno cynaladwyedd amgylcheddol gyda lles economaidd a chymdeithasol. Mae'n canolbwyntio ar dri maes: amaethyddiaeth gynaliadwy a datblygu gwledig; marchnadoedd cyfalaf a chynaladwyedd (trwy'r Ganolfan dros Fuddsoddi Cynaliadwy); a dulliau a chyflwyniad cyfrifo cynaliadwy.
- Rhaglen Fusnes y Fforwm – mae'r rhaglen hon yn ceisio trawsnewid meddwl ac ymddygiad corfforaethol fel bod egwyddorion cynaladwyedd yn dod yn rhan annatod o strategaeth ac ymarfer busnes. Gweithgarwch craidd y rhaglen yw ei bartneriaethau gyda dros 45 o fusnesau.

Sefydliad Economeg Newydd

CYFEIRIAD GWEFAN DEFNYDDIOL

www.neweconomics.org

Mae Sefydliad Economeg Newydd yn 'seiat doethion a gweithredwyr' annibynnol sydd yn ceisio ysbrydoli a dangos lles economaidd go iawn. Fe'i sefydlwyd ym 1986 gan arweinwyr *The Other Economic Summit* (TOES) a wthiodd bynciau fel dyled ryngwladol ar agenda cynadleddau G7 a G8. Nod Sefydliad Economeg Newydd yw gwella ansawdd bywyd trwy hyrwyddo atebion arloesol sydd yn herio meddwl prif ffrwd ar faterion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Maent yn ceisio cyfuno dadansoddiad a dadl polisi gydag atebion ymarferol ar y llawr, yn aml wedi'u rhedeg a'u dylunio gyda chymorth pobl leol. Maent hefyd yn creu dulliau newydd o fesur cynnydd tuag at well lles a chynaladwyedd amgylcheddol ac maent er enghraifft, wedi chwarae rhan bwysig yn natblygiad y Mynegai ar gyfer Lles Economaidd Cynaliadwy.

Cyrff Ymchwil ac Academaidd

CYFEIRIAD GWEFAN DEFNYDDIOL

www.copenhagencentre.org

Canolfan Copenhagen

Mae Canolfan Copenhagen yn sefydliad hunanlywodraethol, rhyngwladol a sefydlwyd ac a gyllidwyd gan Lywodraeth Denmarc yn dilyn Cynhadledd Byd y CU ar gyfer Datblygu Cymdeithasol ym 1995.

Nod y Ganolfan yw nodi, datblygu a chynhyrchu gwybodaeth am gyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol gyda ffocws neilltuol ar bartneriaethau cymdeithasol newydd. Mae'r corff yn rhannu gwybodaeth wedi'i anelu at wella cydweithrediad ac adeiladu partneriaethau rhwng busnes, llywodraeth a chyrff cymdeithas sifil yn eu hymdrechion i fynd i'r afael â sialensiau cymdeithasol.

Mae projectau allweddol yn cynnwys:

- Menter Partneriaethau Traws Sector a ddyluniwyd i ddarparu her ddeallusol, hyfforddiant ymarferol, cyngor a chefnogaeth i'r rhai sydd yn arwain eu cyrff yn natblygiad partneriaethau traws sector.
- Mae'r Mynegai Cystadleugarwch Cyfrifol a luniwyd ar y cyd gydag AccountAbility yn fenter ymchwil sydd yn canolbwyntio ar sut y mae ymarferion cyfrifoldeb corfforaethol yn effeithio ar gystadleugarwch rhyngwladol cenhedloedd a rhanbarthau.
- Mae Academi Busnes mewn Cymdeithas Ewropeaidd a lansiwyd yn 2002 yn gynghrair o sefydliadau academaidd, cwmnïau, rhwydweithiau busnes a sefydliadau llywodraeth wedi'i anelu at integreiddio cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol i galon theori ac ymarfer busnes.

CYFEIRIAD GWEFAN DEFNYDDIOL

www.cpi.cam.ac.uk

Rhaglen ar gyfer Diwydiant Prifysgol Caergrawnt

Mae Rhaglen ar gyfer Diwydiant Caergrawnt yn darparu rhaglenni datblygu arweinyddiaeth a gwasanaethau dysgu i unigolion a chyrff mawr o gwmpas y byd. Mae'n canolbwyntio ar ddatblygu gallu o fewn busnesau, llywodraethau a chymdeithas sifil i ymateb i sialensiau cymdeithasol cyfoes.

Arbenigedd y Rhaglen yw deall sut mae pobl yn dysgu a datblygu prosesau dysgu all newid unigolion a chyrff mewn modd a fydd yn symud cymdeithas tuag at gynaladwyedd. Mae ei raglenni yn tynnu oddi ar gyfranwyr gorau'r byd o gylchoedd academaidd, polisi ac ymarfer ac mae ei rwydweithiau cyn fyfyrwyr gweithgar a phartneriaid eraill yn darparu cyfrwng ar gyfer dadl a datblygiad parhaus. Mae'r Rhaglen yn cydweithio gyda phartneriaid academaidd a phartneriaid eraill ac ategir ei waith lle mae angen gan ymchwil cymwys.

Mae gwaith y Rhaglen yn cefnogi cenhadaeth Prifysgol Caergrawnt,. I gyfrannu at gymdeithas trwy addysg, dysgu ac ymchwil ar lefelau rhagoriaeth ryngwladol uchaf.

Sefydliad Adnoddau'r Byd

CYFEIRIAD GWEFAN DEFNYDDIOL

www.wri.org

Sefydlwyd y Sefydliad dros ugain mlynedd yn ôl gyda'r nod o greu atebion i ddiogelu'r Ddaear a gwella bywydau pobl. Mae gwaith y Sefydliad yn canolbwyntio ar bedwar nod allweddol: diogelu systemau byw'r Ddaear, cynyddu mynediad i wybodaeth, creu menter a chyfle cynaliadwy ac atal cynhesu byd-eang. Mae'r Sefydliad yn ceisio cataleiddio newid trwy sefydlu partneriaethau sydd yn gweithredu atebion yn seiliedig ar anogaeth, harnesu pŵer marchnadoedd i sicrhau newid. Mae'r Sefydliad yn darparu gwybodaeth ar bolisi a newid sefydliadol wedi'i anelu at feithrin datblygiad sydd yn amgylcheddol gadarn ac yn gymdeithasol deg.

Sefydliad Wuppertal

CYFEIRIAD GWEFAN DEFNYDDIOL

www.wupperinst.org

Mae Sefydliad Wuppertal a sefydlwyd ym 1991 gan lywodraeth Gogledd Rhine-Westphalia yn yr Almaen yn sefydliad rhyngddisgyblaethol ac ymarferol sydd yn ceisio cyfryngu rhwng gwleidyddiaeth, economi a'r gwyddorau i gyfathrebu'r cysyniad o ddatblygu cynaliadwy fel y'i ddiffiniwyd yng Nghynhadledd y Ddaear yn Rio ym 1992. Canllaw gwaith gwaelodol y Sefydliad yw 'rhagor o gyfoeth, llai o ddefnydd adnoddau naturiol.' Mae wedi bod yn weithredol wrth ddatblygu a hyrwyddo cysyniadau fel Ffactor Pedwar ac eco-effeithlonrwydd.

Cyrff Ymchwil ac Academaidd

CYFEIRIAD GWEFAN DEFNYDDIOL

ABERYSTWYTH:

www.aber.ac.uk/publications/ug/country/bscruraldevelopment.shtml

BANGOR:

www.bangor.ac.uk/
www.bangor.ac.uk/ies/ies.html
www.cazs.bangor.ac.uk/
www.bc.bangor.ac.uk/
www.bangor.ceh.ac.uk/
www.bangor.ceh.ac.uk/English/ecw.htm
www.bangor.ac.uk/addysgbyd/eng/home.htm
www.calu.bangor.ac.uk/
www.ifanc.bangor.ac.uk/

Prifysgolion yng Nghymru

- **ABERYSTWYTH** Mae Aberystwyth yn rhedeg cwrs gradd BSc mewn Datblygu Cynaliadwy Gwledig gyda ffocws ar y sialensiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol neilltuol a wynebir mewn ardaloedd gwledig. Mae ganddo hefyd arbenigedd ymchwil ar wyddorau a datblygiad gwledig, newid amgylcheddol ac effeithiau amgylcheddol, amgylcheddau glaswelltiroedd a ffermio organig.

- **BANGOR** Mae gan Prifysgol Cymru, Bangor hanes o ragoriaeth ymchwil mewn datblygu cynaliadwy ac mae ei academyddion wedi bod yn hyfforddi gwyddonwyr a rheolwyr amgylcheddol. Ymchwilio i gwestiyna amgylcheddol allweddol a rhyngweithio gyda'r llywodraeth a'i asiantaethau i ddarparu atebion i gwestiynau gwyddoniaeth pur ac integreiddio gwyddoniaeth i bolisïau sydd yn ategu datblygu cynaliadwy am sawl blwyddyn. Mae ei arbenigedd DC yn rhychwantu sawl adran: Gwyddorau Amaeth a Choedwigaeth, Gwyddorau Biolegol, Cemeg, Gwyddorau'r Môr a Gwybodeg, Ysgol Astudiaethau Busnes a Datblygiad Rhanbarthol ac Ysgol Gwyddorau Cymdeithas a'r Gyfraith. Mae'r cylch gorchwyl eang hwn yn annog ymchwil rhyngddisgyblaethol ar draws sbectrwm eang sydd wedi'i integreiddio ar lefel israddedig gan y Sefydliad Gwyddorau'r Amgylchedd yn ei radd datblygu cynaliadwy. Mae gan Prifysgol Cymru, Bangor ganolfannau hefyd sydd yn canolbwyntio ar ymchwil cynaladwyedd a gwaith datblygu:

  - Mae *Adnoddau Naturiol CAZS* yn ganolfan hanner hunan lywodraethol, hunan gyllidol ym Mhrifysgol Cymru, Bangor gyda dros ugain mlynedd o brofiad o waith datblygu gwledig yn rhai o wledydd tlotaf y byd lle mae yn gyson wedi defnyddio ac ar adegau arloesi, ymagwedd holistaidd yn ei holl weithgarwch i wella ffyrdd o fyw gwledig a hyrwyddo DC.

  - Mae *Canolfan Gwyddor Môr Cymhwysol (CAMS)* yn darparu gwasanaethau ymchwil o'r radd flaenaf i ddiwydiant, cyrff llywodraethol ac anllywodraethol. Mae'n rhan o Ysgol Gwyddorau Eigion, Prifysgol Cymru, Bangor ac mae'n un o labordai gwyddoniaeth y môr mwyaf yn Ewrop.

  - *Y Ganolfan Defnydd Tir Amgen (CALU)* yw'r bumed Ganolfan Datblygu Cyswllt Ffermio ac mae wedi'i lleoli ym Mangor. Mae'n bartneriaeth rhwng: Prifysgol Cymru, Bangor; Coleg Garddwriaeth Cymru; ADAS Cymru Cyf.; a Choleg Llysfasi.

- Sefydlwyd y *Sefydliad Bwyd, Byw'n Heini a Maeth, Cymru (ifanc)* ym mis Medi 2003 ym Mhrifysgol Cymru, Bangor. Ei brif amcan yw gwella polisi yn berthynol i ymchwil ac addysg ym meysydd bwyd, maeth a byw gweithgar ac felly cynorthwyo i wella iechyd cyhoeddus yng Nghymru.
- Mae'r *Ganolfan Biogyfansoddion* yn Ganolfan Wyddonol o Ragoriaeth a sefydlwyd ym 1989 ym Mhrifysgol Cymru, Bangor gyda chymorth Awdurdod Datblygu Cymru a diwydiant. Nod y Ganolfan yw darparu ymchwil sylfaenol a chymwys blaenllaw i gynnyrch a phrosesau yn seiliedig ar goed, cnydau diwydiannol. Deunyddiau ailgylchu a gwaddodion diwydiannol a throsglwyddo'r technolegau hyn i ddiwydiant.
- Mae'r *Ganolfan Addysg Byd (CAB)* yn Ganolfan Addysg Datblygu sydd yn gweithio ar draws chwe sir Gogledd Cymru yn cynnig cyngor, ymgynghoriaeth a gwasanaeth addysgu tîm i athrawon cynradd ac uwchradd a myfyrwyr ac mae amrediad eang o adnoddau ar gael i'w benthyg gan Ganolfan Adnoddau Addysg Grefyddol.
- Bydd *Canolfan Amgylchedd Cymru*, canolfan rhagoriaeth ar gyfer gwyddoniaeth amgylcheddol newydd ei chymeradwyo yn dwyn ynghyd arbenigedd gwyddonol Canolfan Ecoleg a Hydroleg (CEH) NERC a Phrifysgol Cymru, Bangor. Bydd y ganolfan, sydd mewn labordy newydd ar gampws y Brifysgol yn caniatáu i staff CEH a'r Brifysgol gydweithio'n agosach i ddarparu pwynt ffocws ar gyfer ymchwil a hyfforddiant gwyddoniaeth yng Nghymru.

- **Caerdydd** Mae Caerdydd yn darparu addysgu DC ar lefel meistr trwy MSc Ysgol Cynllunio Dinas a Rhanbarthol mewn Cynaladwyedd, Cynllunio a Pholisi Amgylcheddol. Caiff cryfder ymchwil yn berthynol i DC ei ledaenu trwy Ysgolion y Brifysgol ac mae'n cynnwys cryfder neilltuol mewn bioamrywiaeth, moeseg amgylcheddol a thir wedi'i lygru. Mae hefyd yn ffocws i ymchwil cynaladwyedd trwy'r canolfannau canlynol:
  - *BRASS:* mae'r ganolfan ymchwil rhyngddisgyblaethol hon a gyllidir gan ESCR yn arbenigo mewn ymchwil yn berthynol i gynaladwyedd a chyfrifoldeb cymdeithasol busnes gyda phwyslais ar y diwydiannau bwyd, cerbydau ac electroneg;

Cyrff Ymchwil ac Academaidd

CYFEIRIAD GWEFAN DEFNYDDIOL

CAERDYDD:

www.cardiff.ac.uk/cplan/ri/index.html

www.cardiff.ac.uk/cplan/cres/index.html

www.sustainableregions.net/site/?category=2

MORGANNWG:

www.glam.ac.uk/coursedetails/686/521

LLANDEBR PONT STEFFAN:

www.lamp.ac.uk/cem/course_emsd/shemsd_intro.html

ABERTAWE:

www2.swan.ac.uk/research/groups.htm

- *Canolfan Amgylchedd Wledig a Chymdeithas:* yn ceisio dwyn ynghyd themâu ymchwil amgylcheddol a chymdeithasol mewn perthynas ag ardaloedd gwledig, gwneud cysylltiadau rhwng prosesau naturiol, cymdeithasol, diwylliannol, economaidd a gwleidyddol o fewn ardaloedd gwledig.
- *Sefydliad Cynaladwyedd, Ynni a Rheolaeth Amgylcheddol:* Mae'r ganolfan ymchwil hon yn dwyn ynghyd arbenigedd peirianneg ar faterion geoamgylcheddol, hydroamgylcheddol, ynni, gwastraff a materion amgylcheddol eraill;
- *Sefydliad Adfywio:* Mae'r sefydliad amlddisgyblaethol hon yn canolbwyntio ar ddimensiynau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol adfywio ar gyfer rhanbarthau a chymunedau.
- *Rhanbarthau Cynaliadwy:* mae'r fenter hon o fewn Arsyllfa Arloesi Ysgol Fusnes Caerdydd yn ceisio monitro a gwerthuso dulliau arloesol newydd tuag at DC rhanbarthol a lledaenu ymchwil ac ymarferion gorau ar C i wleidyddion, llunwyr polisi, academyddion, arweinwyr busnes a'r cyhoedd.

- **MORGANNWG** Mae Morgannwg yn cynnig MSc mewn Datblygu Amgylcheddol Cynaliadwy gyda phwyslais ar bolisi a chynllunio mewn tai, isadeiledd, trafnidiaeth a dimensiynau gwleidyddol rheolaeth cynaladwyedd. Mae eu canolfan Ymchwil Amgylchedd Cynaliadwy yn cynnwys yr Uned Ymchwil Hydrogen sydd yn canolbwyntio ar gynnydd technolegol i economi carbon isel ac arbenigedd mewn ymchwil dŵr gwastraff.
- **LLANBEDR PONT STEFFAN** Mae Llanbedr Pont Steffan yn cyflwyno gradd israddedig Rheolaeth Amgylcheddol a datblygu Cynaliadwy yn canolbwyntio ar y prosesau ffisegol sydd yn ffurfio'r amgylchedd naturiol. Monitro ac asesu amgylcheddau ffisegol trwy waith maes a labordy, mapio a synhwyro o bell ac ar y ffyrdd gwahanol y gall cymdeithas ddatblygu strategaethau ar gyfer rheoli ei adnawdd dŵr, pridd, cymunedau planhigion ac anifeiliaid a'r atmosffer.
- **ABERTAWE** Mae Abertawe yn delio â sawl cydran o DC trwy ei ymchwil a'i addysgu. Mae'r Ganolfan Astudiaethau Datblygu yn cynnal ymchwil gyda ffocws ar leihau tlodi, byd-eang a llywodraethu ac iechyd. Mae cryfderau ymchwil neilltuol eraill mewn perthynas â bioleg a bioleg y môr, cyfiawnder cymdeithasol, rhyw a diwylliant a monitro a modelu amgylcheddol.

Datganiad i'r Wasg Llywodraeth Cynulliad Cymru (2002) 'Cymru'n arwain y ffordd ar brif ffrydio rhyw', 13 Mai 2002.

Sefydliad Materion Cymreig, (2002) 'Equal Opportunity and the National Assembly for Wales', 2002, tud16.

OECD (2002) 'Towards Sustainable Household Consumption? Trends and Policies in OECD Countries'. OECD, Paris.

Gareth Wyn Jones & Einir Young (2003) A BRIGHT FUTURE FOR 'RURAL' WALES: An approach to securing greater economic and social justice within Wales and between Wales and the rest of the UK and the EU and to moving to a more sustainable future. Canolfan Menter a Datblygu Rhanbarthol, Prifysgol Cymru, Bangor. Cyfres Papur Gwaith Datblygu Economaidd. Papur Gwaith Rhif 1, (Ebrill 2003) Golygydd y Gyfres: Yr Athro Dylan Jones-Evans (www.cazs.bangor.ac.uk).

Colin Williams (2005) The Case of Welsh/Cymraeg in Wales in *Rebuilding the Celtic Languages – reversing language shift in the Celtic countries* golygydd Diarmuid Ó Néill, Lolfa 1995.

Richard Wyn Jones (2004) Methiant Prifysgolion Cymru. Darlith yr Eisteddfod Genedlaethol, Casnewydd 2004. Cyhoeddwyd gan Sefydliad Materion Cymreig.

Dafydd Glyn Jones (2003) Problem Prifysgol Gwasg Carreg Gwalch.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2002) Anelu'n Uwch: Addysg Uwch a'r wlad sy'n dysgu; strategaeth ar gyfer y Sector Addysg Uwch yng Nghymru.

Einir M Young (2005) A quarter to midnight – Is there a last minute solution for Welsh medium Higher Education? Trafodion UCAC: A forum for bilingual education. Y Lolfa ISBN:0-9500384-2-3.

Rhaglen ar gyfer Diwydiant Prifysgol Caergrawnt (CPI)
Mae Rhaglen Diwydiant Caergrawnt (CPI) yn darparu rhaglenni datblygu arweinyddiaeth a gwasanaethau dysgu i unigolion uwch a sefydliadau o bwys o amgylch y byd. Mae'n canolbwyntio ar ddatblygu gallu mewn busnes, llywodraethau a chymdeithas sifil i ymateb i newidiadau cymdeithasol cyfoes. Mae'r CPI yn arbenigo mewn deall sut mae pobl yn dysgu ac mewn datblygu prosesau dysgu a all newid unigolion a sefydliadau mewn ffyrdd a fydd yn symud cymdeithas tuag at gynaladwyedd. Mae ei rhaglenni yn defnyddio cyfranwyr o fri byd-eang o feysydd academaidd, polisi ac ymarferwyr ac mae ei rhwydweithiau alumni gweithredol yn fodd ar gyfer trafod a datblygu cyfredol. Mae'r CPI yn cydweithio â phartneriaid academaidd a phartneriaid eraill, a chefnogir ei gwaith lle bo'n berthnasol gan ymchwil gymhwysol. Mae gwaith y CPI yn cefnogi cenhadaeth Prifysgol Caergrawnt, sef cyfrannu at gymdeithas drwy addysg, dysgu ac ymchwil i'r safonau rhyngwladol uchaf posibl.

Cynnal Cymru
Mae Cynnal Cymru, Fforwm Datblygu Cynaliadwy ar gyfer Cymru, yn gwmni annibynnol heb fod ar gyfer elw dan arweiniad Bwrdd o Gyfarwyddwyr. Mae Cynnal Cymru'n bodoli i hyrwyddo datblygu cynaliadwy, i fod yn gatalydd ar gyfer newid tuag at ddatblygu cynaliadwy ym mhob sector o gymdeithas Cymru a gweithredu fel fforwm o fewn Cymru ar gyfer datblygu, canfasio, cyfnewid a rhannu barn, gwybodaeth a pholisïau ar ddatblygu cynaliadwy.

Rheolaeth Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru (PSMW)
Nod Rheolaeth Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru (PSMW) yw cefnogi a gwella sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth rheolwyr, arweinwyr a gweithwyr newydd yn y gwasanaeth cyhoeddus am gydweithio ar draws ffiniau gwasanaeth cyhoeddus traddodiadol a chynnwys y gweithlu mewn gwella gwasanaethau cyhoeddus i bobl yng Nghymru. Mae dros 70 o gyrff sector cyhoeddus yn aelodau o Reolaeth Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru ac maent yn cydweithio i ddatblygu arweinyddiaeth a gallu rheolaeth trwy ddysgu ar y cyd, datblygiad trefnyddol a gwell cynllunio a rheolaeth y gweithlu i greu gwasanaethau cyhoeddus gwell a mwy unedig. Mae hwn yn rhan annatod o weledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus fel yr amlygir yn *Gwneud y Cysylltiadau*.

Bwrdd Prosiect
Rod Aspinwall (Cynnal Cymru)
Usha Ladwa-Thomas (PSMW)
Roger Thomas (Cyngor Cefn Gwlad)
Helen Philips (Asiantaeth yr Amgylchedd)
Anne Stephenson (Cymunedau'n Uniongyrchol)
Colin Everett (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru)
Matthew Quinn (Uned Polisi Strategol)
Peter Davies (Busnes yn y Gymuned)
Stuart Reid (CPI) – Cyfarwyddwr Prosiect
Aled Jones (CPI) – Rheolwr Prosiect

Grŵp Datblygu
Stuart Reid (CPI) – Cyfarwyddwr Prosiect
Aled Jones (CPI) – Rheolwr Prosiect
Ken Peattie (BRASS – Prifysgol Caerdydd)
Meirion Thomas (OSKaR – Ysgol Fusnes Caerdydd)
Einir Young (CAZS – Prifysgol Cymru Bangor)

Gwybodaeth Gyswllt
Cynnal Cymru
Temple Court, Cathedral Road, Caerdydd, CF11 9HA
Ffôn: 029 2078 6682 E-bost: info@cynnalcymru.org Gwefan: www.cynnalcymru.org

Rheolaeth Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru
Caradog House, 1-6 St Andrews Place, Caerdydd, CF10 3BE
Ffôn: 029 2064 5416 E-bost: psmw@wales.gsi.gov.uk Gwefan: www.wales.gov.uk/themespsmw/

Rhaglen ar gyfer Diwydiant Caergrawnt
1 Trumpington Street, Cambridge, CB2 1QA
Ffôn: 01223 342100 E-bost: cymru@cpi.cam.ac.uk Gwefan: www.cpi.cam.ac.uk/cymru